The Welsh Government worked closely with a taxi working group using the best practice Welsh policies in existence to create a harmonisation document issued in March 2021²⁸. Welsh Government recommended all Welsh Authorities adopt the template document for all 22 authorities to follow, alongside recommended application forms. Many of the local authorities have decided not to implement the policy voluntarily and currently retain localised policies. This supports the theory that national standards will not be achieved without legislative support.

The Panel have worked extensively with WG officers over many years to assist with the development of both this White Paper and the WG Harmonisation Document.

The Panel has made good progress in voluntarily adopting consistent standards and policies across Wales, and have met agreed WG / WLGA timescales to implement specific areas of the harmonisation document. Further progress was only halted to enable LA's to consider the proposals in the White paper to ensure that any policies were in line with WG plans.

Changing policies within Local Authorities can be a long and complex process with the need for consultation and political input. It was therefore agreed that the Panel would need to wait for the White Paper to be published before any further work on voluntarily pursuing consistent policies would be undertaken. The Panel feel therefore that the statement "Many of the local authorities have decided not to implement the policy voluntarily and currently retain localised policies" is fundamentally incorrect.

Page 45 3.13.2 – "National standards and a requirement for all Authorities including Cardiff to offer Private Hire Drivers licences are likely to reduce these numbers".

The Panel agrees that national standards would assist in reducing cross border operations, however cross border operations between Newport and Cardiff are primarily caused by the differences in qualification requirements, not only the knowledge test. The Panel therefore feels that offering only PHV driver licences would have a limited effect.

Question 19: Is there any data that you would be willing to provide to help in the development of this RIA?

Please see attached addendum.

Question 20: We would like to know your views on the effects that the proposals would have on the Welsh language, specifically on opportunities for people to use Welsh and on treating the Welsh language no less favourably than English. What effects do you think there would be? How could positive effects be increased, or negative effects be mitigated?

Welsh Government must have regard to the Welsh Language Standards as set out by the Welsh Language Commissioner. It is important that applicants can apply in their language of choice.

Question 21: Please also explain how you believe the proposals could be formulated or changed so as to have positive effects or increased positive effects on opportunities for people to use the Welsh language and on treating the Welsh language no less favourably than the English language, and no adverse effects on opportunities for people to use the Welsh language and on treating the Welsh language no less favourably than the English language.

The Panel feels that positive effects could be increased by ensuring that signage, etc., is provided in bilingual format on all taxis and taxi ranks. The Panel would also suggest offering Welsh speaking drivers the opportunity to display a 'Siaradwr Cymraeg' sticker on their vehicle and on their badge.

Question 22: Are there any other issues you would like to raise about taxi and PHV licensing?

Use of Taxi Meters

The Panel believe it should be mandatory for taxis to use their meter to calculate the fare for all journeys in Wales, not just for journeys that start and end within the district. This is a particular issue of concern in Cardiff as it is geographically small but has a high number of visitors from neighbouring areas who require taxis to get home.

The Panel feels that it is unfair that a passenger that lives within the district is subject to legally regulated fares, but a passenger wishing to go outside the district is subject to fares significantly higher as taxi drivers are not obliged to use the meter and can negotiate any fare for the journey.

For example, The Senedd in Cardiff Bay to Penarth is a journey of 3.5 miles, but as the journey crosses over from the Cardiff district into the Vale of Glamorgan district, drivers are not required to use the meter. There have been numerous examples of the public having to pay £40+ for this journey.

There is an inherent imbalance of power to this situation as the normal rules of supply and demand don't apply to a person wanting to get home with no other alternative. This imbalance of power is even more acute when demand is high, such as major event days in the Principality Stadium, or when trains are cancelled. This can leave people financially vulnerable, especially if they are intoxicated, as they have no alternative but to pay an exorbitant price to get home. Cardiff receives many complaints from customers being charged significant amounts to travel back to RCT, Merthyr etc. but there is nothing officers can do despite acknowledging the unfairness.

Passengers wishing to go out of district at the end of the night in Cardiff are required to haggle with drivers or try and find a taxi willing to offer them a lower fare. This causes confusion, frustration and can lead to long queues for taxis, as people must wait for those in front of them to negotiate with the driver.

Taxi marshals on the ranks put people into taxis in queue order – for those that live out of district, they are marshalled into a taxi and then the driver negotiates the fare with them. This is an imbalance of power as the passenger doesn't really have any choice once in the vehicle.

It also encourages drivers to 'cherry pick' out of district fares, resulting in shorter fares being refused in favour of the more lucrative out of town fares, especially during busy periods. This situation has resulted in many lone female students having to walk home back to inner areas such as Cathays.

In the White Paper on page 8, it states:

*"A passenger that is picking up a taxi by hailing it in the street or by going to a taxi rank **has no choice in terms of the specification of vehicle or price.** For this reason, the service provided to them needs to be of a consistent standard and they*

should expect consistency in terms of what they pay for the service which is what fares on a meter provide”.

The Panel strongly believe that it is an omission not to require taxis to use the meter for all journeys. This is a relatively simple change with no foreseen unintended consequences. It is acknowledged that a customer going to a taxi rank has no choice in terms of the price, so it is important that people aren't taken advantage of for living outside of the district - even if it is just Penarth.

Drivers would still be permitted to charge the customer a lower fare than the meter price, just as they can within the district. This would ensure fares for longer journeys could still be negotiated but would provide safeguards to the customer that the price will never be more than the meter.

Drivers would not be compelled to take bookings outside of the district, but if they did, meter rules apply. This would not have the unintended consequence of drivers being unwilling to take these fares as the meter rate is still significant and drivers prefer longer journeys regardless of whether the meter is used.

Standardised fees

The Panel feels that prescribed fees would provide greater consistency and fairness across Wales. Local authorities are currently required to ensure that only the costs associated with providing the taxi licensing service are recovered; no profit can be made.

A recent comparison of fees across the local authorities reveals that where local authorities set fees locally, there is a wide disparity between local authorities which creates a feeling of unfairness and confusion amongst the trade. This is not to say that local authorities have set their fees incorrectly, on the contrary, properly calculated fees should always result in differences. Every Local Authority will have different costs included in the fees levied, which include, but are not limited to; officer salaries; internal recharges, procedures and procurement contracts. Standardised fees which are set by WG and reviewed annually are considered the only way to have consistency across Wales.

Methodology for setting taxi meter fares.

The Panel recognise that taxi meter fares will need to continue to be set locally. Journeys undertaken within the urban areas of Wales will differ greatly from those undertaken in the rural areas. For example, most journeys undertaken in Cardiff are likely to be of a shorter distance than journeys in Mid-Wales, however potentially of longer duration due to heavier volumes of traffic. The metered rate needs to account for these geographical variations to enable an appropriate fee level to be set.

The Panel feels however, that greater consistency can be applied to the fare setting process and would suggest that WG introduce standardised methodology for local authorities to use when calculating the fare levels.

Mandatory CCTV

The Panel believes that CCTV system in Taxis and PHV's are an excellent tool to protect both the public and the driver.

The mere presence of CCTV in a licensed vehicle would have an immediate deterrent against crime and disorder including CSE; Violence against Women; drugs; domestic violence etc.

The Panel would be able to provide extensive examples of where CCTV footage would have been invaluable evidence for corroborating or contradicting complaints received.

The Panel recognises the potential financial implications to the trade of introducing mandatory CCTV systems for all taxis and PHV's but feel that the benefits of such an introduction are far too great for this not to be revisited and seriously considered by WG.

Prescribed application forms

The Panel has already worked extensively with WG Officers to introduce consistency in the forms used for applications and for medicals. Whilst local authorities can continue to work closely on a voluntary basis to develop template application forms, it would be an easy task for WG to prescribe the application forms to ensure consistency across Wales.

Restricted Drivers

In addition to the Panel's submission in relation to Q3 regarding types of licences offered by local authorities. The Panel suggests that consideration be given to the introduction of a restricted dual licence for the purpose of home to school transport **only**. Restricted driver licences would benefit from lesser training requirement with only relevant modules included but would be conditioned so that the driver could only undertake home to school contract work. A number of local authorities in England and Swansea Council in Wales already offer this scheme and report positive effects in supporting home to school contracts.

Neil Chapple
Chair Wales Licensing Expert Panel



Rhif: WG47852

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru

Gorffennaf 2023

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru.

Awdur: Alma Economics



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi gwneud dadansoddiad gwrthrychol a systematig o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae wedi pasio dulliau sicrhau ansawdd mewnol Llywodraeth Cymru.

Ar gael yn: [Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon at ddibenion gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm y Cynllun Trwyddedu Statudol

Rhodfa Padarn

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3UR

E-bost: StatutoryLicensing@gov.wales

Copiâu ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: [Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

Cynnwys

1.	Crynodeb gweithredol.....	1
2.	Cyflwyniad	8
3.	Dull a Methodoleg.....	9
4.	Crynodeb o'r canfyddiadau.....	11
5.	Sylwadau terfynol	108
6.	Atodiad A – dadansoddiad manwl o'r segmentau.....	119

1. Crynodeb gweithredol

Pwrpas yr ymgynghoriad

- 1.1 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru gynlluniau i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer yr holl lety ymwelwyr yng Nghymru. Gan adeiladu ar y cynlluniau hyn, comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn gofyn am farn ar nodau, dyluniad a gweithrediad cynllun trwyddedu statudol.
- 1.2 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 31 o gwestiynau fformat agored gyda meysydd testun rhydd a 33 o gwestiynau fformat caeedig. Cafwyd 1,595 o ymatebion i gyd, gyda 1,133 ohonynt yn gyflawn a 462 yn ymatebion rhannol. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys awdurdodau lleol, darparwyr llety ymwelwyr, cyrff sy'n cynrychioli twristiaeth a phreswylwyr yng Nghymru.

Themâu cyffredinol

- 1.3 Roedd nifer o'r themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro yn cael eu hadlewyrchu'n gyson ar draws nifer o gwestiynau'r ymgynghoriad. Y themâu cyffredinol a oedd yn codi fwyaf oedd:
- Y farn y byddai'r cynllun trwyddedu statudol arfaethedig yn creu baich gweinyddol ac ariannol sylweddol.
 - Awgrym bod y farchnad llety ymwelwyr yn gystadleuol iawn ac felly mae eisoes yn gweithredu'n effeithlon.
 - Anghytuno'n gyffredinol ag unrhyw ffurf ar drwyddedu statudol, heb gynnig unrhyw esboniadau pellach ar gyfer y farn hon.
- 1.4 Ar draws y rhan fwyaf o'r cwestiynau, roedd graddau'r cytuno a'r anghytuno wedi'u rhannu'n gyson rhwng y ddemograffeg. Roedd sefydliadau twristiaeth mawr ac awdurdodau lleol yn fwy tebygol o gytuno â'r cynigion, ac roedd darparwyr llety ymwelwyr a phreswylwyr yn anghytuno gan amlaf.
- 1.5 Cyflwynir isod grynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl maes pwnc.

Nodau a manteision arfaethedig cynllun trwyddedu statudol

- 1.6 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (65%) yn anghytuno â'r cynnig am gynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr, ar sail y baich gweinyddol ac ariannol sylweddol, a phryderon ynghylch effeithiolrwydd y cynllun a'r angen amdano. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig yn gwneud hynny gan amlaf am eu bod yn ystyried ei fod yn debygol o hyrwyddo cydymffurfiaeth â safonau a thegwch ar draws darparwyr.
- 1.7 Roedd ymatebwyr gan amlaf (47%) yn anghytuno â'r cynnig am gynllun cofrestru, er ei fod yn gyffredinol yn cael ei ffafrio dros gynllun trwyddedu oherwydd y dyb y byddai llai o faich gweinyddol ac ariannol ynghlwm wrtho. Roedd y rhesymau o blaid ac yn erbyn yn debyg i'r rhai a nodwyd ar gyfer cynllun trwyddedu.
- 1.8 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (61%) yn anghytuno y byddai cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau tegwch i ddarparwyr llety yng Nghymru, oherwydd credid bod gwahaniaethau sylweddol ymysg darparwyr o ran maint, math a throsiant. Roedd y rhai a oedd yn cytuno â'r datganiad yn bennaf yn argymhell cynllun cofrestru yn hytrach na chynllun trwyddedu.
- 1.9 Roedd ymatebwyr gan amlaf (48%) yn anghytuno â'r cynnig am gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan gyfeirio at yr effaith niweidiol bosibl ar economi Cymru, argaeledd presennol yr wybodaeth dan sylw, a gallu'r farchnad i reoleiddio ei hun. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig yn credu y byddai'r gofrestr yn helpu i sicrhau safonau iechyd a diogelwch o ansawdd uchel ar gyfer llety ymwelwyr.
- 1.10 Roedd yr ymatebwyr yn anghytuno'n bennaf (48%) â'r cynnig am gofrestr debyg ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn dadlau mai dim ond Llywodraeth Cymru ddylai gael mynediad at gofrestr. Ymysg y rheini a oedd yn cytuno, awgrymodd y rhan fwyaf y byddai cofrestr yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio eu gwybodaeth am y cyd-destun lleol, a gwneud ymyriadau wedi'u targedu yn y farchnad llety ymwelwyr leol.

- 1.11 Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (63%) o'r farn y byddai'r cynllun trwyddedu yn llwyfan effeithiol ar gyfer cyfathrebu, oherwydd y baich gweinyddol ac ariannol sylweddol sy'n gysylltiedig. Ymysg y rhai a oedd yn cytuno, roedd y rhan fwyaf yn gwneud hynny ar yr amod y byddai cynllun cofrestru yn cael ei ddefnyddio yn lle trwyddedu.
- 1.12 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (64%) yn anghytuno y byddai'r cynllun trwyddedu arfaethedig yn ennyn hyder pobl mewn darparwyr a llety ymwelwyr, oherwydd y dyb bod y farchnad yn rheoleiddio ei hun yn llwyddiannus. O ganlyniad, awgrymwyd mai dim ond darparwyr o ansawdd uchel sy'n aros yn y farchnad, gan ennyn hyder ymwelwyr yn y darparwyr sy'n dal yno. O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd y rhan fwyaf o'r farn honno ar y sail y byddai'r cynllun yn cynyddu hyder pobl mewn llety ymwelwyr a darparwyr drwy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau.

Darpariaeth genedlaethol neu leol

- 1.13 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn anghytuno (57%) â'r bwriad i ddarparu'r cynllun yn hybrid, lle byddai elfennau fel cofrestru darparwyr yn genedlaethol, a gorfodaeth yn lleol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ffafrio dull gweithredu cwbl genedlaethol i sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd o blaid yn awgrymu y byddai'r ddarpariaeth hybrid arfaethedig yn fecanwaith gorfodi effeithiol.

Mathau o lety o fewn y cwmpas

- 1.14 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn anghytuno (56%) y dylid ystyried yr holl ddarparwyr llety ymwelwyr o fewn cwmpas y cynllun, gyda'r ymatebwyr hyn fel arfer yn awgrymu y dylai darparwyr llai fod yn destun dull gweithredu ysgafnach. Ymysg y rhai a oedd yn cytuno â'r datganiad dan sylw, ystyriwyd y byddai cynnwys pob darparwr yn sicrhau tegwch.
- 1.15 O'r ymatebwyr hynny a oedd yn cynnig awgrymiadau ynghylch pa fathau o lety y dylid eu heithrio o gwmpas y cynllun trwyddedu, soniodd y rhan fwyaf am lety a ddefnyddir ar gyfer gwyliau yn unig, a'r rhai a ddarperir mewn cartrefi preifat.
- 1.16 Roedd ymatebwyr gan amlaf (47%) yn anghytuno y dylai fod yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am osod y llety ar safleoedd carafannau a/neu

wersylla gael trwydded. Yn hytrach, roedd y rhan fwyaf yn awgrymu mai perchnogion parciau a ddylai fod yn gyfrifol. Ymysg y rhai a oedd o blaid y datganiad, roedd y rhan fwyaf yn credu y byddai'n sicrhau bod y safonau'n cael eu cymhwyso'n gyson.

- 1.17 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cynnig sylwadau ychwanegol ar gynllun trwyddedu ar gyfer y sector carafannau a gweryslla yn dadlau na ddylid trwyddedu carafannau o gwbl, oherwydd y baich gweinyddol ac ariannol sylweddol tybiedig sy'n gysylltiedig â chydymffurfio.

Cyfnod gweithredu

- 1.18 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (61%) yn anghytuno y dylai fod angen trwydded ar lety ymwelwyr hyd yn oed os yw'n gweithredu'n anaml, gyda dadl gyffredin ymysg yr ymatebwyr y byddai hyn yn arwain at roi baich gweinyddol ac ariannol anghymesur o uchel ar ddarparwyr o'r fath. Roedd y rheini a oedd yn cytuno â'r awgrym yn gwneud hynny am resymau a oedd yn ymwneud â chysondeb a thegwch ar draws darparwyr.

Trwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol

- 1.19 Roedd yr ymatebwyr yn bennaf (45%) yn anghytuno â'r angen am drwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol, a chyfeiriodd y rhan fwyaf ohonynt at eu hanghytundeb cyffredinol ag unrhyw fath o drwyddedu fel y prif reswm dros hyn. Roedd y rheini a oedd yn cytuno â'r drwydded gyfyngedig yn eirioli dros drwydded ddwy haen a fyddai'n gwahanu llety ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol oddi wrth y gweddill, ac yn credu y byddai hyn yn arwain at degwch.

Gofynion y cynllun

- 1.20 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (55%) yn anghytuno â'r wybodaeth/dogfennau arfaethedig y byddai'n rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr eu darparu i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion trwyddedu. Mynegodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn anghytuno'n gyffredinol heb gynnig unrhyw resymau. O'r ymatebwyr hynny a ymhelaethodd ar eu barn, roedd y rhan fwyaf yn anghytuno oherwydd eu bod yn credu bod y dogfennau a awgrymir yn y cynnig eisoes ar gael drwy

restrau eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd o blaid wedi sôn y byddai'r cynnig yn helpu i orfodi safonau.

Cydymffurfio a gorfodi

- 1.21 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (50%) yn anghytuno â'r dull arfaethedig o gynnal arolygiadau, gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn amau'r angen am gynllun trwyddedu, ac felly unrhyw arolygiadau cysylltiedig. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid y dull gweithredu arfaethedig yn dweud y byddai'n hyrwyddo diogelwch i ymwelwyr a thegwch ymysg darparwyr llety, drwy sicrhau bod yr holl safonau'n cael eu bodloni gan bob darparwr.
- 1.22 Roedd ymatebwyr yn bennaf (42%) yn anghytuno â gwneud darparwyr nad ydynt yn cydymffurfio yn destun mesurau gorfodi, oherwydd eu bod yn anghytuno â'r cynllun trwyddedu a mesurau gorfodi yn gyffredinol. Y thema fwyaf cyffredin ymysg y rhai a oedd yn cytuno oedd y byddai'r cynnig yn sicrhau cydymffurfiaeth.

Prawf Person Cymwys a Phriodol

- 1.23 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (55%) yn anghytuno â chynnwys prawf person cymwys a phriodol neu debyg fel rhan o ofynion y cynllun. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn anghytuno oherwydd bod y term "person cymwys a phriodol" yn oddrychol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno wedi nodi y byddai'r prawf yn gwella diogelwch llety ymwelwyr.

Ffioedd trwydded

- 1.24 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (74%) yn ffafrio ffi ar raddfa yn hytrach na'r un ffi safonol ar gyfer pob llety. Y ffactor graddio a oedd yn cael ei ffafrio yn bennaf oedd maint y llety (roedd 46% yn cytuno gyda graddfa yn seiliedig ar faint).
- 1.25 Roedd yr ymatebwyr gan amlaf (38%) yn anghytuno â galluogi darparwyr i wneud cais am drwydded untro am gost is. Y rheswm mwyaf cyffredin dros anghytuno oedd y baich gweinyddol ac ariannol ar ddarparwyr llety mewn digwyddiadau untro sy'n gysylltiedig â'r cais a chydymffurfio â'r cynllun arfaethedig. O'r rheini a oedd yn cytuno, roedd y rhan fwyaf yn gwneud hynny ar yr amod y byddai'r dull yn gymesur â maint a throsiant pob digwyddiad.

Amllder gwneud cais

- 1.26 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (61%) yn ffafrio ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr adnewyddu eu trwydded bob 5 mlynedd, gan fod yr amllder hwn yn cael ei ystyried yn fwy ymarferol a buddiol o ran llwyth gwaith, gan y byddai angen i ddarparwyr ddangos eu bod yn cydymffurfio'n llai aml.
- 1.27 Roedd ymatebwyr gan amlaf (48%) yn anghytuno â mynnu bod darparwyr llety ymwelwyr yn cynnal adolygiad blynyddol os yw'r amllder adnewyddu yn llai na blynyddol. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn anghytuno oherwydd y baich gweinyddol ac ariannol sy'n gysylltiedig ag adolygu'r dogfennau angenrheidiol i ddangos eu bod yn cydymffurfio. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn cytuno yn nodi y byddai adolygiad blynyddol yn cyd-fynd ag amserlenni eraill, fel archwiliadau nwy, gan leihau'r baich o ddangos tystiolaeth o gydymffurfio.

Tryloywder a mynediad at wybodaeth

- 1.28 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (59%) yn anghytuno â rhannu eu gwybodaeth ag awdurdodau a phartneriaid allweddol. Mynegodd y rhan fwyaf ohonynt bryderon ynghylch diogelwch data. Ar y llaw arall, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig yn dweud y byddai'n annog cydymffurfiaeth â safonau.

Dangos rhifau trwyddedau

- 1.29 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (53%) yn anghytuno â'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr ddangos eu rhif trwydded. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn poeni y byddai'n creu baich gweinyddol ac ariannol sylweddol, yn bennaf oherwydd y byddai angen diweddarau deunydd hysbysebu a marchnata. Y thema fwyaf cyffredin ymysg y rhai a oedd o blaid y cynnig oedd y byddai'n sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y cynllun, gan y byddai ymwelwyr yn gallu adnabod a dewis darparwyr o ansawdd amlwg yn gyflym.
- 1.30 Roedd ymatebwyr gan amlaf (50%) yn anghytuno y dylai trefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli cyfryngau cymdeithasol a sianeli archebu eraill, llwyfannau marchnata, ac asiantaethau hunanddarpar

ddangos rhif trwydded y llety maen nhw'n ei hyrwyddo. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn yn gwneud hynny oherwydd y baich gweinyddol ac ariannol o gydymffurfio â'r cynllun er mwyn i ddarparwyr gael rhif trwydded. Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid gan amlaf yn credu y byddai'r cynnig yn hyrwyddo tryloywder, gan y byddai pawb yn gwybod pa ddarparwyr sydd wedi'u trwyddedu.

Sylwadau terfynol

- 1.31 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn na fyddai cynllun trwyddedu statudol yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Ymysg y rheini a soniodd am effeithiau negyddol, y thema fwyaf cyffredin oedd yr effeithiau niweidiol ar fusnesau bach a chymunedau yng Nghymru. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn credu bod busnesau a chymunedau yng Nghymru yn dibynnu ar y sector twristiaeth, ac y byddai'r cynllun yn cael effaith niweidiol arno. Ymysg y rheini a oedd yn nodi effeithiau cadarnhaol, y thema fwyaf cyffredin oedd yr effaith gadarnhaol ar y stoc dai, gan y byddai awdurdodau lleol yn gallu cydbwysu llety preswyl ac ymwelwyr yn well.
- 1.32 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cynnig tystiolaeth o wledydd eraill a chynlluniau tebyg yn nodi effeithiau niweidiol ar y sector twristiaeth a'r economi yn gyffredinol.

2. Cyflwyniad

Cefndir yr ymgynghoriad

2.1 Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i sefydlu cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob llety ymwelwyr yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru gynlluniau i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob llety ymwelwyr yng Nghymru, gan gynnwys llety gwyliau tymor byr. Y cynnig yw ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael trwydded i weithredu, a fyddai'n helpu i godi safonau ar draws y diwydiant, sicrhau diogelwch ymwelwyr a sicrhau tegwch i bob gweithredwr.

Ffurflen yr ymgynghoriad

2.2 Ym mis Rhagfyr 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus, a gynhaliwyd am 13 wythnos, i gasglu safbwyntiau ar ei chynnig i sefydlu cynllun trwyddedu statudol ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru.

2.3 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am wybodaeth am ddyluniad, cwmpas a phwrpas cynllun trwyddedu statudol. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft: (i) nodau a manteision arfaethedig cynllun trwyddedu statudol, (ii) yr hyn sy'n cael ei ffafrio o ran darpariaeth genedlaethol neu leol, (iii) mathau o lety a ddylai fod o fewn y cwmpas, a (iv) yr effaith ar y Gymraeg.

2.4 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 31 o gwestiynau fformat agored gyda meysydd testun rhydd a 33 o gwestiynau fformat caeedig, gan gynnwys 25 cwestiwn ar gynllun trwyddedu statudol arfaethedig, ac 8 cwestiwn ar ddemograffeg ymatebwyr.

2.5 Cafodd yr ymgynghoriad 1,133 o ymatebion cyflawn a 462 o ymatebion rhannol. Roedd yr ymatebion cyflawn yn cynnwys 1,050 o ymatebion a gyflwynwyd yn electronig fel rhan o'r prif arolwg, ac 83 o ymatebion copi caled a dderbyniwyd drwy e-bost a phost mewn ymateb i'r prif arolwg. Roedd yr holl ymatebion yn cael eu trin yn gyfartal ni waeth sut cawsant eu cyflwyno.

3. Dull a Methodoleg

Prosesu data

- 3.1 Cyn adolygu'r ymatebion â llaw, fe wnaethom ddefnyddio algorithmau dadansoddi testun awtomataidd i sgrinio ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch wedi'i threfnu neu rai a oedd yn amlwg yn fwriadol sarhaus, difriol neu anwedus. Mae ein dull gweithredu yn defnyddio cyfatebiadau niwlog yn Python i nodi "clystyrau" o ymatebion mewn modd meintiol, gan ddefnyddio iaith neu strwythur brawddegau tebyg iawn. Yn ystod ein dadansoddiad thematig â llaw, rydym yn edrych yn fanylach ar ymatebion i chwilio am ddyblygu posibl neu ymatebion ymgyrchu. Drwy gydol y broses hon, nodwyd nifer fach o ymatebion ymgyrchu¹, ond nid oedd y rhain yn cael eu hystyried yn ddigon sylweddol i ystumio'r canfyddiadau, felly ni chafodd unrhyw addasiad ei wneud.

Dull dadansoddi meintiol

- 3.2 Ar ôl cyfuno'r holl setiau data i gynnwys yr holl ymatebion o bob ffynhonnell, aethom ati i gynnal dadansoddiad disgrifiadol ac yn ôl segmentau. Cyflwynir y dadansoddiad mewn siartiau a thablau, gan grynhoi'r ymatebion fel canran o'r ymatebwyr a atebodd bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Cyflwynir dadansoddiad manylach o'r ymatebion yn ôl math yn [Atodiad A](#).

Dull gweithredu ar gyfer dadansoddiad thematig ansoddol

- 3.3 I ddadansoddi'r ymatebion testun rhydd, dilynwyd dull a oedd yn cyfuno codio awtomataidd ac â llaw. Roedd ein dull gweithredu'n cynnwys:
- **Datblygu codlyfr cychwynnol o themâu** yn seiliedig ar yr ymgynghoriad, dealltwriaeth o'r cyd-destun a geiriad cwestiynau penodol (y cyfnod diddwythol), gyda themâu pellach yn cael eu hychwanegu fel rhan o'r broses adolygu (y cyfnod anwythol).
 - **I ddechrau, codio 150 o ymatebion testun rhydd â llaw** ar gyfer pob cwestiwn fformat agored. Roedd y sampl hwn yn cynnwys cyfuniad o ymatebion gan randdeiliaid allweddol, ymatebion manylach, a hapsampl

¹ Uchafswm o 1% ar gyfer pob cwestiwn unigol, a 0.2% ar gyfartaledd ar draws yr holl gwestiynau,

o'r ymatebion a oedd yn weddill. Roedd y dull hwn yn sicrhau bod sampl gynrychioliadol o ymatebwyr yn cael ei hystyried, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn adolygu'r ymatebion gyda'r mwyaf o wybodaeth.

- **Dadansoddi testun yn awtomatig** i efelychu'r broses o godio â llaw, gan roi sgôr ar gyfer pa mor gyffredin yw pob thema. Roedd y dull hwn yn dilyn proses tri cham:
 - Yn gyntaf, fe wnaethom ddefnyddio algorithm dan oruchwyliaeth yn Python i allosod y themâu a nodwyd yn y sampl o ymatebion testun rhydd er mwyn "labelu" pob ymateb arall i'r cwestiwn. Mae'r dull hwn yn cynnwys nodi allweddeiriau ar gyfer pob thema a godwyd yn y sampl cychwynnol a ddarllenir gan berson, wedyn defnyddio'r allweddeiriau i gymhwyso themâu i'r ymatebion "heb eu labelu".
 - Yn ail, fe wnaethom adolygu'r ymatebion a oedd wedi'u labelu'n awtomatig a rhoi adborth ar ba ymatebion oedd wedi'u labelu'n gywir neu'n anghywir.
 - Yn drydydd, defnyddiwyd yr adborth hwn i addasu'r algorithm i gynhyrchu set wedi'i diweddarau o "labeli" thema ar gyfer yr ymatebion.

Dadansoddiad thematig

- 3.4 Ar gyfer pob cwestiwn penagored, fe wnaethom adrodd ar y themâu allweddol a oedd yn deillio o'r gwaith integredig o ddarllen gan berson a dadansoddi testun yn awtomataidd. Mae'r themâu a nodwyd yn adlewyrchu'r safbwyntiau a godwyd ar draws y prif arolwg, a'r copïau caled. Er ei bod yn anodd darparu amcangyfrifon cywir o'r ymatebion a ddyrennir i bob thema yn wrthrychol, cyflwynir themâu yn nhrefn eu hamlder bras ar gyfer pob cwestiwn.
- 3.5 Mae dyfyniadau gan ymatebwyr hefyd wedi cael eu defnyddio i ddangos y naratif sy'n cefnogi themâu penodol. Gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (65%) wedi dewis aros yn ddiennw, mae unrhyw ddyfeisiau adnabod posibl (fel enw sefydliad penodol) wedi cael eu tynnu o'r dyfyniadau hynny.

4. Crynodeb o'r canfyddiadau

Proffil yr ymatebwyr

- 4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn ôl math o ymatebydd, math o lety, a maint y busnes. Mae'r holl waith dadansoddi yn cynnwys ymatebion i'r arolwg llawn, ymatebion rhannol, a chopïau caled.²

Math o ymatebydd

Tabl 1. Dosbarthiad yr ymatebwyr yn ôl math

Math o ymatebydd	Canran yr ymatebwyr
Darparwyr llety ymwelwyr	82%
Preswylwyr (yng Nghymru)	59%
Llwyfannau archebu, trefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli cyfryngau cymdeithasol a sianeli archebu eraill, llwyfannau marchnata	9%
Asiantaethau llety hunanddarpar	4%
Cymdeithasau twristiaeth	2%
Cynrychiolwyr awdurdodau lleol	2%
Cyrff sy'n cynrychioli twristiaeth	1%
Awdurdodau parciau cenedlaethol	1%
Arall	30%

Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,106 o ymatebwyr, sef 69% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.2 Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn (82% neu 906 o ymatebwyr) eu bod yn ddarparwyr llety ymwelwyr.³ Yr ail fath mwyaf cyffredin o ymatebydd oedd preswylwyr yng Nghymru (59% neu 653 o ymatebwyr), wedyn llwyfannau archebu (9% neu 95 o ymatebwyr), ac wedyn asiantaethau hunanddarpar (4% neu 49 o ymatebwyr).

² Gan fod y cwestiynau segment yn caniatáu i ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn, nid yw'r canrannau a ddyfynnir wedi'u hadio at ei gilydd yn rhoi 100%, ac felly nid ydynt yn gronnus.

³ Cyfrifwyd y math hwn o ymatebydd fel cyfanswm yr holl ymatebwyr a ddewisodd o leiaf un opsiwn yn y cwestiwn ynghylch y math o lety (gweler Tabl 2).

- 4.3 Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr (30% neu 336 o ymatebwyr) hefyd o'r farn nad oedd y mathau presennol yn eu disgrifio'n gywir ac wedi dewis "Arall".

Ymatebwyr yn ôl math o lety

Tabl 2. Dosbarthiad yr ymatebwyr yn ôl math o lety


Math o lety	Canran yr ymatebwyr
Llety hunanddarpar, llety gwyliau tymor byr (tai, bythynnod, cabanau a fflatiau)	70%
Gwely a Brechwast	8%
Maes neu barc gweryslla	5%
Llety glampio	5%
Tŷ llety	5%
Ffermdy	4%
Llety ar ffurf hostel	3%
Gwesty	3%
Bwyty (gydag ystafelloedd)	2%
Parc gwyliau	2%
Carafán unigol (gan gynnwys y rheini sy'n cael eu hisosod mewn parc gwyliau)	2%
Parc teithio	1%
Llety ar gampws	<1%
Cychod camlas, cychod cul, cychod preswyl	<1%
Llong fordeithio	<1%
Pentref gwyliau	<1%

Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 906 o ymatebwyr, sef 57% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.4 Y math mwyaf cyffredin o lety ymysg ymatebwyr oedd llety hunanddarpar a llety gwyliau tymor byr, sy'n cynrychioli 70% (neu 634 o ymatebwyr) o'r holl ymatebion i'r cwestiwn. Y mathau mwyaf cyffredin o ddarparwyr llety a ymatebodd i'r ymgynghoriad oedd Gwely a Brechwast (8% neu 71 o ymatebwyr), maes neu barc gweryslla (5% neu 49 o ymatebwyr), llety glampio (5% neu 45 o ymatebwyr), a thai llety (5% neu 42 o ymatebwyr).

Ymatebwyr yn ôl maint y busnesau

Ffigur 1. Dosbarthiad yr ymatebwyr yn ôl maint y busnesau



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 925 o ymatebwyr, sef 58% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.5 Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn (93% neu 857 o ymatebwyr) fod eu busnes yn un micro, gyda llai na 10 o weithwyr. Busnesau bach oedd y maint busnes mwyaf cyffredin ond un (4% neu 36 o ymatebwyr), gan gynrychioli busnesau gyda 10-49 o weithwyr. Dewiswyd busnesau canolig a mawr yn llai aml, at 1% (neu 10 o ymatebwyr) a 2% (neu 22 o ymatebwyr) o achlysuron yn y drefn honno.

Themâu Cyffredinol

- 4.6 Mae'r adran hon yn cyflwyno themâu cyffredin sy'n codi dro ar ôl tro gan ymatebwyr ar draws nifer o gwestiynau, ni waeth pa mor berthnasol ydynt i'r cwestiwn penodol.

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.7 Soniodd llawer o ymatebwyr y bydd y cynnig yn rhoi baich gweinyddol sylweddol ar ddarparwyr llety, yn ogystal â gweithdrefnau monitro a gorfodi ar gyfer Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd ymatebwyr wedi nodi gofynion penodol nac agweddau ar y cynnig a fyddai'n arwain at faich gweinyddol i ddarparwyr. Roedd y thema

hon yn aml yn gysylltiedig â phryderon ynghylch yr effaith anghymesur ar ddarparwyr llety bach, nad ydynt yn gallu ymdopi â chostau'r cynllun. Roedd ymatebwyr yn aml yn nodi y byddai'r tasgau gweinyddol hyn yn dargyfeirio amser ac adnoddau oddi wrth helpu ymwelwyr a gwella gwasanaethau.

Mae effeithlonrwydd y farchnad yn golygu nad oes angen cynllun trwyddedu

- 4.8 Nododd nifer sylweddol o ymatebwyr nad oes angen i Lywodraeth Cymru ymyrryd. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn nodi bod y farchnad llety ymwelwyr yn gystadleuol iawn, ac felly ei bod yn gallu rheoli ei hun yn effeithiol. Er enghraifft, soniodd yr ymatebwyr hyn y bydd y farchnad yn naturiol yn eithrio darparwyr nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau ac nad ydynt yn cyrraedd safonau, drwy ddefnyddio adolygiadau cwsmeriaid. O ganlyniad, roedd yr ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn gyffredinol yn ystyried unrhyw fath o ymyrraeth gan y llywodraeth yn afluniol ac felly'n ddiangen.

Anghytuno â chynllun trwyddedu yn gyffredinol


- 4.9 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynllun cyfan gan eu bod o'r farn ei fod yn gam rheoleiddiol yn rhy bell, sy'n ychwanegu rheoliadau diangen at y farchnad. Nid oedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn ymhelaethu ar eu barn.
- 4.10 Er eu bod yn anghytuno'n bendant â chynllun trwyddedu statudol, roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn dadlau y gallent gefnogi'r syniad o gadw pob darparwr yn y cwmpas pe bai'r cynnig yn gynllun cofrestru gwirfoddol.

Nodau a manteision arfaethedig cynllun trwyddedu statudol

- 4.11 Mae'r adran hon yn ceisio barn ynghylch i ba raddau y cytunir â sefydlu cynllun trwyddedu, cynllun cofrestru, a'u nodau a'u buddion arfaethedig.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i sefydlu cynllun trwyddedu fel y disgrifir ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yng Nghymru?

Ffigur 2. Cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â sefydlu cynllun trwyddedu ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yng Nghymru



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,424 o ymatebwyr, sef 89% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad

- 4.12 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn (65% neu 927 o ymatebwyr) yn anghytuno â sefydlu cynllun trwyddedu fel y disgrifir ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr. Roedd y lefel anghytuno ar ei uchaf ymysg cyrff sy'n cynrychioli twristiaeth (77%), a darparwyr llety ymwelwyr (68%).
- 4.13 Ymatebwyr o'r parciau cenedlaethol oedd â'r lefel cytuno uchaf (75%) o blith yr holl ymatebwyr, wedyn awdurdodau lleol (67%).
- 4.14 Cyflwynir y rhesymau a grybwyllwyd amlaf dros farn yr ymatebwyr yn y dadansoddiad thematig isod.

Themâu yn erbyn cynllun trwyddedu

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.15 Y thema fwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu cynllun trwyddedu oedd pryder ynghylch y baich gweinyddol yn sgil y cynllun, fel y crybwyllir yn yr adran themâu cyffredinol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd am yr effaith negyddol bosibl ar ddarparwyr llety ymwelwyr, a'r sector twristiaeth yn gyffredinol, gan bwysleisio'n aml ei bwysigrwydd i economi Cymru.

“Mae'n haen newydd ddiangen o fiwrocratiaeth ddibwynt a bydd yn cymryd amser ac ymdrech gan berchnogion llety i dwristiaid. [...]. Bydd hefyd yn ychwanegu costau a fydd yn golygu mai Cymru yw'r dewis olaf i bobl sy'n mynd ar eu gwyliau.” (Ymateb dienw)

“Mater o'r baich y gall cynllun trwyddedu ei roi ar ddarparwyr llety yw hyn, o ran y math o dystiolaeth ategol y bydd galw amdani a'i swmp, yn ogystal â chost rhedeg cynllun o'r fath. Bydd faint o dystiolaeth y mae angen ei gwirio, a materion cysylltiedig â gorfodi a gofynion staff ar gyfer y dasg hon yn amlwg yn effeithio ar hyn, a bydd yn cael ei adlewyrchu yng nghost y drwydded.” (Ymateb dienw)

Amheuon ynghylch yr angen am gynllun

- 4.16 Y thema fwyaf cyffredin ond un a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig oedd amheuon ynghylch yr angen am y cynllun a pha mor ddefnyddiol y byddai. Yr hyn roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn sôn amdano'n fwyaf cyffredin oedd bod y farchnad llety ymwelwyr yn gystadleuol iawn. O ganlyniad, mae'n rheoleiddio ei hun ac yn eithrio llety o ansawdd isel o'r farchnad yn effeithiol. Roedd rhai ymatebion, gan gynnwys rhai gan gyrff sy'n cynrychioli twristiaeth, hefyd yn nodi bod rhestrau ac achrediadau sy'n cyflawni nodau'r cynllun arfaethedig eisoes yn bodoli. Yn olaf, dywedodd ymatebwyr eraill nad oes angen y cynllun gan fod y sector llety ymwelwyr eisoes o ansawdd uchel ac yn cyrraedd safonau.

“Mae gan y rhan fwyaf o lwyfannau gwyliau sy'n hysbysebu llety gwyliau arhosiad byr ddeddfwriaeth gaeth ar waith yn barod, ac oherwydd adborth gan gwsmeriaid, mae unrhyw eiddo sy'n disgyn o dan safon benodol yn cael

eu tynnu'n awtomatig o hysbysebion ar lwyfannau o'r fath." (Preswlydd yng Nghymru)

"[...]. Ar hyn o bryd, mae'r rhain i gyd [hynny yw, targedau] yn cael eu cyflawni, yn effeithiol iawn, gan yr asiantaethau gosod tai [...]. Mae angen y diogelwch nwy perthnasol, profion dŵr, asesiadau risg ac ati ar yr asiantaethau eisoes, ac mae'r adolygiadau ar-lein [golygwyd] yn gorfodi perchnogion i weithredu os yw unrhyw agwedd ar eu llety yn anfodhaol. [...]." (Ymateb dienw)

Amheuon ynghylch pa mor effeithiol fyddai'r cynllun o ran amcanion Llywodraeth Cymru

- 4.17 Y drydedd thema a grybwyllwyd amlaf yn erbyn cynllun trwyddedu oedd amheuon ynghylch ei effeithiolrwydd. Dywedodd ymatebwyr na fyddai'r cynllun trwyddedu arfaethedig yn cyflawni amcan Llywodraeth Cymru o gynyddu fforddiadwyedd tai. Yn ogystal â hynny, mynegwyd pryderon ynghylch effeithiolrwydd y prosesau monitro, adrodd a gorfodi.

"[...] Alla i ddim ei weld yn arwain at sicrhau bod llawer o gartrefi ar gael i bobl leol eu prynu neu fyw ynddynt. Bydd yn agor mwy o gartrefi i bobl gyfoethog o'r tu allan i'r ardaloedd eu prynu a byw ynddynt, gan wthio'r rheini sy'n cael eu geni yn yr ardaloedd allan." (Preswlydd yng Nghymru)

"[...] mae'n annhebygol iawn y bydd gan yr awdurdodau sy'n gyfrifol am drwyddedu yr adnoddau neu'r arbenigedd i wneud y gwaith yn gyflym ac yn effeithlon. Bydd yn rhaid i ddarparwyr wynebu oedi hir, llenwi ffurflenni'n ddiddiwedd a chostau ychwanegol – a fydd yn gorfod cael eu trosglwyddo i ymwelwyr" (Ymateb dienw)

Effaith anghymesur ar ddarparwyr llai ac ardaloedd gwledig

- 4.18 Y bedwaredd thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr wrth wrthwynebu'r datganiad dan sylw oedd pryderon y byddai'r cynllun trwyddedu arfaethedig yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn poeni am yr effaith ar ddarparwyr llety llai, gan y credwyd na fyddent yn gallu ymdopi â'r baich gweinyddol ac ariannol o gydymffurfio. Awgrymodd rhai ymatebion hefyd y

byddai'r cynnig yn annheg i ardaloedd gwledig, sy'n cael llai o ymwelwyr ac sy'n fwy dibynnol ar y sector twristiaeth.

“Mae busnesau bach yn ei chael yn ddigon anodd gwneud elw ar hyn o bryd heb y costau a'r gwaith gweinyddol ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â chynllun o'r fath.” (Ymateb dienw)

“[...]. Mae ein pryderon yn deillio o ganlyniadau anfwriadol posibl cynllun trwyddedu, a allai rwystro mynediad i ddarparwyr llety bach neu newydd, gan ei gwneud yn anoddach iddynt gystadlu â chadwyni mwy.” (Corff sy'n cynrychioli twristiaeth)

“Mae galw gwirioneddol am lety ymwelwyr yng Nghymru. Byddai ardaloedd gwledig yn aml yn cael eu diystyru'n llwyr gan ymwelwyr oherwydd eu diffyg llety/gwestai hygyrch ac ati. Mae'n amlwg bod angen opsiynau llety mwy fforddiadwy a hyblyg. Mae'r cynnig hwn yn annog ymwelwyr i ymweld ag ardaloedd, yn enwedig rhai gwledig.” (Ymateb dienw)

Themâu o blaid cynllun trwyddedu

Effeithiau cadarnhaol ar gydymffurfiaeth darparwyr â safonau'r cynllun

- 4.19 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid cynllun trwyddedu yn sôn y byddai'r cynllun yn sicrhau y cydymffurfir â safonau diogelwch ac ansawdd. Roedd yr ymatebion yn nodi y byddai'r cynllun yn cymell darparwyr llety i gydymffurfio â safonau diogelwch ac ansawdd, yn ogystal â rhoi pwerau gorfodi i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau cydymffurfiaeth.

“Bydd yn sicrhau mwy o gysondeb o ran safonau iechyd a diogelwch a'r safonau cyffredinol sydd ar gael i gwsmeriaid, sy'n gorfod bod yn gadarnhaol i'r diwydiant.” (Ymateb dienw)

“Rwy'n cytuno y byddai cynllun trwyddedu'n dda o ran cynnal safonau diogelwch uchel a sicrhau bod cartrefi gwyliau a gwestai yn cael eu trin yn yr un modd. [...]. Cyn belled â bod y rheini y canfyddir eu bod nhw ddim yn cydymffurfio yn destun ymchwiliad ac yn cael eu cosbi'n drwm.” (Ymateb dienw)


Hyrwyddo tegwch ymysg darparwyr

- 4.20 Y thema a grybwyllwyd amlaf ond un ymysg ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig oedd y farn y byddai'n arwain at degwch ymysg darparwyr. Roedd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn pwysleisio pwysigrwydd gweithredu'r cynllun yn genedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb o ran safonau iechyd, diogelwch, ac ansawdd. O ganlyniad, byddai darparwyr llety ymwelwyr yn gweithredu'n deg, gyda phawb yn dilyn yr un safonau.

“Mae angen set o safonau ar Gymru sy'n cael eu defnyddio'n gyson i roi sicrwydd i westeion ynghylch ansawdd y llety ymwelwyr y maent yn ei archebu – gofal i gwsmeriaid ddylai fod y prif reswm dros y cynllun. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod busnesau gweithredol yn cynnal eu safonau eu hunain er mwyn ennill a chadw achrediad. Effaith ddilynol hynny fydd tegwch i bob darparwr llety yng Nghymru – bydd cynllun statudol yn sicrhau nad oes lle i weithredwyr didrwydded godi prisiau is na'r rheini sy'n cydymffurfio â gofynion y cynllun.” (Awdurdod Lleol)

Cwestiwn 2: Os ydych chi'n anghytuno â'r cynnig i sefydlu cynllun trwyddedu, a ydych chi'n cytuno â chreu cynllun cofrestru ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yng Nghymru?

Ffigur 3. Cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â sefydlu cynllun cofrestru ar gyfer pob math o lety ymwelwyr yng Nghymru



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,266 o ymatebwyr, sef 79% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.21 Roedd y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (47% neu 599 o ymatebwyr) gan amlaf yn anghytuno â'r cynnig i sefydlu cynllun cofrestru ar gyfer yr holl lety ymwelwyr yng Nghymru. Er bod y niferoedd a oedd yn cytuno yn uwch o'i gymharu â'r cynnig am gynllun trwyddedu (38% o'i gymharu â 23%), roedd ymatebwyr a oedd o blaid yn dal yn lleiafrif.
- 4.22 Y math o ymatebydd a oedd yn anghytuno fwyaf oedd preswylwyr yng Nghymru (50%).
- 4.23 Ymatebwyr o'r cymdeithasau twristiaeth oedd â'r lefel cytuno uchaf (58%) o blith yr holl ymatebwyr, wedyn parciau cenedlaethol (50%).
- 4.24 Roedd yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn a oedd yn cynnig cyfiawnhad dros eu barn yn sôn am bynciau tebyg i'r cwestiynau blaenorol, gan nodi nad oeddent o'r farn bod cynllun trwyddedu yn wahanol iawn i gynllun cofrestru. Yn benodol, roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn sôn am y themâu canlynol.

Themâu yn erbyn cynllun cofrestru

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.25 Fel y soniwyd yn y cwestiwn blaenorol, mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bryderon y byddai'r cynnig yn arwain at roi baich gweinyddol ac ariannol sylweddol ar ddarparwyr llety. Credid bod hyn yn wir am gynllun cofrestru hefyd.

“Bydd y cynnig hwn yn creu biwrocratiaeth a gwaith papur diangen, a bydd yn arwain at wastraffu arian ac amser cyhoeddus a phreifat” (Preswilydd yng Nghymru)

Amheuon ynghylch yr angen am gynllun cofrestru

- 4.26 Yn yr un modd â Chwestiwn 1, roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn anghytuno â chynllun cofrestru oherwydd eu bod yn credu bod rhestrau ac achrediadau sy'n cyflawni nodau Llywodraeth Cymru eisoes yn bodoli, a bod y farchnad llety ymwelwyr yn rheoleiddio ei hun yn effeithiol.

“Mae pob llety ymwelwyr wedi'i gofrestru'n barod; mae sawl platfform y gellir eu defnyddio, lle mae'r ymwelwyr yn mynd i archebu. Mae'r rhain yn

cynnwys archwiliadau trylwyr, gwiriadau ac adolygiadau.” (Perchennog busnes)

“Mae’r busnes eisoes yn rheoleiddio ei hun, fel arall bydd yn arwain at dranc y busnes. Bydd ymyrraeth gan yr awdurdod lleol yn niweidio’r busnes lletygarwch yng Nghymru. [...]. Yn fy marn i, mae’n fusnes sy’n gofalu amdano’i hun.” (Ymateb dienw)

“[...] mae gennym ddeddfwriaeth ddigonol eisoes i wneud yn siŵr ein bod yn cynnig llety diogel ac mae’r farchnad adolygiadau [...] yn sicrhau mai dim ond llety o safon uchel sy’n hyfyw.” (Ymateb dienw)

Amheuon ynghylch pa mor effeithiol fyddai’r cynllun o ran cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru

- 4.27 Y drydedd thema fwyaf cyffredin yn erbyn y cynnig dan sylw oedd anghytundeb â’r cynnig gan na fyddai’n cyflawni nodau Llywodraeth Cymru. Dangosodd yr ymatebion na fyddai cofrestr syml yn rhoi digon o bwerau monitro a gorfodi i Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol.

“[...] Ni fyddai rhestr syml o enwau lleoedd sy’n ystyried eu hunain yn fusnesau llety ond heb drwydded i weithredu yn cwrdd â nod y polisi. Er mwyn i lety gael ei gynnwys ar gofrestr statudol, byddai gofyn am dystiolaeth ei fod yn cydymffurfio â’r elfennau iechyd a diogelwch sylfaenol y cytunwyd arnynt ac, ar ben hynny, bod y rhain yn gyraeddadwy, yn gymesur a bod modd eu hadnabod.” (Ymateb dienw)

Themâu o blaid cynllun cofrestru

Effeithiau cadarnhaol ar gydymffurfiaeth darparwyr â’r safonau

- 4.28 Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a oedd o blaid cynllun cofrestru yn nodi y byddai’r cynllun yn sicrhau y cydymffurfir â safonau diogelwch ac ansawdd. Roedd yr ymatebion yn nodi y byddai cynllun cofrestru yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol roi cyfrif am ddarparwyr llety ymwelwyr cofrestredig a monitro cydymffurfiad â safonau diogelwch ac ansawdd.

“[...] Rwy’n cefnogi cynllun cofrestru sy’n caniatáu i’n busnes lenwi Ffurflen Gofrestru Statudol sy’n dangos ein bod yn cydymffurfio â’r holl agweddau

cyfreithiol allweddol ar ein busnes – ee asesiad risg tân, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, ac ati, fel bod Cofrestr Genedlaethol gyflawn o fusnesau diogel a chyfreithlon yn cael ei llunio.[...]. Bydd hyn yn sicrhau lefel o ansawdd ac ymddiriedaeth ac yn datblygu arferion diogel a chyfreithlon ac yn atal gweithredwyr gwael nad ydynt yn gweithredu o fewn y gyfraith ac a allai fod yn masnachu'n anghystadleuol.” (Asiantaeth gosod a rheoli eiddo)

Gwella dibynadwyedd data


- 4.29 Y thema fwyaf cyffredin ond un a godwyd gan yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad dan sylw oedd yr effaith gadarnhaol ar swm ac ansawdd y data. Roedd yr ymatebion yn nodi y byddai cynllun cofrestru yn rhoi rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â gwybodaeth gywir am eu diogelwch a'u sgoriau ansawdd. Roedd rhai ymatebion hefyd yn sôn y byddai'r wybodaeth hon yn hwyluso'r gwaith o reoleiddio a mesur effaith y sector twristiaeth yn y dyfodol.

“I ddeall a datblygu data clir ynghylch effeithiau cadarnhaol a negyddol llety ymwelwyr. Mae hwn yn arf hanfodol i sefydlu beth neu sut mae angen i ni symud ymlaen ynghylch y maes hwn.” (Ymateb dienw)

“Byddai hyn yn creu cronfa ddata fanwl gywir o'r niferoedd a'r mathau o lety, a gellid defnyddio hyn yn ei dro fel arf marchnata i annog ymwelwyr.” (Ymateb dienw)

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol fel y disgrifir yn sicrhau tegwch i bob darparwr llety sy'n gweithredu yng Nghymru?

Ffigur 4. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau tegwch i bob darparwr llety yng Nghymru



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,392 o ymatebwyr, sef 87% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.30 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (61% neu 854 o ymatebwyr) yn anghytuno y byddai cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau tegwch i bob darparwr llety yng Nghymru. Roedd y lefelau uchaf o anghytuno ymysg asiantaethau hunanddarpar (69%), darparwyr llety ymwelwyr (65%), a'r ymatebwyr a nododd eu bod yn "arall" (64%).
- 4.31 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o awdurdodau lleol o'r farn y byddai cyflwyno cynllun trwyddedu yn fuddiol er mwyn sicrhau tegwch ar draws darparwyr llety, o ystyried bod 58% ohonynt yn cytuno â'r datganiad dan sylw.

Themâu sy'n gwrthwynebu'r awgrym y byddai cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau tegwch i ddarparwyr llety

Amrywiad ar draws darparwyr

- 4.32 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn na ddylai tegwch fod ymysg amcanion Llywodraeth Cymru, gan fod gwahaniaethau sylweddol ymysg darparwyr llety ymwelwyr. Dadleuwyd bod y sector yn anghyfartal ei natur, oherwydd gwahaniaethau o ran maint, segmentau marchnad, ac ardaloedd. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn anghytuno bod annhegwch yn bodoli ar draws darparwyr llety ymwelwyr, gan fod gofynion iechyd a diogelwch ac ansawdd y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw eisoes. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr hyn am wneud gwaith ymchwil ychwanegol i ddarparu tystiolaeth o'r annhegwch y soniwyd amdano.

“Allwch chi ddim cael tegwch rhwng opsiynau llety cwbl wahanol sy'n darparu gwasanaethau cwbl wahanol i amrywiaeth eang o wahanol fathau o ymwelwyr sydd ag amrywiaeth enfawr o anghenion a chyllidebau.” (Ymateb dienw)

“Mae nod sylfaenol y cynllun o sicrhau 'tegwch' yn amherthnasol: rydyn ni'n bodloni'r safonau amrywiol a nodir yn y ddogfen ymgynghori drwy gydymffurfio â'n gofynion yswiriant.” (Clwb chwaraeon / clwb dringo)

Effaith anghymesur ar ddarparwyr bach a chyfreithlon

- 4.33 Y rheswm mwyaf cyffredin ond un dros anghytuno â'r datganiad dan sylw oedd y byddai gorfodi tegwch yn cael effaith anghymesur ar ddarparwyr llety ymwelwyr llai. Roedd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon, gan gynnwys rhai cymdeithasau twristiaeth, yn mynegi pryderon nad oes gan ddarparwyr bach y gallu ariannol na'r staff i gydymffurfio â'r safonau gofynnol. Soniodd rhai ymatebwyr hefyd y gallai'r cynnig roi baich anghymesur ar ddarparwyr sy'n cydymffurfio, tra bydd eraill yn defnyddio bylchau yn y cynllun i osgoi cydymffurfio ag ef a'i ofynion.

“Bydd yn gorfodi eiddo preifat bach sy'n gwneud incwm cymedrol i gystadlu â gwestai sy'n gallu ysgwyddo pa bynnag gostau anochel y bydd asiantaethau trwyddedu yn eu mynnu gan ddarparwyr llety” (Preswilydd yng Nghymru)

“Bydd unigolion yn dal i gynnig llety gwyliau, heb i’r cyngor lleol fod yn ymwybodol ohonynt. Ni fyddant yn ysgwyddo costau’r cynllun cofrestru, tra bydd yn rhaid i fusnesau cyfreithlon wario mwy i dalu am y gost ychwanegol hon, gan eu gwneud yn llai deniadol i ddarpar gwsmeriaid.” (Ymateb dienw)

Marchnad effeithlon yn nacáu’r angen am ymyrraeth

- 4.34 Y thema amlwg olaf yn erbyn y cynnig dan sylw oedd bod y farchnad llety ymwelwyr yn gystadleuol iawn, ac felly’n rheoleiddio ei hun i bob pwrpas. Fel y soniwyd yn yr adran themâu cyffredinol, roedd ymatebwyr a oedd yn codi’r thema hon fel arfer yn erbyn unrhyw fath o ymyriad gan y llywodraeth.

“Mae’r farchnad llety gwyliau yn farchnad rydd, ni ddylai gael ei rheoli na’i llywio gan y Llywodraeth na’r Wladwriaeth. Os nad yw llety gwyliau o safon ddigon da, ni fydd perchnogion yn cael archebion a bydd llety o ansawdd gwell yn cael ei archebu yn ei le. Mae mor hawdd adolygu llety gwyliau ar-lein neu drwy’r cyfryngau cymdeithasol y dyddiau yma, felly does dim angen i’r Wladwriaeth ymyrryd.” (Ymateb dienw)

Themâu sy’n cefnogi’r awgrym y byddai cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau tegwch i ddarparwyr llety

Cytuno gydag amodau

- 4.35 Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a oedd yn cytuno â’r datganiad dan sylw yn cytuno ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Yr amod a awgrymwyd amlaf oedd rhoi cynllun cofrestru ar waith yn hytrach na chynllun trwyddedu. Dywedodd yr ymatebwyr a gododd y thema hon y byddai cofrestru yn darparu holl fanteision cynllun trwyddedu, heb y baich gweinyddol. Yr amod a grybwyllwyd amlaf ond un oedd rhoi’r cynllun ar waith ar raddfa genedlaethol, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu’n gyson ar draws ardaloedd. Y trydydd amod mwyaf cyffredin oedd gwneud cofrestru’n orfodol, er mwyn sicrhau y byddai pob darparwr llety ymwelwyr yn cydymffurfio â gofynion y cynllun. Roedd amodau llai cyffredin eraill yn cynnwys sicrhau bod y cynllun yn cael ei ariannu gan y wladwriaeth, a chael archwiliadau rheolaidd.

“Rydyn ni’n gwrthwynebu cynllun trwyddedu. Fodd bynnag, rydyn ni’n credu y byddai creu cynllun COFRESTRU cyffyrddiad ysgafn, cost isel a hawdd ei

ddefnyddio'n ddigidol ar gyfer yr holl lety ymwelwyr yng Nghymru yn sicrhau tegwch rhwng darparwyr traddodiadol fel llety gwely a brecwast a llety ar lwyfannau ar-lein. Mae'r ail o'r rhain ar hyn o bryd yn gystadleuaeth annheg ar sail diffyg cydymffurfio â rheoliadau diogelwch ac arbed costau."

"Rwy'n credu y dylai unrhyw gynllun fod yn berthnasol i Gymru gyfan, ac ni ddylai amrywio o awdurdod i awdurdod. Rwy'n cytuno y dylid cael cynllun cofrestru gorfodol sy'n berthnasol ar draws Cymru GYFAN, oherwydd rwy'n credu y byddai hyn yn sicrhau bod ansawdd y llety a ddarperir yn ddiogel ac yn gyfreithlon" (Ymateb dienw)


Sicrhau bod safonau'n cael eu gorfodi ymysg darparwyr

- 4.36 Y rheswm mwyaf cyffredin ond un dros gytuno â'r datganiad dan sylw oedd y byddai'r cynllun trwyddedu yn ffordd effeithiol o orfodi safonau. Roedd yr ymatebion yn nodi mai dim ond petai'n rhaid i bob un ohonynt gydymffurfio â'r un gofynion y byddai modd sicrhau tegwch rhwng darparwyr llety. Roedd y thema hon yn arbennig o amlwg ymhlith awdurdodau lleol.

"Mae'n ddymunol gofyn i ddarparwyr llety ddangos eu bod yn gallu bodloni set o safonau diogelwch sylfaenol ni waeth beth fo maint/math y llety a ddarperir na pha mor aml y mae'r llety'n cael ei gynnig, boed hynny drwy drwyddedu neu drwy gofrestru." (Ymateb dienw)

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen i Lywodraeth Cymru lunio rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru er mwyn gwybod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant?

Ffigur 5. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno bod angen cofrestr o'r darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru ar Lywodraeth Cymru



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,393 o ymatebwyr, sef 87% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad

- 4.37 Gan amlaf (48% neu 669 o ymatebwyr), roedd y rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn anghytuno bod angen i Lywodraeth Cymru lunio rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr er mwyn gwybod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant. Roedd yr anghytuno ar ei uchaf ymysg preswylwyr yng Nghymru (51%).
- 4.38 Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid y datganiad dan sylw yn cynnwys cymdeithasau twristiaeth (67%), parciau cenedlaethol (63%), awdurdodau lleol (58%), a chyrrff sy'n cynrychioli twristiaeth (54%).

Themâu sy'n gwrthwynebu'r awgrym bod angen cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ar Lywodraeth Cymru

Effeithiau niweidiol ar economi Cymru

- 4.39 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn erbyn y datganiad dan sylw yn nodi y byddai unrhyw fath o gofrestr yn cael effaith negyddol ar economi

Cymru. Roedd yr ymatebwyr hyn yn pwysleisio bod y cynnig yn rhoi gormod o bwysau ar ddarparwyr llety ymwelwyr, yn enwedig y rhai llai, sydd mewn perygl o gael eu gwthio allan o'r farchnad. O ganlyniad, roedd yr ymatebwyr hyn yn poeni y byddai gostyngiad yng nghyflenwad y llety sydd ar gael, a fyddai'n cael effaith negyddol ar y sector twristiaeth yng Nghymru ac economi Cymru yn ei chyfanrwydd, a ystyrir yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth.

“Mae twristiaeth yn dod â refeniw enfawr i wlad y mae angen hynny arni i ffynnu. Os bydd y llywodraeth yn ei gwneud yn anodd i'r diwydiant twristiaeth, bydd y gosodwyr llety gwyliau yn mynd i rywle arall” (Ymateb dienw)

Argaeledd yr wybodaeth y gofynnir amdani ar hyn o bryd

- 4.40 Y thema fwyaf cyffredin ond un wrth wrthwynebu'r datganiad dan sylw oedd bod unrhyw wybodaeth y gallai fod ei hangen ar Lywodraeth Cymru eisoes ar gael drwy restrau a chronfeydd data eraill. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn annog Llywodraeth Cymru i gydweithio ag adrannau a sefydliadau y credid eu bod yn meddu ar yr wybodaeth hon er mwyn osgoi dyblygu gwaith papur a phwerau gorfodi. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y dylai'r wybodaeth fod ar gael drwy drethi cyngor, cymdeithasau twristiaeth, tystysgrifau yswiriant, ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

“Rwy'n deall bod yr wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru yn barod. Fy awgrym i fyddai gwella dealltwriaeth o'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu ar hyn o bryd, a lle mae angen rhagor o wybodaeth i ddeall sut mae cael hyn yn y fframwaith presennol. (Darparwr llety ymwelwyr)

Marchnad effeithlon yn nacáu'r angen am ymyrraeth

- 4.41 Fel y trafodwyd yn yr adran themâu cyffredinol, soniodd rhai ymatebwyr hefyd nad oes angen unrhyw wybodaeth ar Lywodraeth Cymru, gan na ddylai ymyrryd mewn marchnad hynod effeithlon sy'n rheoleiddio ei hun.

“Mae gweithredwyr eisoes wedi'u rhwymo gan reoliadau statudol sy'n sicrhau bod llety o safon addas yn gyffredinol ac mae'r farchnad

agored/rhynggrwyd yn darparu manylion cwbl ddigonol i dwristiaid sy'n dymuno ymweld â Chymru” (Ymateb dienw)

Themâu sy'n cefnogi bod angen cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ar Lywodraeth Cymru

Sicrhau safonau ymysg darparwyr llety ymwelwyr

- 4.42 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig yn dweud y byddai'r gofrestr yn hwyluso'r gwaith o orfodi safonau ansawdd a diogelwch yn y sector. Dywedodd ymatebwyr fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod safonau cyson yn cael eu cymhwyso a'u gorfodi ar draws pob darparwr llety er mwyn cyflawni ei nodau polisi. I'r perwyl hwnnw, roedd yr ymatebion, gan gynnwys cyfran sylweddol o awdurdodau lleol, yn cytuno bod angen cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.

“O bosibl, i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu cynnal. Dylid glynu wrth rai agweddau (diogelwch trydanol/diogelwch nwy) bob amser.” (Preswlydd yng Nghymru)

“I sicrhau bod pob llety gwyliau yn cael ei weithredu'n ddiogel ac yn gywir.” (Llwyfan archebu⁴)

Hybu dealltwriaeth o'r economi ymwelwyr

- 4.43 Y thema fwyaf cyffredin ond un o ran cytuno â'r datganiad dan sylw oedd y byddai cofrestr yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddeall cyflwr a gweithrediad y farchnad llety ymwelwyr. Ystyriwyd bod y ddealltwriaeth hon yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r gwaith o reoleiddio'r farchnad, buddsoddi a chynllunio ym maes twristiaeth yn y dyfodol.

“Gallu rheoli/monitro a) maint y sector twristiaeth mewn perthynas â seilwaith b) deall patrymau twf c) bod yn fwy cystadleuol fel cyrchfan d) gwella ei seilwaith mewn trefi i ddarparu ar gyfer marchnad hysbys a gwneud ymdrech i'w denu/tyfu os caiff ei ddeddfu.” (Ymateb dienw)

⁴ Y math o ymatebydd yn llawn yw “Llwyfannau Archebu/Trefnwyr Gwyliau Ar-lein/Sefydliadau masnach teithio, sianeli cyfryngau cymdeithasol a sianeli archebu eraill, llwyfannau marchnata”. Cyfeirir at hyn fel “llwyfannau archebu” wedi hynny er mwyn cadw pethau'n syml.


4.44 Gofynnodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr am eglurhad ychwanegol ar y rhesymau sylfaenol pam y gallai fod angen cofrestr o'r fath ar Lywodraeth Cymru. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon na fyddai pwrpas gofyn am yr wybodaeth hon o fudd i'r sector twristiaeth.

“Pam mae angen hyn ar y Llywodraeth? Pa bwrpas defnyddiol mae'n gallu ei gynnig?” (Ymateb dienw)

“Wel, efallai y bydd ei angen arnynt “i wybod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant”. Ond pam mae angen iddyn nhw wybod hyn yn y lle cyntaf.” (Ymateb dienw)

Cwestiwn 4a: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen i awdurdodau lleol lunio rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru er mwyn gwybod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant?

Ffigur 6. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno bod angen cofrestr o'r darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru ar awdurdodau lleol



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,384 o ymatebwyr, sef 87% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

4.45 Roedd y rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn bennaf (48% neu 667 o ymatebwyr) yn anghytuno bod angen i awdurdodau lleol lunio rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru er mwyn gwybod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant. Preswylwyr yng Nghymru a oedd yn anghytuno â'r cynnig gan amlaf (51%).

- 4.46 Fodd bynnag, roedd rhai mathau o ymatebwyr yn fwy tebygol o gytuno â'r cynnig. Ymatebwyr o awdurdodau lleol oedd â'r lefel cytuno uchaf (68%) o blith yr holl ymatebwyr, wedyn atyniadau twristiaeth (65%).
- 4.47 Soniodd yr ymatebwyr am themâu tebyg yn y cwestiwn hwn a'r un blaenorol, gan awgrymu y byddai gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol resymau tebyg dros fod angen cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.

Themâu sy'n anghytuno â'r awgrym bod angen cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ar awdurdodau lleol

Dim ond ar lefel genedlaethol y mae angen hyn

- 4.48 Y rhesymau mwyaf cyffredin dros wrthwynebu'r datganiad dan sylw oedd y farn mai dim ond ar y lefel genedlaethol y mae angen cofrestr. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr a gododd y thema hon yn nodi mai dim ond ar Lywodraeth Cymru y byddai angen gwybod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai cynnwys awdurdodau lleol yn y cynllun greu anghysondebau, gan danseilio'r nod o sicrhau tegwch ar draws darparwyr.

“Oherwydd bydd gan Lywodraeth Cymru'r wybodaeth honno [...]. Dylai fod ar gronfa ddata genedlaethol ac yn agored i'r cyhoedd graffu arni.” (Ymateb dienw)

“Rhaid i unrhyw gynlluniau gael eu gweithredu ar lefel genedlaethol yn unig. Os mai'r nod yw sicrhau tegwch ar draws y diwydiant, yna mae'n rhaid cael un safon ledled y wlad gyfan. Mae'n anochel y bydd rhoi unrhyw lais i awdurdodau lleol o ran sut mae cynlluniau'n cael eu gweinyddu neu eu gweithredu yn creu amrywiadau rhwng rhanbarthau ac yn dinistrio'r egwyddor gyfan o degwch ledled y wlad.” (Ymateb dienw)

Argaeledd yr wybodaeth y gofynnir amdani ar hyn o bryd

- 4.49 Y thema fwyaf cyffredin ond un yn erbyn y datganiad dan sylw oedd y gall awdurdodau lleol ganfod pwy sy'n gweithredu yn y diwydiant drwy restrau a chronfeydd data eraill. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn bod awdurdodau lleol eisoes yn meddu ar yr wybodaeth y byddai cofrestr yn ei chynnig – drwy ddosbarthiadau ardrethi annomestig, rhestrau'r dreth gyngor, a chymdeithasau twristiaeth lleol.

“Mae gan awdurdodau lleol yr wybodaeth hon yn barod gan eu bod yn gwybod pa eiddo sydd â dosbarthiad treth busnes.” (Ymateb dienw)

“Mae’r wybodaeth honno ar gael yn gyffredinol drwy’r byrddau croeso lleol y mae llawer o fusnesau bach wedi’u cysylltu â nhw.” (Ymateb dienw)

Effeithiau niweidiol ar economi Cymru

- 4.50 Soniodd rhai ymatebwyr y byddai cofrestr yn cael effaith negyddol ar economi Cymru. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn mynegi pryderon y byddai’r cynnig yn golygu rhoi baich gweinyddol ac ariannol sylweddol ar ddarparwyr llety ymwelwyr, yn enwedig y rhai llai. O ganlyniad, pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn y byddai’n cael effaith niweidiol ar y sector twristiaeth, ac ar economi Cymru drwy hynny.

“Mae’n anochel y bydd hyn yn rhoi baich ychwanegol ar fusnesau bach gyda pherchnogion yr eiddo yn wynebu rhagor o fiwrocratiaeth a chostau cysylltiedig pellach.” (Ymateb dienw)

Themâu sy’n cytuno â’r awgrym bod angen cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ar awdurdodau lleol

Manteisio ar wybodaeth am gyd-destun ac amgylchiadau lleol

- 4.51 Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a oedd yn cytuno â’r cynnig yn sôn bod angen cofrestr o ddarparwyr llety ar awdurdodau lleol er mwyn deall a rheoleiddio’r sector twristiaeth lleol yn well. Nododd yr ymatebwyr hyn fod awdurdodau lleol mewn sefyllfa well i ddefnyddio’r wybodaeth o’r gofrestr oherwydd bod ganddynt ddealltwriaeth unigryw o’r amgylchiadau a’r economi leol. Awgrymwyd hefyd y byddai’r gofrestr wedyn yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud ymyriadau wedi’u teilwra yn y sector twristiaeth.

“Byddai awdurdodau lleol yn deall yn well y cyfleusterau sydd eu hangen a’r effeithiau ar y gymuned leol” (Ymateb dienw)

“Mae’n well cadw’r wybodaeth hon yn lleol, er mwyn gallu datrys problemau lleol. Anaml iawn y bydd cynllun cenedlaethol yn datrys problemau lleol.” (Ymateb dienw)

“Mae gan yr awdurdodau lleol fwy o wybodaeth leol am yr amgylchedd gosod ac felly dylent fod yn ymwybodol o’r hyn sy’n digwydd yn eu hardal.”

(Ymateb dienw)


Sicrhau tegwch ar draws darparwyr

4.52 Y rheswm mwyaf cyffredin ond un dros gytuno â’r datganiad dan sylw oedd y byddai’n sicrhau tegwch i ddarparwyr llety lleol. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn nodi y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio’r gofrestr i fonitro a sicrhau cydymffurfiaid â safonau iechyd a diogelwch ac ansawdd y cynllun.

“Er mwyn sicrhau tegwch i bob busnes twristiaeth a lletygarwch ac i fusnesau allu gweithredu yn unol â’r ddeddfwriaeth briodol, caniatâd cynllunio, iechyd a diogelwch, hylendid ac ati.” (Corff sy’n cynrychioli twristiaeth)

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau llwyfan effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru?

Ffigur 7. Cyfran o’r ymatebwyr sy’n cytuno neu’n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau llwyfan effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,373 o ymatebwyr, sef 86% o’r holl ymatebion i’r ymgynghoriad.

- 4.53 Roedd mwyafrif y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (63% neu 859 o ymatebwyr) yn anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau llwyfan effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru. Yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno amlaf oedd llwyfannau archebu, preswylwyr yng Nghymru, a darparwyr llety ymwelwyr (pob un yn anghytuno mewn 65% o achosion).
- 4.54 Ar y llaw arall, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o awdurdodau lleol o blaid y cynnig (53%).

Themâu sy'n gwrthwynebu'r awgrym y byddai'r cynllun trwyddedu yn llwyfan cyfathrebu effeithiol

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.55 Y rheswm mwyaf cyffredin dros anghytuno â'r datganiad dan sylw oedd y cynnydd tybiedig yn y baich gweinyddol a'r costau ariannol. Roedd y rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn mynegi pryderon y byddai'r baich o gydymffurfio â'r cynllun yn arwain at droi adnoddau oddi wrth gyfathrebu effeithiol. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at effeithiau ehangach y baich ar ddarparwyr llai, y sector twristiaeth, ac economi Cymru yn fwy cyffredinol.

"[...]. Mewn gwirionedd, mae'r profiad o drwyddedu yn yr Alban ar hyn o bryd wedi cael yr effaith groes: mae'n rhy gymhleth a beichus i bawb, ac nid yw'n eglur oherwydd ei fod yn ddarniog." (Ymateb dienw)

"Rwy'n credu ei bod yn hanfodol peidio â llesteirio busnesau. Gall yr elw fod yn fach mewn rhai o'r busnesau hyn a gall denu ymwelwyr fod yn gwbl hanfodol i'r economi leol ac o ran darpariaeth gwasanaethau." (Ymateb dienw)

Sianeli cyfathrebu sy'n bodoli eisoes

- 4.56 Y thema fwyaf cyffredin ond un a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r datganiad dan sylw oedd bod angen cynllun, o ystyried bod sianeli cyfathrebu eraill yn bodoli. Roedd yr ymatebwyr hyn, gan gynnwys rhai awdurdodau lleol, yn nodi y gallai Llywodraeth Cymru gyfathrebu ag awdurdodau lleol a darparwyr drwy sefydliadau fel cyrff masnach, Asiantaeth

y Swyddfa Brisio, Croeso Cymru, Busnes Cymru ac asiantaethau twristiaeth rhanbarthol.

“Mae cyrff masnach yn bodoli i ddarparu ar gyfer hyn ar hyn o bryd.”

(Ymateb dienw)

“Mae’n berffaith bosibl sefydlu cyfathrebu effeithiol heb hyn. Ar hyn o bryd – dylai fod yn bosibl cysylltu â phob llety gwyliau drwy’r swyddfa brisio [...]”

(Preswlydd yng Nghymru)

Pryderon ynghylch effeithlonrwydd cyfathrebu’r llywodraeth

- 4.57 Yr olaf o'r themâu mwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu’r datganiad hwn oedd y farn bod Llywodraeth Cymru yn aneffeithlon o ran cyfathrebu. Dangosodd yr ymatebion fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn aneffeithiol yn y gorffennol o ran cyfathrebu ar draws ei hadrannau a chyda sefydliadau allanol. O ganlyniad, roedd yr ymatebion yn amheus y byddai’r cynllun yn effeithiol o ran hwyluso unrhyw gyfathrebu a oedd yn ymwneud â Llywodraeth Cymru.

“A oes yna fyth llwyfan effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng y llywodraeth ac awdurdodau’r cyngor? Does ganddyn nhw ddim record dda.” (Ymateb dienw)

“Ni fydd hyn ar ei ben ei hun yn mynd i’r afael ag unrhyw broblemau cyfathrebu tybiedig sy’n bodoli ar hyn o bryd.” (Ymateb dienw)

Themâu sy’n cefnogi’r awgrym y byddai’r cynllun trwyddedu yn llwyfan cyfathrebu effeithiol

Ffario cofrestru yn lle’r cynllun trwyddedu

- 4.58 Y thema a grybwyllwyd amlaf o blaid y datganiad dan sylw oedd y gellid sicrhau llwyfan cyfathrebu effeithiol, ond dim ond drwy gynllun cofrestru. Soniodd yr ymatebwyr, gan gynnwys rhai cymdeithasau twristiaeth a chyrrff cynrychioladol, y byddai cynllun cofrestru yn caniatáu i’r holl randdeiliaid gyfathrebu’n effeithiol, heb y baich gweinyddol ac ariannol sy’n gysylltiedig â chynllun trwyddedu.

“Byddai cofrestru’n ddull llai costus a llai beichus [...].” (Ymateb dienw)

“Byddai cynllun cofrestru cyffyrddiad ysgafn yn golygu llai o faich i bawb, ond yn dal i gasglu’r data sydd ei angen ac sydd wrth wraidd yr ymgynghoriad hwn.” (Ymateb dienw)

Cytuno’n gyffredinol

- 4.59 Roedd cyfran sylweddol o’r ymatebwyr yn cytuno â’r datganiad dan sylw, heb gynnig unrhyw esboniad am eu barn.

Ceisiadau am eglurhad


- 4.60 Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr o’r farn bod y cynnig yn aneglur, ac yn gofyn am eglurhad ychwanegol ar y mater. Yn gyffredinol, nid oedd yr ymatebwyr a oedd yn codi’r thema hon yn erbyn y cynnig mewn egwyddor, ond roedd angen mwy o wybodaeth arnynt i fynegi barn. Roedd y cais mwyaf cyffredin am eglurhad yn ymwneud â chynnwys a phwrpas cyfathrebu, ac roedd ymatebion eraill yn holi sut byddai’r sianel gyfathrebu hon yn gweithio’n ymarferol.

“Dydw i ddim yn gweld beth fyddai pwrpas y cyfathrebu hwn.” (Ymateb dienw)

“Mae angen i chi nodi sut byddai’r cyfathrebu effeithiol hwnnw’n cael ei sicrhau.” (Ymateb dienw)

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn ennyn hyder mewn darparwyr llety ymwelwyr a llety yng Nghymru?

Ffigur 8. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn ennyn mwy o hyder mewn llety ymwelwyr ac mewn darparwyr llety yng Nghymru



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,382 o ymatebwyr, sef 87% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.61 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn (64% neu 891 o ymatebwyr) yn anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn ennyn mwy o hyder mewn llety ymwelwyr ac mewn darparwyr llety yng Nghymru. Roedd darparwyr llety ymwelwyr (67%), asiantaethau hunanddarpar (67%), a llwyfannau archebu (66%) yn erbyn y datganiad dan sylw gan amlaf.
- 4.62 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o awdurdodau lleol (63%) o blaid y cynnig.

Themâu sy'n gwrthwynebu'r awgrym y byddai cynllun trwyddedu yn ennyn hyder mewn llety ymwelwyr a'i ddarparwyr

Effeithlonrwydd y farchnad yn ennyn hyder ymwelwyr

- 4.63 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r datganiad dan sylw o'r farn bod y farchnad eisoes yn ennyn hyder ymhlith ymwelwyr oherwydd ei heffeithlonrwydd. Fel y disgrifir yn yr adran themâu cyffredinol, roedd yr ymatebion yn dangos, o ystyried effeithlonrwydd y farchnad, na ddylai'r llywodraeth ymyrryd.

“Mae sgoriau Croeso Cymru ac adolygiadau o eiddo gan westeion yn debygol o roi mwy o hyder i ddarpar ymwelwyr nag y byddai cofrestriad neu drwydded.” (Ymateb dienw)

“Mae gennym ni ddiwydiant llety sydd wedi bod yn gweithredu'n dda iawn heb gynllun o'r fath. Mae hyder ymwelwyr mewn llety yn amlwg yn sgil adolygiadau a nifer yr ymwelwyr.” (Ymateb dienw)

Effeithiau niweidiol ar dwristiaeth ac economi Cymru

- 4.64 Y rheswm a grybwyllwyd amlaf ond un dros anghytuno bod y cynllun arfaethedig yn ennyn mwy o hyder oedd yr effaith negyddol ar gynaliadwyedd darparwyr llety a'r sector twristiaeth. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn pwysleisio y byddai cynllun trwyddedu yn golygu baich gweinyddol ac ariannol sylweddol, a allai arwain at (i) cyflenwad is o lety ymwelwyr, (ii) prisiau uwch, neu (iii) ansawdd is. Soniwyd y byddai unrhyw un o'r canlyniadau hynny'n lleihau hyder ymwelwyr yn y llety.

“Mae lefel eich llety yng Nghymru ar hyn o bryd – o ran cost, lleoliad, cysur ac addasrwydd ar gyfer grwpiau o wahanol feintiau – yn wych heb unrhyw ymyrraeth ganolog. Bydd hyn yn esgor ar gostau diangen i chi, a fydd yn anochel yn cael eu trosglwyddo i ymwelwyr gan leihau niferoedd ac felly arwain at golledion busnes.” (Ymateb dienw)

“Mae'n debyg y bydd hyn ar draul darparwyr llai sy'n ei chael hi'n anodd cyrraedd safonau newydd. Bydd angen gwneud gwaith ychwanegol i fodloni safonau ac felly bydd angen trosglwyddo costau i ymwelwyr a bydd yn cael

effaith net ar nifer y lletyau a gynigir yn y tymor byr heb gefnogaeth briodol i ddarparwyr llai.” (Ymateb dienw)

Amheuon ynghylch pa mor ddefnyddiol yw'r cynllun i ymwelwyr

- 4.65 Y drydedd thema fwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r datganiad dan sylw oedd na fyddai cynllun trwyddedu yn ddefnyddiol i ymwelwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon yn mynegi pryderon na fyddai ymwelwyr yn ymwybodol o'r cynllun, tra oedd eraill yn sôn, hyd yn oed os ydynt yn ymwybodol, na fyddent yn defnyddio'r gofrestr i wneud penderfyniadau. Crybwyllodd yr ymatebwyr olaf o'r rhain fod ymwelwyr yn dewis llety ar sail cost ac adolygiadau cwsmeriaid, felly ni fyddai'r cynllun o unrhyw fudd iddynt. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y byddai'r cynllun yn debygol o fod yn rhy gymhleth i'r ymwelwyr ei ddeall, gan gyfyngu ymhellach ar ba mor ddefnyddiol ydyw i ennyn mwy o hyder.

“Dydw i ddim yn credu y bydd pobl yn fwy tebygol o archebu oherwydd bod cynllun statudol yn ei le – ni fydd y rhan fwyaf o bobl sy'n mynd ar wyliau yn ymwybodol o fodolaeth unrhyw gynllun o'r fath.” (Ymateb dienw)

“Ni fydd yn gwneud dim i ennyn mwy o hyder mewn llety ymwelwyr a darparwyr llety. Mae pobl sy'n archebu llety gwyliau yn rheolaidd yn gwneud hynny ar sail ansawdd yr hysbysebu (yn aml drwy'r darparwyr gwasanaethau archebu), cost, argymhellion personol a phrofiad.” (Llwyfan archebu)

“Mae'r gwefannau adolygiadau presennol yn rhoi hyder i ymwelwyr. Ni fydd ymwelwyr o reidrwydd yn deall y system drwyddedu ac felly ni fydd yn ennyn mwy o hyder.” (Ymateb dienw)

Nid oes diffyg hyder ymysg ymwelwyr ynghylch llety a'i ddarparwyr

- 4.66 Yr olaf o'r themâu mwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r datganiad dan sylw oedd bod gan ymwelwyr eisoes hyder mewn llety a darparwyr llety yng Nghymru. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn dangos bod hyder ymwelwyr yn amlwg ar sail eu dewis systematig i ddod i Gymru at ddibenion twristiaeth dros y blynyddoedd diwethaf, gan adael adolygiadau da, a dychwelyd ar gyfer ymweliadau dilynol. Roedd rhai ymatebion yn gofyn

i Lywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth os oes diffyg hyder ymysg ymwelwyr yng Nghymru.

“Mae gen i ymwelwyr sy’n dod yn ôl dro ar ôl tro. Mae gen i sgôr o 4.96 allan o 5. Mae gen i deuluoedd sy’n ymweld o Ewrop, UDA ac Awstralia.” (Ymateb dienw)

“Ble mae’r dystiolaeth nad oes gan ymwelwyr hyder? Cyn i chi ddod o hyd i ateb, mae angen i chi ddangos bod problem yn y lle cyntaf, ac mae angen i chi ddangos y bydd yr ateb arfaethedig yn datrys y broblem honno.” (Ymateb dienw)

Themâu sy’n cefnogi’r awgrym y byddai cynllun trwyddedu yn ennyn hyder mewn llety ymwelwyr a’i ddarparwyr

Sicrhau safonau ymysg darparwyr

- 4.67 Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a oedd yn cytuno â’r datganiad dan sylw yn dweud y byddai’r cynllun trwyddedu yn hwyluso’r gwaith o orfodi safonau ansawdd a diogelwch yn y sector. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn nodi bod hyder ymwelwyr mewn llety a’i ddarparwyr yn dibynnu ar y safonau iechyd a diogelwch ac ansawdd sydd ar waith. O ganlyniad, amlygodd yr ymatebwyr y byddai hyder ymwelwyr yn cynyddu drwy wella cydymffurfiaeth â’r holl safonau.

“Mae’n bosibl y byddai’n rhoi mwy o hyder i ymwelwyr pe baent yn ymweld ag eiddo trwyddedig. Er enghraifft, mae’n debyg y byddai’n cael ei ystyried yn brawf bod yr eiddo’n bodloni’r holl safonau diogelwch, fel archwiliadau nwy a thrydan ac ati.” (Ymateb dienw)

“Fe ddylai, oherwydd dylai sicrhau safonau.” (Preswlydd yng Nghymru)

Ffaffrio cynllun cofrestru

- 4.68 Y thema fwyaf cyffredin ond un a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno oedd y farn mai dim ond drwy gynllun cofrestru fyddai modd gwella hyder ymwelwyr. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a oedd yn codi’r thema hon yn pwysleisio y byddai cynllun cofrestru hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau, heb y baich gweinyddol a fyddai’n dargyfeirio adnoddau oddi wrth ansawdd y ddarpariaeth. O ganlyniad, gwelwyd y byddai ymwelwyr yn

teimlo'n hyderus bod yr holl safonau'n cael eu bodloni, gan fwynhau gwasanaethau o ansawdd uchel.

“Byddai cynllun Cofrestru Statudol cadarn, y rhoddwyd cyhoeddusrwydd da iddo gan Croeso Cymru, yn fwy na digon i esbonio i ymwelwyr fod yr holl lety hunanddarpar cofrestredig yng Nghymru yn ddiogel ac yn gyfreithlon.”
(Darparwr llety ymwelwyr)

Sicrhau tegwch ymysg darparwyr

- 4.69 Yr olaf o'r themâu amlycaf o blaid y datganiad dan sylw oedd y farn y byddai cynllun trwyddedu yn gwella hyder ymwelwyr drwy sicrhau tegwch ar draws darparwyr. Nododd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon y byddai cynllun yn gorfodi pob darparwr llety ymwelwyr i gydymffurfio â'r un safonau, gan hyrwyddo “cystadleuaeth deg”. Roedd ymatebwyr o'r farn nad yw llawer o ddarparwyr ar hyn o bryd yn glynu wrth unrhyw safonau diogelwch neu ansawdd a'u bod yn osgoi'r costau cysylltiedig, felly mae darparwyr cyfreithlon o dan anfantais gystadleuol. Esboniwyd y gallai darparwyr o ansawdd uchel gael eu gorfodi allan o'r farchnad, gan leihau hyder ymwelwyr.

“Er mwyn sicrhau tegwch i bob busnes twristiaeth a lletygarwch ac i fusnesau allu gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol, caniatâd cynllunio, iechyd a diogelwch, hylendid ac ati.” (Corff sy'n cynrychioli twristiaeth)


“Bydd llety ymwelwyr sefydledig yn teimlo bod tegwch. Ar hyn o bryd, mae'r busnesau hynny sydd wedi'u sefydlu fel busnesau llety ymwelwyr ac sydd â'r archwiliadau/yswariant/ansawdd cywir yn cystadlu â [hynny yw, darparwyr heb eu rheoleiddio] ac nid ydynt yn gallu cystadlu â'r prisiau maen nhw'n eu cynnig.” (Corff sy'n cynrychioli twristiaeth)

Darpariaeth a gweinyddiaeth lleol neu genedlaethol

- 4.70 Mae'r adran hon yn gofyn am farn ynghylch pa agweddau ar y cynllun statudol y dylid eu cyflwyno a'u gweinyddu'n lleol ac ar raddfa genedlaethol.

Cwestiwn 7: Rydym o'r farn y dylai cynllun statudol gael ei weithredu ar sail hybrid, gan ymdrin ag elfennau craidd megis cofrestru darparwyr a phrosesu ceisiadau ar sail genedlaethol, gyda chamau gorfodi yn cael eu cymryd gan awdurdodau lleol yn ôl y gofyn. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

Ffigur 9. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai cynllun statudol gael ei weithredu ar sail hybrid, fel y mae'n cael ei ddisgrifio



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,350 o ymatebwyr, sef 85% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.71 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn (57% neu 775 o ymatebwyr) yn anghytuno y dylai cynllun statudol gael ei weithredu ar sail hybrid.⁵ Roedd yr anghytuno'n fwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr o barciau cenedlaethol (63%), llwyfannau archebu (62%), a darparwyr llety ymwelwyr (59%).

⁵ Y cynnig oedd bod y cynllun statudol yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol mewn elfennau fel cofrestru darparwyr a phrosesu ceisiadau, yn ogystal â gorfodaeth leol gan awdurdodau lleol.

- 4.72 Ymatebwyr o awdurdodau lleol oedd yn cytuno fwyaf (47%), er bod y mwyafrif yn dal i anghytuno.

Themâu yn erbyn gweithredu cynllun hybrid

Ffario gweithrediad cwbl genedlaethol

- 4.73 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r datganiad dan sylw oedd y dylid gweithredu'r cynllun yn genedlaethol yn gyfan gwbl. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon fel arfer yn credu y byddai darpariaeth leol neu hybrid yn creu gwahaniaethau sylweddol ar draws rhanbarthau o ran monitro, gorfodi a ffioedd. O ganlyniad, nododd yr ymatebwyr hyn yn gyffredinol eu bod yn gryf o blaid Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r cynllun yn genedlaethol, gan sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n gyson ac yn deg.

“Gan mai nod datganedig cynllun o'r fath yw sicrhau 'tegwch' ledled Cymru, RHAIID ei gyflwyno'n gyson yn genedlaethol. Mae unrhyw weithredu hybrid sy'n caniatáu i awdurdodau lleol wneud amrywiadau i'r cynllun cenedlaethol hwnnw yn tansilio'n llwyr y bwriad i sicrhau tegwch, a bydd yn arwain at anghydraddoldeb ledled y wlad wrth i bob awdurdod lleol ddilyn ei agenda benodol.” (Ymateb dienw)

Pryderon ynghylch adnoddau i awdurdodau lleol

- 4.74 Y thema a grybwyllwyd amlaf ond un yn erbyn darparu cynllun hybrid oedd pryder ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon yn mynegi pryderon y byddai'r dull darparu hybrid arfaethedig yn rhoi cyfrifoldebau gweinyddol, monitro a gorfodi sylweddol ar awdurdodau lleol. Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn nodi nad oes gan awdurdodau lleol y staff a'r arian angenrheidiol i ddelio â'r cyfrifoldebau hyn.

“Ni all awdurdodau lleol ymdopi â'r gwaith na'r gost ychwanegol.” (Ymateb dienw)

“Ni fydd yn cael ei orfodi gan na fydd unrhyw allu i orfodi.” (Preswylydd yng Nghymru)

Ffafrio gweithrediad cwbl leol

- 4.75 Yr olaf o'r themâu cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu gweithrediad hybrid oedd y byddai'n well ganddynt weithrediad cwbl leol. Dywedodd yr ymatebwyr hyn na fyddai gwasanaeth hybrid neu genedlaethol yn gallu rhoi cyfrif am anghenion neu amgylchiadau lleol. O ganlyniad, awgrymwyd y dylid dewis dull gweithredu cwbl leol yn lle hynny, gan ddefnyddio gwybodaeth awdurdodau lleol am y cyd-destun lleol.

“Rwy'n credu bod angen i ni edrych ar fanylion rhanbarthau mewn perthynas â llety gwyliau. Mae gan rai rhannau o Gymru eu problemau eu hunain.”
(Ymateb dienw)

“Awdurdodau Lleol sy'n deall eu hardaloedd daearyddol a busnes orau.”
(Preswylydd yng Nghymru)

Themâu o blaid gweithredu'r cynllun hybrid

Gorfodi safonau'n effeithiol

- 4.76 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid cyflwyno cynllun hybrid yn dweud y byddai'n effeithiol o ran gorfodi safonau diogelwch ac ansawdd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cytuno'n gyffredinol mai cynllun hybrid fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cydymffurfiaeth, oherwydd gallai Llywodraeth Cymru osod rheolau cyson, gydag awdurdodau lleol wedyn yn eu gorfodi yn eu hardaloedd lleol.

“Mae'n bwysig bod y broses ymgeisio'n cael ei chanoli er mwyn sicrhau cysondeb o ran ei dehongliad a'r ffordd y caiff ei phrosesu. Er y dylai'r cymorth a'r orfodaeth gael eu darparu gan yr awdurdod lleol, mae digon o gyllid wedi cael ei roi gan y Llywodraeth er mwyn peidio â disbyddu arian sydd eisoes yn brin.” (Ymateb dienw)

Hyrwyddo tegwch ymysg rhanbarthau

- 4.77 Yr olaf o'r themâu cyffredin a godwyd gan ymatebwyr o blaid cyflwyno'r cynllun hybrid oedd y farn y byddai'n hyrwyddo tegwch ar draws rhanbarthau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn nodi y byddai'r dull arfaethedig yn darparu cydbwysedd teg rhwng cysondeb, ac addasiadau lleol i roi cyfrif am amgylchiadau penodol i ardaloedd.


“Mae hyn yn swnio’n ddull gweithredu synhwyrol i mi. Rhaid cael dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan er mwyn cyflwyno hyn, ond bydd gwybodaeth leol yn cefnogi gorfodaeth ac ati.” (Ymateb dienw)

Mathau o lety o fewn y cwmpas

4.78 Mae’r adran hon yn gofyn am farn ar lety ymwelwyr y dylid ei ystyried o fewn cwmpas cynllun statudol, yn ogystal ag eithriadau posibl.

Cwestiwn 8: Cynigir bod yr holl lety ymwelwyr yn cael ei ystyried o fewn cwmpas cynllun statudol. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hyn?

Ffigur 10. Cyfran o’r ymatebwyr sy’n cytuno neu’n anghytuno ag ystyried yr holl ddarparwyr llety ymwelwyr sydd o fewn cwmpas y cynllun statudol



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,357 o ymatebwyr, sef 85% o’r holl ymatebion i’r ymgynghoriad.

4.79 Roedd y rhan fwyaf o’r rhai a atebodd y cwestiwn hwn (56% neu 754 o ymatebwyr), yn anghytuno y dylid ystyried yr holl lety ymwelwyr o fewn cwmpas cynllun statudol. Roedd darparwyr llety ymwelwyr (57%) a phreswylwyr yng Nghymru (56%) yn fwy tebygol o anghytuno ymysg yr ymatebwyr i’r cwestiwn hwn.

4.80 Roedd ymatebwyr o awdurdodau lleol (56%) a chyrff sy’n cynrychioli twristiaeth (54%) fel arfer yn fwy o blaid y datganiad dan sylw.

**Themâu yn erbyn cynnwys pob darparwr llety ymwelwyr
Gwahaniaethu rhwng darparwyr mawr a bach**

- 4.81 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn erbyn y datganiad dan sylw y byddai cynllun o'r fath yn gosod gorbenion anghymesur o fawr ar ddarparwyr llety bach. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn dadlau na ddylid trin gwestai mawr neu weithwyr proffesiynol sy'n rhedeg mwy nag un llety gwyliau yn yr un modd â phobl sy'n cynnig ystafelloedd sbâr i westeion, fel arall, ni fyddai'r cynllun yn ymarferol, ac y byddai'n rhy ddrud i gwmnïau bach.

“Rhaid i'r cynllun fod yn deg a chydabod na all busnesau llai dalu'r un fath â busnesau mwy.” (Preswylydd yng Nghymru)

“Mae'r gorbenion ar gyfer menter fach, [...], yn rhy uchel iddi fod yn ecwitiol. Dim ond busnesau mwy (sydd a throsiant uwch na lefel benodol) y dylid eu cynnwys.” (Ymateb dienw)

Awgrymiadau ar sectorau i'w heithrio

- 4.82 Y rheswm mwyaf cyffredin ond un dros anghytuno oedd dadlau dros eithrio sectorau penodol, fel cartrefi modur, carafannau, cabanau clybiau mynydda, neu feysydd gwerysyla. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau nad oedd y sectorau hyn yn cael eu rheoleiddio gan eu bod yn cynnig opsiynau fforddiadwy i lawer o grwpiau a theuluoedd agored i niwed. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn dadlau y dylai llety sydd ar gael ar gyfer rhentu tymor byr yn unig gael ei drin yn wahanol i lety gydol y flwyddyn.

“Mae'r cwt yn darparu llety rhad i aelodau ac i grwpiau fel sgowtiaid, grwpiau Dug Caeredin a grwpiau ieuenctid/ysgol. Bydd hyn yn ychwanegu baich gweinyddol ac ariannol na allwn ei fforddio.” (Ymateb dienw)

“Dim ond am gyfnod byr y mae rhai mathau o lety ar gael. Dylid trin y rhain yn wahanol i lety gydol y flwyddyn.” (Ymateb dienw)

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.83 Roedd llawer o'r ymatebwyr, gan gynnwys nifer o ddarparwyr llety ymwelwyr, wedi cwyno am gost weinyddol ac ariannol sylweddol y cynnig dan sylw. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn dadlau bod sectorau fel meysydd

carafannau neu feysydd gwersylla eisoes yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau trwyddedu ac y dylid eu heithrio er mwyn osgoi dyblygu rheoliadau a chosbau.

“Pe bai’n golygu y byddai angen i ni dalu mwy na swm bach i gael ein cofrestru/trwyddedu, byddai’n cael effaith niweidiol ar ein cyllid.” (Preswlydd yng Nghymru)

“Ni ddylid cynnwys parciau a meysydd carafannau, nac unrhyw lety oddi mewn iddynt, mewn unrhyw gynllun. Maen nhw wedi’u trwyddedu’n barod.” (Ymateb dienw)

Themâu o blaid cynnwys pob darparwr llety ymwelwyr

Hyrwyddo tegwch ymysg darparwyr

- 4.84 Ymysg y rheini a oedd yn cytuno y dylid ystyried pob llety ymwelwyr o fewn cwmpas y cynllun, roedd y rhan fwyaf yn dadlau y byddai rheoliad hollgynhwysfawr yn osgoi bylchau cyfreithiol posibl, gan sicrhau tegwch.

“Tegwch – ar hyn o bryd mae gormod o fylchau a darparwyr nad ydynt yn mynd i’r afael ag iechyd a diogelwch.” (Ymateb dienw)

“Byddai eithriadau’n arwain at barhau â’r system ddwy haen a mwy.” (Awdurdod Parc Cenedlaethol)

Cwestiwn 9: A allwch chi nodi unrhyw fath o lety ymwelwyr y dylid ei eithrio rhag bod yn rhan o gynllun statudol a beth yw’r rhesymau dros eich ateb (ee llety a ddefnyddir at ddibenion addysg neu grwpiau agored i niwed yn unig)?

- 4.85 Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am farn ynghylch a ddylid eithrio unrhyw fath o lety o gynllun trwyddedu statudol. Mae’r adrannau isod yn cyflwyno’r themâu mwyaf cyffredin ymysg y rhai a ddarparodd awgrymiadau ynghylch pa lety y dylid ei eithrio.

Tanseilio tegwch ar draws darparwyr

- 4.86 Nid oedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr i’r cwestiwn hwn yn credu y dylid eithrio unrhyw lety ymwelwyr o’r cynllun. Fel y soniwyd yn y cwestiwn blaenorol, roedd yr ymatebwyr hyn yn pwysleisio y dylai pob sector fod o fewn y

cwmpas er mwyn osgoi bylchau, sicrhau tegwch, a darparu llety o ansawdd uchel yn gyffredinol.

“Dylid cynnwys pob un i fod yn deg a sicrhau llety o safon uchel a dilys. Fel arall, bydd bwch arall y gellir camfanteisio arno i osgoi'r cynllun a thalu trethi.” (Ymateb dienw)

“Beth bynnag fo pwrpas y llety ymwelwyr – p'un a yw ar gyfer dibenion gwyliau, addysg, gwaith neu bobl agored i niwed – mae angen yr amddiffyniad/gwarchodaeth a ddarperir gan y tystysgrifau diogelwch ar y preswylwyr.” (Preswilydd yng Nghymru)

Eithrio llety sydd ar gyfer gwyliau yn unig a'r rhai a ddarperir mewn cartrefi preifat

- 4.87 Y thema a godwyd amlaf ond un oedd y farn y dylai anheddau a ddefnyddir at ddibenion gwyliau yn unig gael eu heithrio o'r cynllun arfaethedig. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn nodi na ellir defnyddio'r anheddau hyn fel rhai preswyl, ac o ganlyniad, nid ydynt yn effeithio ar argaeledd tai lleol. Yn ogystal, soniodd rhai ymatebwyr y dylai llety a gynigir mewn cartrefi preifat, a'r rhai a gynigir am gyfnodau byr, gael eu heithrio hefyd. Dywedodd yr ymatebwyr hyn fod yr ail o'r rhain yn arbennig o bwysig i deuluoedd a phobl leol sy'n ceisio ychwanegu at eu hincwm.

“Llety sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion gwyliau yn unig. Ni ellir defnyddio'r math hwn o eiddo fel eiddo preswyl ac nid yw'n amddifadu pobl leol o gartrefi.” (Preswilydd yng Nghymru)

“Dylai pobl sy'n gosod ystafelloedd neu randai yn eu llety eu hunain gael eu heithrio.” (Preswilydd yng Nghymru)

Eithrio busnesau bach o'r cynllun

- 4.88 Y drydedd thema fwyaf cyffredin oedd y dylid eithrio darparwyr llety ymwelwyr bach oherwydd efallai na fyddant yn gallu ysgwyddo costau'r cynllun arfaethedig. Nododd ymatebwyr y gallai darparwyr bach gynnwys y rheini: (i) sydd ag un neu ddau eiddo yn unig, (ii) sy'n ennill llai na £25,000 y flwyddyn, a (iii) sy'n cynnig cabanau ar raddfa fach. Nododd rhai ymatebwyr,

os caiff darparwyr bach eu cynnwys hefyd, y dylent fod yn destun dull cyffyrddiad ysgafn.

“Busnesau bach neu fusnesau teuluol sy’n cael eu rhedeg gydag ychydig o weithwyr neu ddim o gwbl.” (Llwyfan archebu)

“Er nad ydw i’n credu y gallwn gyfiawnhau eu heithrio o unrhyw gynllun, rwy’n teimlo y dylai unrhyw gynllun fod yn ddigon soffistigedig i ddefnyddio dull llawer llai trwm ar gyfer gweithredwyr llai.” (Arall)

Cytiau clybiau mynydda, meysydd gwersylla a charafannau preifat

- 4.89 Y drydedd thema a godwyd amlaf oedd y dylid ystyried bod cytiau clybiau mynydda y tu allan i’r cwmpas. Nododd ymatebwyr a gododd y thema hon fod y mathau hyn o lety yn aml yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr neu aelodau, gydag adnoddau cyfyngedig, ac nad ydynt ar gael i’r cyhoedd. Yn yr un modd, roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylai llety ar feysydd gwersylla a meysydd carafannau cofrestredig gael ei eithrio hefyd gan mai’r bwriad yw ei ddefnyddio ar gyfer defnydd preifat neu deuluol, ac mae eisoes o dan ganiatâd cynllunio ffurfiol.

“Carafannau preifat, carafannau teithio a charafannau statig lle nad oes neb arall yn cael aros. Sut allwch chi drethu rhai pobl am fyw yn eu heiddo eu hunain pan maen nhw eisoes wedi talu miloedd i aros yno, a TAW. Maen nhw eisoes wedi cael eu trethu am eu harhosiad.” (Preswilydd yng Nghymru)

“Meysydd gwersylla, yn enwedig y rheini sydd eisoes yn dod o dan drwydded clwb gwersylla (sy’n cynnwys monitro cydymffurfiaid â safonau a rheoliadau).” (Ymateb dienw)

Mae’r cynllun yn arbennig o bwysig ar gyfer llety at ddibenion addysg neu grwpiau agored i niwed

- 4.90 Yn olaf, roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn anghytuno â’r enghraifft o eithrio llety ar gyfer poblogaethau agored i niwed ac at ddibenion addysgol, a awgrymir yn y ddogfen ymgynghori. Dywedodd ymatebwyr fod y grwpiau hyn yn aml yn arbennig o agored i niwed, ac y dylai eu llety fod yn

ddarostyngedig i safonau arbennig o gaeth. Roedd cyfran sylweddol o'r darparwyr llety ymwelwyr yn arddel y safbwyntiau hyn.


“Na. [...] Mewn gwirionedd, po fwyaf agored i niwed yw'r gwesteion, y mwyaf o warchodaeth y dylid ei rhoi iddyn nhw!” (Preswlydd yng Nghymru)

Meysydd carafannau a gwersylla

4.91 Mae'r adran hon yn ceisio barn ar y ffordd briodol o drin carafannau preifat sy'n cael eu hisosod mewn parciau trwyddedig.

Cwestiwn 10: Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am osod y llety at ddibenion gwyliau mewn safleoedd carafannau a/neu feysydd gwersylla (hynny yw, perchennog y parc neu'r perchennog unigol) gael trwydded. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 11. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno mai pwy bynnag sy'n gyfrifol am osod y llety ar safleoedd carafannau a/neu wersylla at ddibenion gwyliau ddylai orfod cael trwydded



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,154 o ymatebwyr, sef 72% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

4.92 Gan amlaf, roedd y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (47% o 537 o ymatebwyr) yn anghytuno dylai fod yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am osod y llety at ddibenion gwyliau mewn safleoedd carafannau a/neu feysydd gwersylla (hynny yw, perchennog y parc neu'r perchennog unigol) gael trwydded. Ymatebwyr o lwyfannau archebu oedd yn anghytuno fwyaf (52%) o blith yr holl ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

- 4.93 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol (63% yn y ddau) yn cytuno â'r datganiad dan sylw.
- 4.94 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cynnig barn ynghylch a ddylid trwyddedu carafannau o gwbl, yn hytrach na phwy ddylai fod yn gyfrifol am y trwyddedu. Cyflwynir isod y themâu mwyaf cyffredin ymysg y rhai a atebodd y cwestiwn yn benodol.

Themâu yn erbyn mynnu bod pwy bynnag sy'n gyfrifol am osod y llety yn cael trwydded

- 4.95 Mae'r adran hon yn cynnwys awgrymiadau eraill ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am gael trwydded.

Perchnogion parciau ddylai gael y drwydded

- 4.96 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai perchennog y safle neu'r parc ddylai fod yn gyfrifol am gael y drwydded. Fodd bynnag, nid oedd yr un ohonynt yn cynnig rhesymau penodol dros eu barn.

"Rwy'n credu bod hynny'n iawn ar gyfer brics a mortar; ar gyfer parciau carafannau, rwy'n credu mai perchnogion y meysydd ddylai fod yn gyfrifol."
(Ymateb dienw)

Trydydd partïon i gael trwydded

- 4.97 Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cael mwy o gyfranogiad gan drydydd partïon, er enghraifft, gan asiantaethau gosod tai. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn awgrymu bod trydydd partïon yn aml yn delio â'r archebion, ac felly bod yr wybodaeth angenrheidiol ganddyn nhw. O ganlyniad, awgrymwyd mai'r trydydd partïon hyn ddylai gael y drwydded.

"Gwirfoddolwyr ydyn ni, ac mae'r archebion yn cael eu gwneud drwy lwyfan ar-lein. Does dim unigolyn penodol yn gyfrifol." (Ymateb dienw)

"Rwy'n gosod drwy [hynny yw, llwyfan archebu]. Maen nhw eisoes yn casglu'r wybodaeth hon ynghylch profion trydan, tân, nwy ac ati, felly lle y bo'n asiantaeth broffesiynol, pam ddim ei defnyddio?" (Darparwr llety ymwelwyr)

Themâu o blaid mynnu bod pwy bynnag sy'n gyfrifol am osod y llety yn cael trwydded

Cytuno â'r datganiad yn gyffredinol

- 4.98 Ymysg y rhai a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf yn cytuno mai pwy bynnag sy'n gyfrifol am osod y llety ddylai fod yn gyfrifol am gael y drwydded. Nid oedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon fel arfer yn ymhelaethu ar eu barn, oni bai am nodi mai dyma oedd yr ateb amlycaf.

“Pwy well i wneud hynny?” (Ymateb dienw)

“Os cyflwynir cynllun, perchennog y llety sydd yn y sefyllfa orau i gael y drwydded.” (Ymateb dienw)

Cwestiwn 10A: Oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynglŷn â chynllun statudol a'r sector carafannau a gwersylla?

- 4.99 Mae'r adrannau isod yn rhestru'r themâu mwyaf cyffredin sy'n ymwneud â chynllun statudol a'r sector carafannau a gwersylla.

Themâu yn erbyn yr awgrym y dylai'r cynllun statudol gynnwys y sector carafannau a gwersylla

Amheuan ynghylch yr angen am gynllun trwyddedu

- 4.100 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn erbyn cynnwys y sector carafannau a gwersylla o'r farn nad oedd angen cofrestriad ychwanegol ar gyfer meysydd carafannau a gwersylla. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon fel arfer yn nodi bod nodau Llywodraeth Cymru eisoes yn cael eu cyflawni drwy'r cynlluniau a'r cofrestriadau presennol. O ganlyniad, ystyriwyd bod y cynllun arfaethedig yn arwain at ddyblygu gwaith gweinyddol a chosbau, heb gynnig unrhyw fanteision ychwanegol.

“Mae ein haelodau sy'n berchen ar garafannau yn awgrymu bod y cynllun trwyddedu hwn yn gyfystyr â chofrestru ddwywaith ac felly'n ddiangen.”
(Cymdeithas twristiaeth)

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.101 Fe wnaeth rhai ymatebwyr hefyd ategu y byddai'r cynnig yn arwain at faich gweinyddol ac ariannol sylweddol.

“Mae’r math hwn o orymestyn gan y llywodraeth yn arwain at roi baich cwbl ddiangen ar berchnogion busnesau bach o ran costau a chydymffurfio.”

(Ymateb dienw)

Anghytuno â chynllun yn gyffredinol

- 4.102 Fel y soniwyd yn yr adran themâu cyffredinol, thema sy’n codi’n aml ar draws y cwestiynau yw anghytuno’n gyffredinol â chael cynllun trwyddedu, ac felly unrhyw gynllun sy’n cynnwys y sector carafannau a gweryslla.

“Rwy’n anghytuno â’r cynnig i gyflwyno unrhyw gynllun trwyddedu neu ffioedd.” (Ymateb dienw)

Effaith niweidiol ar dwristiaeth

- 4.103 Roedd y thema gyffredin olaf yn erbyn y datganiad dan sylw yn ymwneud ag effeithiau cynllun trwyddedu ar dwristiaeth. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn mynegi pryderon am y bygythiad i ba mor gystadleuol yw llety ymwelwyr yng Nghymru o’i gymharu â’r rheini yn Lloegr a’r Alban. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn codi’r thema hon fel arfer yn pwysleisio y byddai’r cynllun trwyddedu yn arwain at gostau uwch i ddarparwyr, a fyddai naill ai’n lleihau ansawdd llety neu’n codi prisiau.

“A fydd y cynllun trwyddedu a’r dreth dwristiaeth [hynny yw, ardoll ymwelwyr]⁶ yn atal pobl rhag dod ar wyliau i Gymru os gallant wneud hynny’n rhatach dros y ffin? Fel teulu sy’n mynd i wersylla, rydw i’n chwilio am lety/maes rhad, felly mae cynllun statudol yn ymddangos yn ormodol i’r sector hwn.” (Preswlydd yng Nghymru)

Themâu o blaid yr awgrym y dylai’r cynllun statudol gynnwys y sector carafannau a gweryslla

Sicrhau tegwch ymysg darparwyr llety

- 4.104 Y rheswm mwyaf cyffredin ond un dros gytuno â’r datganiad dan sylw oedd y byddai’n sicrhau tegwch i ddarparwyr llety lleol. Roedd ymatebwyr i’r cwestiwn hwn yn nodi y dylai pob llety ymwelwyr fod yn ddarostyngedig i’r un safonau, er mwyn osgoi gwahaniaethu yn erbyn rhai darparwyr.

⁶ Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch dyluniad a gweithrediad ardoll ymwelwyr dewisol ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ardoll-ymwelwyr>

“Dylai unrhyw gynllun hefyd fod yn berthnasol i lety a ddarperir ar feysydd carafannau/gwersylla er mwyn sicrhau tegwch i ddarparwyr llety.” (Ymateb dienw)

Cytuno gydag amodau

- 4.105 Y thema a godwyd amlaf ond un o blaid y datganiad dan sylw oedd mai dim ond rhai carafannau y dylid eu cynnwys. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn credu y dylai trwyddedu fod yn amodol ar y math o ddefnydd neu'r amllder gweithredu. Dadleuwyd y dylai carafannau sy'n cael eu prynu am resymau masnachol yn unig gael eu cynnwys yn y cynllun, tra dylid eithrio'r rheini sy'n cael eu defnyddio'n bennaf gan eu perchnogion ac nad ydynt ond yn cael eu gosod o bryd i'w gilydd.

“Rwy'n credu y dylai'r cynllun fod yn berthnasol i bobl sy'n prynu carafannau [...] at ddibenion gosod yn unig ac at ddibenion busnes sy'n gwneud elw, ond nid i berchnogion fel ni sy'n gosod llety weithiau i helpu i dalu am waith cynnal a chadw, ond sy'n dal i dalu'r dreth gyngor ar ben hynny.” (Ymateb dienw)

Sicrhau bod safonau'n cael eu gorfodi

- 4.106 Yn olaf, soniodd rhai ymatebwyr y dylid cynnwys y sector carafannau a gweryslla yn y cynllun i sicrhau lefel benodol o safonau. Nododd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon y byddai cynnwys carafannau yng nghwmpas y cynllun yn eu gorfodi i gydymffurfio â'r safonau iechyd a diogelwch y cytunwyd arnynt, gan roi budd i ymwelwyr sy'n aros mewn meysydd carafannau a gweryslla.

“Dylai meysydd carafannau a gweryslla hefyd gael yr un lefelau o hylendid, iechyd a diogelwch ac ati â darparwyr llety eraill.” (Ymateb dienw)

- 4.107 Mynegodd nifer sylweddol o ymatebwyr bryderon ynghylch y diffyg ystyriaeth a roddwyd i feysydd gweryslla dros dro. Nododd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon nad oedd y cynllun statudol yn rhoi sylw penodol i feysydd gweryslla dros dro, er nad ydynt yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd a'u bod yn peri risgiau o ran iechyd a diogelwch. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch cynnydd posibl mewn arferion gweryslla gwyllt, o ganlyniad i ddarparwyr yn symud i'r sector hwn ar ôl cyflwyno'r cynllun.

“Er mwyn cael rheoliadau llymach ar y drwydded 28 diwrnod; mae nifer y meysydd gweryslla “dros dro” sydd o gwmpas yn chwerthinllyd ac mae hynny’n gorlenwi ardaloedd gwarchoddedig a gwyllt.” (Ymateb dienw)


“Os bydd meysydd gweryslla anffurfiol yn cau oherwydd bod deddfwriaeth newydd yn rhy feichus, mae’n debygol y bydd mwy o wersylla gwyllt anghyfreithlon o ganlyniad – a fydd o fudd i neb.” (Ymateb dienw)

Cyfnod gweithredu

4.108 Mae'r adran hon yn gofyn am farn ynghylch a ddylai cynllun trwyddedu statudol fod yn berthnasol i bob gweithredwr, gan gynnwys y rheini sy'n gweithredu am un noson y flwyddyn yn unig.

Cwestiwn 11: Rydym yn cynnig y dylai trwydded fod yn ofynnol hyd yn oed os mai'n anaml y mae'r llety ymwelwyr yn gweithredu (gan gynnwys am un noson y flwyddyn). Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 12. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod angen trwydded ar lety ymwelwyr hyd yn oes os yw'n gweithredu'n anaml (gan gynnwys un noson y flwyddyn)



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,132 o ymatebwyr, sef 71% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

4.109 Roedd mwyafrif y rhai a atebodd y cwestiwn hwn (61% neu 691 o ymatebwyr) yn anghytuno y dylai fod angen trwydded ar lety ymwelwyr hyd

yn oes os yw'n gweithredu'n anaml (gan gynnwys un noson y flwyddyn). Roedd yr anghytuno'n fwyaf cyffredin ymysg preswylwyr yng Nghymru a darparwyr llety ymwelwyr (61% yn y ddau achos).

- 4.110 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o awdurdodau lleol (56%) a chymdeithasau twristiaeth (52%) yn cytuno â'r datganiad dan sylw.

Themâu yn erbyn cynnwys llety ymwelwyr sy'n cael ei ddefnyddio'n anaml

Anghytuno â chynllun yn gyffredinol

- 4.111 Y thema fwyaf cyffredin yn erbyn cynnwys llety ymwelwyr a ddefnyddir yn anaml yn y cynllun trwyddedu oedd anghytuno'n gyffredinol â'r cynllun ac anghytuno â'r gwerth y byddai'n ei ddarparu. Mynegodd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon wrthwynebiad mwy fyth i'r cynllun pan oedd yn ymwneud â'r rheini sy'n gosod llety'n anaml.

"Does dim ots am faint o nosweithiau mae llety'n cael ei ddefnyddio, dydyn ni ddim yn cytuno â chynllun statudol." (Ymateb dienw)

"Mae ei gwneud yn ofynnol bod angen trwydded i osod llety am un noson y flwyddyn yn syniad chwerthinllyd." (Ymateb dienw)

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.112 Fel y soniwyd yn yr adran themâu cyffredinol, roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn poeni am y baich gweinyddol ac ariannol sylweddol sy'n gysylltiedig â'r cynllun. O ran y cwestiwn hwn yn benodol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynnig yn rhoi baich anghymesur ar osodwyr llety bach ac a ddefnyddir yn anaml.

"Nid yw'n ychwanegu dim ac eto bydd cost sylweddol i berchnogion busnesau bach, o ran eu hamser a'u harian." (Ymateb dienw)

Effaith niweidiol ar dwristiaeth

- 4.113 Y drydedd thema a grybwyllwyd amlaf yn erbyn y datganiad dan sylw oedd pryder ynghylch yr effaith ar argaeledd llety ymwelwyr. Roedd yr ymatebion hyn yn dangos yn gyffredinol y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar gynaliadwyedd darparwyr, gan arwain at gyflenwad llety ymwelwyr a allai fod yn annigonol. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r farn bod y mathau hyn o lety

gwyliau yn cael eu defnyddio'n bennaf yn ystod digwyddiadau mawr lle nad yw'r llety arferol sydd ar gael yn ddigonol.

“Os ydych chi'n cyflwyno cynllun a'ch rheswm dros wneud hynny yw sicrhau mwy o hyder, rwy'n ofni y dylai pob darparwr gael ei gynnwys, ond bydd yr effaith negyddol ar y diwydiant yn cael ei theimlo. [...]” (Ymateb dienw)

“Rwy'n credu y gallai'r baich gweinyddol ynghyd â'r gofynion ychwanegol leihau argaeledd llety sy'n cael ei ddefnyddio'n anaml ond sy'n dal i fod o ansawdd da. Byddai hyn yn golled i'r economi. [...]” (Ymateb dienw)

Pryderon gorfodi ar gyfer y rheini sy'n gosod yn anaml

- 4.114 Yn olaf, fe wnaeth rhai ymatebwyr a oedd yn erbyn y syniad o gynnwys llety ymwelwyr a ddefnyddir yn anaml fynegi amheuan ynghylch pa mor orfodadwy oedd y cynllun. Dywedodd yr ymatebwyr hyn na fyddai'n bosibl gorfodi'r drwydded, gan na fyddai'r mathau hyn o osodwyr llety yn cydymffurfio â'r cynllun.

“[...] Siawns ei bod yn amlwg nad yw rhywun sydd ond yn darparu llety am ychydig o nosweithiau y flwyddyn yn mynd i gofrestru – felly sut bydd y gofyniad afrealistig hwn yn cyflawni unrhyw beth defnyddiol?” (Preswilydd yng Nghymru)

“Dydw i ddim yn gweld unrhyw broblem gyda rhywun yn gosod ystafell am wythnos neu ddwy, dyweder, ond byddai'r system yn dod yn amhosibl ei rheoleiddio.” (Preswilydd yng Nghymru)

Themâu o blaid cynnwys llety ymwelwyr a ddefnyddir yn anaml

Hyrwyddo cysondeb a thegwch ymysg darparwyr

- 4.115 Y thema fwyaf cyffredin ond un a godwyd gan ymatebwyr a oedd o blaid y datganiad dan sylw oedd hyrwyddo cysondeb a thegwch. Dywedodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr y byddai cynnwys pob darparwr yn y cynllun yn helpu i osgoi bylchau yn y cynllun, gan sicrhau tegwch a bod safonau'n cael eu cymhwyso'n gyson.

“Os bydd rheolau’n cael eu cyflwyno, yna mae’n rhaid eu cymhwysu mewn modd cyson a theg.” (Ymateb dienw)

“Os oes gennych chi fylchau sy’n seiliedig ar nifer y nosweithiau gosod ac ati, yna rydych yn gwneud y cynllun yn llawer mwy cymhleth ac yn rhoi ffyrdd o osgoi cofrestru i’r bobl sy’n dymuno chwarae’r system. Bydd hyn yn golygu mwy o fiwrocratiaeth i fusnesau cyfreithlon ac ni fydd yn sicrhau tegwch yn unol â’r nod a bennwyd.” (Awdurdod lleol)

Hyrwyddo safonau diogelwch

- 4.116 Y rheswm mwyaf cyffredin ond un dros gynnwys llety ymwelwyr a ddefnyddir yn anaml yn y cynllun oedd gorfodi safonau diogelwch. Roedd ymatebwyr a oedd yn codi’r thema hon fel arfer yn pwysleisio y dylai pob llety gael ei ddal yn atebol i’r un safonau diogelwch. Roedd rhai ymatebion hefyd yn awgrymu y dylid cynnwys llety a osodir yn anaml yn enwedig yn y cynllun, gan eu bod yn fwy amhrofiadol ac yn fwy tebygol o fod o ansawdd is.

“Mae’r un ddyletswydd gofal yn bodoli am 1 noson neu am 365.” (Ymateb dienw)

“Os ydych chi wir eisiau gwella diogelwch a phrofiadau ymwelwyr, does dim ots a yw am un noson neu 7, dylai’r un rheolau fod yn berthnasol – byddwn i’n dadlau bod gwesteiwyr dibrofiad yn fwy tebygol na gwesteiwyr profiadol o blygu rheolau ynghylch niferoedd a diogelwch gan ei fod yn achlysur ‘untro’, ac yn fwy tebygol o arwain at broblemau.” (Ymateb dienw)

Ffaffrio cofrestru yn lle’r cynllun trwyddedu

- 4.117 Y drydedd thema a grybwyllwyd amlaf o blaid y datganiad dan sylw oedd y dylid cynnwys llety ymwelwyr a ddefnyddir yn anaml yn y cynllun, ond dim ond os dewisir cynllun cofrestru yn lle cynllun trwyddedu.

“Bydd cynllun cofrestru sy’n hawdd cofrestru ar ei gyfer yn caniatáu i bob math o weithredwr lynu wrth y cynllun a fydd, yn ei dro, yn caniatáu mwy o gydymffurfio ac yn rhoi darlun cliriach o’r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. [...]” (Ymateb dienw)

Dull gweithredu wedi'i deilwra ar gyfer llety a osodir yn anaml

- 4.118 Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid trin llety a osodir yn anaml yn wahanol o'u cymharu â gweddill y darparwyr. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn nodweddiadol yn awgrymu nad oes gan lety a ddefnyddir yn anaml y gallu i gydymffurfio â gofynion llawn y cynllun, felly byddai'n annheg eu trin yn yr un modd. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r gosodwyr llety hyn gael eu rheoleiddio'n ysgafnach, neu dalu ffioedd is, tra awgrymodd eraill osod trothwy sy'n eithrio'r rheini sy'n gosod llety'n anaml iawn.


“Fel y nodwyd uchod, gallai pobl sy'n gosod rhan o'u cartref neu eu cartref cyfan am lai na 30 diwrnod yn ystod y flwyddyn fwynhau trefn ratach ac ysgafnach i annog y math hwn o lety i dwristiaid nad yw, oherwydd ei natur, yn amharu ar y cyflenwad cartrefi.” (Arall)

Trwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol

- 4.119 Mae'r adran hon yn gofyn am farn ynghylch a allai darparwyr wneud cais am drwydded gyfyngedig am gost is, pe bai digwyddiad untro yn cael ei gynnal mewn ardal benodol lle mae prinder llety.

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r angen am drwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol?

Ffigur 13. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r angen am drwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,115 o ymatebwyr, sef 70% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.120 Roedd y rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn bennaf (45% neu 504 o ymatebwyr) yn anghytuno â'r angen am drwydded gyfyngedig i ddarparwyr llety ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol. Roedd yr anghytuno'n fwyaf cyffredin ymysg cyrff sy'n cynrychioli twristiaeth (54%), awdurdodau lleol (53%), a chymdeithasau twristiaeth (52%).
- 4.121 Er nad oedd mwyafrif o blith yr un math o ymatebydd yn cytuno â'r awgrym, ymatebwyr o asiantaethau hunanddarpar oedd yn cytuno fwyaf (41%) ar draws yr holl ymatebwyr.

Anghytuno ag unrhyw ffurf ar drwyddedu

- 4.122 Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn eu bod yn anghytuno'n gyffredinol â defnyddio unrhyw fath o drwyddedu i ddarparwyr llety ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol. Cyflwynir y rhesymau mwyaf cyffredin isod.

Y rheoliadau presennol ar gyfer digwyddiadau untro

- 4.123 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno ag unrhyw fath o drwydded yn dweud bod llety ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol eisoes yn cael eu rheoleiddio. O ganlyniad, ystyriwyd y byddai unrhyw drwyddedu ychwanegol yn arwain at ddyblygu ymdrechion ac y byddai'n aneffeithiol.

“Siawns bod digwyddiadau untro yn dod o dan ofynion trwyddedu eraill fel trwyddedu adloniant/alcohol ac ati” (Ymateb dienw)

“Maen nhw eisoes yn atebol dan reoliadau lechyd a Diogelwch ac Atebolrwydd Cyhoeddus ac maen nhw'n agored i gael eu herlyn am dorri amodau” (Preswilydd yng Nghymru)

Cost ariannol anghymesur i ddarparwyr llety ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol

- 4.124 Y rheswm mwyaf cyffredin ond un dros anghytuno â'r datganiad dan sylw oedd y byddai'r costau trwyddedu'n anghymesur o uchel i ddarparwyr digwyddiadau untro. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn nodi'n

gyffredinol bod darparwyr digwyddiadau o'r fath fel arfer yn fach ac na allant ysgwyddo'r gost ariannol sy'n gysylltiedig â thrwyddedu.

“Ni fydd cyflawni'r cynllun hwn yn broblem i fusnesau mawr, ond rydych chi'n cosbi'r teuluoedd hynny sy'n dibynnu ar hyn i ategu eu hincwm” (Ymateb dienw)

Amheuon ynghylch manteision y cynllun i ddarparwyr llety ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol

- 4.125 Yn olaf, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon na fydd unrhyw rai o fanteision y drwydded arfaethedig yn berthnasol i ddarparwyr digwyddiadau untro neu flynyddol. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn aml yn nodi nad yw'r darparwyr hyn yn gweithredu am gyfnod digon hir i gael unrhyw fudd o'r drwydded, gan y barnwyd bod angen mwy o amser i'w gwireddu.

“Nid yw tegwch yn berthnasol i drwyddedau untro gan na fyddai modd cymharu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Byddai trwyddedau untro hefyd yn rhwystr mawr i'r farchnad gan y byddai llai o gydnabyddiaeth yn y farchnad.” (Arall)

Cytuno â chael trwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol

- 4.126 Y thema fwyaf cyffredin ond un oedd y farn y dylid cael trwydded dwy haen, gan wahanu darparwyr digwyddiadau untro oddi wrth y cynllun cyffredinol. Y brif ddadl oedd y byddai hwn yn ddull gweithredu tecach a mwy cymesur. Nododd rhai ymatebwyr hefyd y byddai'r dull hwn yn hyrwyddo safonau iechyd a diogelwch ac ansawdd, o'i gymharu â digwyddiadau untro nad ydynt yn cael eu trwyddedu o gwbl.

“Dylai trwydded tymor byr ar gyfer digwyddiadau penodol fod ar gael am gost is, ond ni ddylid ymestyn hyn am gyfnodau hwy, er enghraifft, i gynnwys hawl tiffeddianwyr i hyrwyddo gwersylla ar eu safle am gyfnod o 28 diwrnod yn ystod blwyddyn heb ganiatâd cynllunio.” (Awdurdod lleol)

“Byddai trwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiad blynyddol yn briodol am resymau yn ymwneud a thegwch a diogelwch ymwelwyr.” (Ymateb dienw)

O blaid un drwydded gyffredin

- 4.127 Y drydedd thema fwyaf cyffredin oedd dadlau dros drwydded gyffredin i bob ymatebydd. Yn nodweddiadol, roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn awgrymu mai dim ond drwy orfodi safonau diogelwch cyffredin y gellir sicrhau tegwch rhwng darparwyr, gan hyrwyddo cysondeb a thegwch.

“Dylid cyflwyno unrhyw gynllun trwyddedu yn gyson neu ni ellir sicrhau tegwch byth. Mae’r risg o ran diogelwch yr un fath ar gyfer un noson a sawl noson. Y ffi ddylai amrywio, nid y drwydded ei hun.” (Ymateb dienw)

Angen eglurhad ychwanegol

- 4.128 Y thema gyffredin ddiwethaf a godwyd oedd gofyn am ragor o wybodaeth am y cynnig, gyda chyfran sylweddol o’r ymatebwyr yn gofyn am wybodaeth ychwanegol am yr hyn sy’n cael ei ystyried yn ddigwyddiad “untro”.

“Mae hyn yn dibynnu ar y raddfa a faint mae’n debygol o effeithio ar y gymuned leol. Gwylliau roc, ie. Derbyniad priodas neu ddisgyblion ysgol yn gweryslla yng nghae rhywun ar deithiau Dug Caeredin, na. Mae’n debyg y byddai digwyddiadau sy’n cynnwys mwy na 100 o bobl yn gymwys.” (Ymateb dienw)


“Nid yw’n glir i mi pa fath o “ddigwyddiadau untro” a ragwelir. Mae’n debyg bod gan wyliau eisoes reolau a rheoliadau i gydymffurfio â nhw, a gallent fod yn destun arolygiadau o fewn y ddeddfwriaeth bresennol.” (Ymateb dienw)

Gofynion y cynllun

- 4.129 Mae'r adran hon yn ceisio barn ar y manylion a'r dystiolaeth y mae darparwyr llety ymwelwyr yn gofyn amdanynt er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r cynllun trwyddedu.

Cwestiwn 13: Rydym yn cynnig y dylai darparwyr llety ymwelwyr ddarparu'r wybodaeth / y ddogfennaeth uchod ac y dylai fod yn ofynnol iddynt roi tystiolaeth/cadarnhad eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion fel y nodir uchod. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 14. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r wybodaeth arfaethedig sydd ei hangen i ddangos eu bod yn cydymffurfio



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,133 o ymatebwyr, sef 71% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.130 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn (55% neu 623 o ymatebwyr) anghytuno â'r wybodaeth a'r dogfennau arfaethedig y byddai'n rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr eu darparu i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion trwyddedu. Cyrff sy'n cynrychioli twristiaeth oedd yr ymatebion a oedd yn anghytuno fwyaf (67%), yna preswylwyr yng Nghymru (57%), a darparwyr llety ymwelwyr (56%).
- 4.131 Ar y llaw arall, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o barciau cenedlaethol (63%) ac awdurdodau lleol (60%) yn cytuno â'r wybodaeth arfaethedig sydd ei hangen i ddangos eu bod yn cydymffurfio.

Themâu yn erbyn yr wybodaeth arfaethedig sydd ei hangen i ddangos cydymffurfiaeth

Anghytuno'n gyffredinol â thrwyddedu

- 4.132 Y thema fwyaf cyffredin yn erbyn y datganiad dan sylw oedd anghytuno â'r syniad o gynllun trwyddedu yn gyffredinol, fel y trafodir yn yr adran themâu cyffredinol. O ganlyniad, yn gyffredinol nid oedd yr ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon am ddarparu unrhyw wybodaeth i ddangos eu bod yn cydymffurfio.

“Rwy'n anghytuno â'r cynnig i gyflwyno unrhyw gynllun trwyddedu neu ffioedd.” (Ymateb dienw)

“does dim angen y cynllun hwn arnom ni, felly does dim angen i ni ddarparu gwybodaeth ychwanegol” (Ymateb dienw)

Mae'r dogfennau y gofynnir amdanynt eisoes yn cael eu darparu

- 4.133 Y thema fwyaf cyffredin ond un o ran gwrthwynebu'r dogfennau a awgrymir oedd bod darparwyr eisoes yn rhannu'r holl wybodaeth a restrir drwy sianeli eraill. Er enghraifft, soniodd rhai ymatebwyr fod angen iddynt gyflwyno'r un wybodaeth ar gyfer y caniatâd cynllunio, yswiriant, asiantaethau gosod tai ac adolygiadau o ardrethi annomestig. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r llywodraeth gasglu'r wybodaeth hon gan y gwahanol adrannau, yn hytrach na chael darparwyr i ddyblygu eu hymdrechion.

“Mae'n bryder bod llawer o'r wybodaeth hon eisoes yn bodoli ar gyfer gweithredwyr swyddogol, yn aml o fewn adrannau eraill awdurdodau lleol – ac mae'n ymddangos yn ddianghenraid o feichus i weithredwyr orfod darparu'r dystiolaeth sawl gwaith. Yr ateb gorau fyddai cynllun sy'n gallu cael gafael ar y dystiolaeth sydd ei hangen eisoes a'i storio mewn lleoliad canolog.” (Ymateb dienw)

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.134 Fel y soniwyd yn yr adran themâu cyffredinol, roedd ymatebwyr yn aml yn poeni am y baich gweinyddol ac ariannol mawr y byddai darparu'r wybodaeth a restrir yn ei achosi.

“Y rhestr helaeth o dystiolaeth arfaethedig yw’r union reswm pam na ddylid rhoi trwyddedu ar waith. Byddai’r baich biwrocraidaidd yn enfawr, yn ddrud i’w weinyddu, ac yn rhoi gwerth gwael am arian i’r cyhoedd ac i drethdalwyr.”
(Ymateb dienw)

“Mae’n cynyddu costau, yn anfanteisiol i’r diwydiant ac mae’r amseru’n wael yn ystod argyfwng costau byw. Mae’n faich ychwanegol sylweddol ac nid yw’n cael ei sbarduno gan angen o ran y diwydiant nac ymwelwyr.” (Ymateb dienw)

Themâu o blaid yr wybodaeth arfaethedig sydd ei hangen i ddangos cydymffurfiaeth

Hyrwyddo prosesau gorfodi safonau ansawdd

- 4.135 Y thema fwyaf cyffredin o blaid yr wybodaeth arfaethedig oedd y bydd yn hyrwyddo prosesau sy’n gorfodi safonau ansawdd⁷. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon fel arfer yn nodi y byddai’r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fonitro cydymffurfiad â’r mesurau iechyd a diogelwch ac ansawdd y cytunwyd arnynt a rhoi mesurau gorfodi ar waith lle bo angen. Soniodd rhai ymatebwyr hefyd y byddai gorfodi safonau yn helpu i sicrhau tegwch i ddarparwyr llety ymwelwyr. Nododd rhai ymatebwyr a gododd y thema fod darparwyr cyfreithlon eisoes yn darparu’r wybodaeth hon, tra bo eraill yn osgoi’r baich gweinyddol hwn.

“Dylai pob darparwr ddarparu’r wybodaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pobl sy’n mynd ar eu gwyliau mewn llety diogel.” (Ymateb dienw)

“Bydd yn helpu i sicrhau bod yr holl lety o safon uchel o ran diogelwch”
(Ymateb dienw)

“Rydyn ni wedi buddsoddi llawer o arian yn yr eiddo rydyn ni’n ei osod fel llety gwyliau (sydd bellach wedi cymhwyso ar gyfer ardrethi busnes) ac rydyn ni’n cydymffurfio â’r holl ofynion o ran yr adeilad a diogelwch tân, ond dydy llawer o’r llety gwyliau lleol fel arall ddim wedi mynd i’r un drafferth â ni

⁷ Mae’n bosibl mai safonau diogelwch oedd ymatebwyr yn y thema hon yn ei olygu, gan fod safonau ansawdd yn cael eu sicrhau drwy gynllun Sicrhau Ansawdd Croeso Cymru.

ac maen nhw'n gwneud yr un faint o arian ond am lai o ymdrech.” (Ymateb dienw)

Cytuno â'r datganiad yn gyffredinol

- 4.136 Y thema fwyaf cyffredin ond un o blaid y datganiad dan sylw oedd cytuno'n gyffredinol, gan fod y dogfennau a restrir yn cael eu hystyried yn rhesymol a theg.

“Mae'r rhain i gyd yn ymddangos yn briodol i ddangos tystiolaeth o ansawdd a chydymffurfiaeth sy'n gorfod bod yn rhywbeth cadarnhaol i'r diwydiant twristiaeth. [...]” (Ymateb dienw)

Ffafrio cofrestru yn lle'r cynllun trwyddedu

- 4.137 Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r wybodaeth a restrir ond yn dadlau y gellid darparu'r un dogfennau drwy gynllun cofrestru yn hytrach na chynllun trwyddedu. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn pwysleisio y byddai'r cynllun cofrestru yn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru heb y baich gweinyddol ac ariannol sylweddol sy'n gysylltiedig â thrwyddedu.

“Byddai'n dal yn well gen i drefn gofrestru genedlaethol lle mae'r wybodaeth a restrir uchod yn cael ei llwytho i fyny – rydych chi'n cael rhif a gall yr awdurdod lleol gynnal archwiliadau dirybudd.” (Ymateb dienw)

Cytuno â'r datganiad gydag amodau

- 4.138 Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r rhestr arfaethedig yn dadlau y dylid teilwra'r dull gweithredu, gan nad yw un ateb yn addas i bawb. Y pryder mwyaf cyffredin a oedd gan y grŵp hwn oedd y gallai'r gofynion fod yn feichus i weithredwyr bychan. Felly, roeddent yn cynnig gofynion llai llym o ran y dogfennau, yn dibynnu ar faint y gweithredwr.

“Mae tystysgrifau diogelwch nwy yn hanfodol mewn unrhyw eiddo sy'n cael ei osod ond gallai gofyn am dystiolaeth o offer sydd wedi cael prawf PAT ac asesiadau risgiau tân arwain at gost sylweddol i'r busnes ac mae'n peryglu hyfywedd busnesau bach wrth gael gafael ar y dystiolaeth hon. Mae hyn yn cosbi busnesau bach - mae gan y mwyafrif helaeth berchnogion cyfrifol a

dylid ystyried hyn yn ofalus. Nid yw un ateb yn addas i bawb. Dylai tystiolaeth o yswiriant digonol ateb y gofyn.” (Ymateb dienw)

Themâu yn cynnig addasiadau i'r wybodaeth arfaethedig sydd ei hangen i ddangos cydymffurfiaeth

Pethau yr awgrymir y dylid eu hychwanegu at y rhestr arfaethedig o wybodaeth

- 4.139 Yr addasiad a gynigiwyd amlaf oedd ystod o ychwanegiadau ar gyfer yr wybodaeth ofynnol. Yr ychwanegiad y gofynnwyd amdano amlaf oedd yr EICR (adroddiad ar gyflwr gosodiad trydanol), gyda rhai pobl yn cynnig y dylai ddisodli'r PAT (prawf dyfeisiau cludadwy). Yr ychwanegiad a gynigiwyd amlaf ond un oedd tystiolaeth ar gyfer synwryddion mwg a synwryddion carbon monocsid.

“Cytuno, ond rydych chi wedi anghofio'r dystysgrif EICR pum mlynedd sy'n ofynnol gan fy yswiriant. [...]” (Ymateb dienw)

“Byddai angen i'r Awdurdod Lleol Preswyl wybod hefyd am y system wresogi/nifer y larymau mwg yn unol â chanllawiau Rhentu Doeth Cymru [...]” (Preswilydd yng Nghymru)

Pethau yr awgrymir y dylid eu tynnu oddi ar y rhestr arfaethedig o wybodaeth

- 4.140 Y thema a godwyd amlaf ond un ar draws yr addasiadau arfaethedig oedd cael gwared ar rai o'r dogfennau arfaethedig. Yr hyn y gofynnwyd am ei dynnu'n ôl amlaf oedd caniatâd cynllunio, gan nad oes ei angen ar hyn o bryd ar gyfer llawer o weithredwyr, a byddai'n rhy ddrud ac yn cymryd gormod o amser i'w gael. Y peth yr awgrymwyd amlaf ond dau y dylid ei dynnu oddi ar y rhestr ddogfennau oedd y profion PAT, nad oes eu hangen yn gyfreithiol ac a fyddai hefyd yn ychwanegu costau sylweddol i'r darparwyr. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cynnig cael gwared ar yr asesiad risgiau tân, gan fod pryderon ynghylch y gweithlu medrus a fyddai'n angenrheidiol i gynnal yr holl asesiadau hyn.

“Rwy'n cytuno â'r agweddau iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, dydy'r diffyg caniatâd cynllunio ddim yn peri risg i iechyd a diogelwch. Mae nifer o fusnesau wedi bod yn gweithredu ers blynnyddoedd heb ganiatâd cynllunio

oherwydd nad oedd yn ofynnol yn y gorffennol. Byddai'n annheg gwneud hyn yn amod masnachu nawr. Dylid ystyried tystiolaeth o weithredu dros gyfnod fel tystiolaeth o ganiatâd cynllunio. [...]" (Ymateb dienw)


"Cytuno'n betrus. Fodd bynnag, rwy'n amau y byddai profion PAT yn gost ychwanegol i lawer o ddarparwyr. [...]" (Ymateb dienw)

Cydymffurfio a gorfodi

- 4.141 Mae'r adran hon yn gofyn am farn ar opsiynau gorfodi, arolygiadau a chosbau.

Cwestiwn 14: Rydym yn cynnig y dylid cynnal arolygiadau ar gymhareb o 1:50 drwy ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ac arolygiadau ychwanegol mewn ymateb i gwynion cwsmeriaid neu bryderon eraill sy'n cael eu dwyn i sylw'r awdurdod trwyddedu. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 15. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â chynnal arolygiadau ar gymhareb 1:50 gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg ac arolygiadau ychwanegol



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,111 o ymatebwyr, sef 70% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.142 Roedd hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (neu 560 o ymatebwyr) yn anghytuno â'r dull arfaethedig o gynnal arolygiadau. Preswylwyr yng

Nghymru a darparwyr llety ymwelwyr oedd yr ymatebwyr mwyaf tebygol o anghytuno â'r cynnig (52% a 51% yn anghytuno yn y drefn honno).

- 4.143 Ymatebwyr o awdurdodau lleol oedd yr unig ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig trwy fwyafrif (57%).

Themâu yn erbyn y dull arfaethedig o gynnal arolygiadau Amheuon ynghylch yr angen am gynllun trwyddedu ac arolygiadau

- 4.144 Y thema fwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r datganiad dan sylw oedd amheuon ynghylch yr angen am gynllun trwyddedu. Fel y nodir yn yr adran themâu cyffredinol, roedd ymatebwyr yn crybwyll yn gyffredinol fod digon o reoleiddio ar hyn o bryd, a bod adolygiadau cwsmeriaid yn ogystal â ffynonellau fel rhai Croeso Cymru eisoes yn ymdrin â'r problemau y mae'r cynllun trwyddedu yn eu targedu.

“Mae Cwestiwn 13 yn awgrymu rhestr o ddogfennau sydd i'w llwytho i fyny i gefnogi cais, a gellir archwilio a dilysu pob un ohonyn nhw heb fod angen arolygu'r llety. Mae gosod trefn arolygu reolaidd, hyd yn oed ar lefel isel, yn awgrymu rhyw fath o drefn rheoli ansawdd neu ofynion ychwanegol, heb eu pennu hyd yn hyn. Y cwestiwn yw pwy fydd yn cynnal yr archwiliadau hyn a pha wybodaeth/profiad fydd ganddyn nhw? [...]” (Ymateb dienw)

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.145 Y thema a godwyd amlaf ond un yn erbyn y math arfaethedig o arolygu oedd pryder ynghylch y baich ariannol a gweinyddol uchel. Roedd y baich hwn yn gysylltiedig â'r cynllun trwyddedu cyffredinol, ac yn benodol ag amser a chostau arolygiadau.

“Mae'n debyg y bydd arolygiadau'n costio. Pwy fydd yn talu'r bil hwn?”
(Darparwr llety ymwelwyr)

“Os bydd gofyn ardystio, pam ychwanegu mwy o gostau i'r perchennog a gwneud iddo wastraffu mwy o amser, a byddai'n anodd trefnu hyn hefyd oherwydd bod ymwelwyr wedi archebu.” (Arall)

Nid oes gan Lywodraeth Cymru y gallu i gynnal arolygiadau

- 4.146 Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr yn amau gallu ariannol a gweinyddol Llywodraeth Cymru i gynnal yr arolygiadau arfaethedig. Roedd yr ymatebwyr

a gododd y thema hon yn tynnu sylw'n gyffredinol at y ffaith y byddai ffurf ac amllder yr arolygiadau a awgrymir yn golygu bod angen llawer o amser staff, hyfforddiant a seilwaith, ac nad yw'r rhain ar gael gan Lywodraeth Cymru.

"[...] Bydd costau sylweddol yn codi wrth sefydlu'r ffordd o wneud cais am y drwydded statudol, bydd angen hyfforddi swyddogion gorfodi hefyd ac o bosibl bydd angen penodi swyddogion gorfodi lleol llawnamser mewn awdurdodau lleol. Mae cyllidebau ac adnoddau mewn Llywodraeth leol eisoes wedi'u gwasgaru'n denau iawn felly byddai unrhyw faich ychwanegol yn cael ei roi ar fusnesau sy'n gwneud cais am y cynllun. [...]" (Ymateb dienw)

Themâu o blaid y dull arfaethedig o gynnal arolygiadau

Hyrwyddo diogelwch i ymwelwyr a thegwch ymysg darparwyr

- 4.147 Y thema fwyaf cyffredin o blaid y cynnig oedd cytuno'n gyffredinol â'r dull arfaethedig o gynnal arolygiadau. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn mynegi eu bodlonrwydd â dull gweithredu cyffyrddiad ysgafn, sy'n seiliedig ar risg, ac sy'n hyrwyddo effeithiolrwydd, diogelwch a thegwch.

"Er mwyn gwneud yn siŵr bod y rhaglen yn ddibynadwy, rwy'n cytuno y dylid cynnal lefel resymol o arolygu ar sail risg, gyda'r wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i wneud unrhyw addasiadau i'r rhaglen. [...]" (Ymateb dienw)

"Mae'n ymddangos bod hwn yn ateb ymarferol i agwedd heriol ar y cynllun." (Awdurdod lleol)

Cytuno gydag amodau

- 4.148 Y thema a godwyd amlaf ond un a oedd yn cytuno â'r datganiad dan sylw oedd cytuno o dan amodau penodol yn unig. Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig o gynnal arolygiadau, ond yn ffafrio naill ai cynllun cofrestru neu hunanardystio, er mwyn osgoi rhoi baich gweinyddol ac ariannol sylweddol ar ddarparwyr. Yr amod ail fwyaf cyffredin oedd rhoi cyfrif am wahanol fathau o lety a llety o wahanol faint. Fodd bynnag, nid oedd consensws clir ymysg yr ymatebwyr hyn ynghylch pwy ddylai gael arolygiadau ysgafnach. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai darparwyr ar raddfa fach yn cael eu cosbi fwy gan yr arolygiadau hyn ac y

dylent felly gael eu rheoleiddio'n ysgafnach. Ar y llaw arall, soniodd eraill fod gan ddarparwyr mwy, fel gwestai, lawer iawn o fesurau rheoleiddio yn barod, sy'n golygu eu bod eisoes yn glynu wrth yr amodau trwyddedu, tra bod angen mwy o oruchwyliaeth ar ddarparwyr ar raddfa fach.

“Rydyn ni'n cynnig na fyddai deiliaid trwydded gan na ddylai fod angen trwydded. Dylid cymedroli darparwyr llety cofrestredig gyda model rheoleiddio tebyg yn cael ei roi ar waith heb drwydded.” (Ymateb dienw)

“[...] Rwy'n amau y bydd y mesurau hyn yn debygol o gosbi darparwyr llai gwaetha'r modd. Rwy'n credu y dylid rhoi mwy o gyfrifoldeb ar ddarparwyr mwy sy'n gwneud mwy o arian ac sydd mewn sefyllfa well i allu cydymffurfio ag unrhyw ofynion newydd.” (Ymateb dienw)

“Rwy'n credu bod angen rhoi mwy o bwys ar y sector hunanddarpar gan fod y rhain yn fwy tebygol o beidio â chydymffurfio ar hyn o bryd. Bydd gwestai a lleoliadau gwely a brechwast wedi cael eu harolygu'n barhaus dim ond am fod llai ohonyn nhw ac maen nhw'n cael eu rheoleiddio'n llym.” (Ymateb dienw)

Themâu sy'n cynnig addasiadau i'r dull arfaethedig o gynnal arolygiadau

Llai o arolygiadau na'r hyn a gynigir

- 4.149 Yr addasiad a awgrymwyd amlaf i'r dull arfaethedig oedd cynnal llai o arolygiadau na'r hyn a awgrymir. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn cynnig mai dim ond os oes cwynion neu broblemau hysbys y dylid cynnal arolygiadau, yn hytrach na chynnal arolygiadau ar hap. Dywedodd ymatebwyr y byddai'r addasiadau hyn yn hybu defnyddio adnoddau'n effeithlon, ac yn lleihau'r aflonyddwch y bydd arolygiadau'n ei achosi i'r darparwyr.

“Mae'n ymddangos yn synhwyrol i ganolbwyntio ar eiddo sy'n derbyn cwynion. Er mwyn defnyddio adnoddau yn y ffordd orau, byddai'n ymddangos yn rhesymegol canolbwyntio ar ble mae'r problemau yn hytrach na dewis eiddo ar hap nad ydyn nhw wedi cael unrhyw broblemau. [...]” (Ymateb dienw)

Mwy o arolygiadau na'r hyn a gynigir

- 4.150 Cynnal rhagor o arolygiadau oedd yr addasiad mwyaf cyffredin ond un a awgrymwyd ar gyfer y dull gweithredu arfaethedig. Yn wahanol i'r thema flaenorol, roedd yr ymatebion hyn yn dangos y dylai pob darparwr gael ei archwilio o leiaf unwaith, a bod y gymhareb 1:50 yn rhy isel. Y rhesymeg y tu ôl i hyn oedd na fydd y drwydded yn helpu amcanion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys iechyd a diogelwch ymwelwyr a sicrhau bod pob darparwr yn cael ei drin yn yr un modd.

“Rwy'n credu y dylid arolygu pob eiddo unwaith yn ystod cyfnod y drwydded. Dylai'r gymhareb fod yn 1:10 o leiaf. Fel arall, mae'n gwneud ffars o'r cynllun trwyddedu ac mae'n gwneud iddo ymddangos fel pe bai'r cynllun yn ymwneud mwy â chreu refeniw i'r llywodraeth yn hytrach na thrin pob gweithredwr yn yr un modd a sicrhau diogelwch a safonau uchel i ymwelwyr.” (Ymateb dienw)


Amddiffyn rhag cwynion ffug

- 4.151 Yn olaf, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y cynnig i seilio arolygiadau ar gwynion. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn poeni am sut mae cwynion ffug neu flinderus yn gallu effeithio ar fywoliaeth darparwyr. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryder hwn, cynigiwyd y dylai darparwyr allu ymateb i gwynion ac y dylid cael tystiolaeth ar gyfer y cwynion hyn cyn cynnal arolygiad.

“Rwy'n cytuno ond rwy'n credu y dylid bod yn ofalus gyda chwynion gan ddefnyddwyr. Dylid cael tystiolaeth o unrhyw gŵyn gan ddefnyddwyr fel nad yw'r system yn cael ei llethu gan gwynion gwamal.” (Ymateb dienw)

Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai ddarparwyr llety ymwelwyr nad ydynt yn cydymffurfio wynebu mesurau gorfodi?

Ffigur 16. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddor y dylai darparwyr llety ymwelwyr nad ydynt yn cydymffurfio wynebu mesurau gorfodi



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,110 o ymatebwyr, sef 70% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.152 Roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn gan amlaf (42% neu 462 o ymatebwyr) yn anghytuno â'r egwyddor a godwyd yn y cwestiwn, gyda chyfran sylweddol o'r ymatebwyr (39% neu 437 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynnig dan sylw. Nid oedd unrhyw fath o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig hwn trwy fwyafrif.
- 4.153 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o gyrff sy'n cynrychioli twristiaeth (67%) yn cytuno â'r cynnig, fel roedd y parciau cenedlaethol (63%), ac awdurdodau lleol (60%), cymdeithasau twristiaeth (55%), ac asiantaethau hunanddarpar (51%).

Themâu yn erbyn defnyddio mesurau gorfodi ar gyfer darparwyr nad ydynt yn cydymffurfio

Anghytuno â chynllun trwyddedu yn gyffredinol

- 4.154 Fel y soniwyd yn yr adran themâu cyffredinol, roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn anghytuno â chynllun trwyddedu yn gyffredinol, a thrwy hynny, yn anghytuno ag unrhyw fesurau gorfodi.

“Os nad ydw i'n cytuno â chofrestru a thrwyddedau, pam fyddwn i'n cytuno â chosbau am beidio â chydymffurfio.” (Preswlydd yng Nghymru)

Anghytuno â mesurau gorfodi

- 4.155 Anghytuno'n gyffredinol â'r awgrym oedd y thema fwyaf cyffredin ond un yn erbyn mesurau gorfodi. Nid oedd yr ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon fel arfer yn anghytuno ag egwyddor cynllun trwyddedu ond roeddent o'r farn bod unrhyw fesurau gorfodi yn ddiangen ac yn gostus. Roedd anghytuno'n arbennig o gyffredin mewn perthynas ag unrhyw fath o fesur gorfodi ar ffurf erlyniad troseddol. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu y byddai'r dogfennau a ddarperir fel rhan o ofynion y cynllun yn ddigon i orfodi safonau iechyd a diogelwch ac ansawdd.

“[...] Byddwn yn tybio na fyddai trwydded ond yn cael ei rhoi pan fydd yr holl ddogfennau'n cael eu cadarnhau a'u diweddarau, a bod y ffi wedi cael ei thalu, felly mae'r cyfeiriad at gosbau am beidio â chydymffurfio yn amherthnasol. [...]” (Ymateb dienw)

Themâu o blaid defnyddio mesurau gorfodi ar gyfer darparwyr nad ydynt yn cydymffurfio

Mwy o gydymffurfio â safonau'r cynllun

- 4.156 Roedd y thema fwyaf cyffredin o blaid mesurau gorfodi yn cynnwys y farn y byddent yn sicrhau y cydymffurfir â safonau diogelwch ac ansawdd. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn amau y byddai darparwyr yn cydymffurfio'n wirfoddol â rheoliadau, felly roedd cymhellion a mesurau gorfodi yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

“Cytuno'n bendant. Os nad oes mesurau gorfodi ar gael, yna does dim grym i'r polisi yn y bôn.” (Ymateb dienw)

“Os yw eiddo’n beryglus, yna mae’n amlwg bod angen i’r awdurdod lleol fod yn ymwybodol o hyn a chymryd camau i sicrhau bod llety’n ddiogel i ymwelwyr.” (Ymateb dienw)

Ffafrio mesurau gorfodi ysgafn

- 4.157 Y thema amlycaf ond un o blaid oedd gofyn am fesurau gorfodi llai llym. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr a oedd yn codi’r thema hon yn cytuno bod angen mesurau gorfodi, ond roeddent yn awgrymu dechrau gyda dull gweithredu mwy cydweithredol cyn defnyddio unrhyw gosbau. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn dadlau dros gynnig cymorth a chynghor i ddechrau, oherwydd y gallai darparwyr wynebu heriau ymarferol wrth gydymffurfio â rheoliadau. Yr awgrym mwyaf cyffredin ond un oedd y dylai pobl nad ydynt yn cydymffurfio gael rhybudd yn gyntaf, ac yna cael digon o amser i fynd i’r afael ag unrhyw broblemau.

“Mae’n ymddangos bod y pwyslais ar gosbi darparwyr llety. Yn hytrach na hyn, y camau cyntaf ddylai fod rhoi cymorth, cynghor ac arweiniad ar sut gall darparwyr addasu eu cynigion er mwyn cydymffurfio ag unrhyw reolau nad ydyn nhw’n cydymffurfio â nhw. Dylai rhoi dirwyon, mynd ar drywydd erlyniadau am beidio â chydymffurfio a gwneud cais am orchmynion llys fod yn ddewisiadau olaf, ac nid y camau cyntaf o bell ffordd.” (Ymateb dienw)

“Ar yr amod bod darparwyr yn cael cyfle i unioni’r sefyllfa - efallai fod rhai wedi anghofio rhywbeth neu wedi meddwl nad oedd angen rhywbeth arny nhw (yn enwedig darparwyr newydd) ond os nad ydyn nhw’n cydymffurfio ar ôl cyfnod penodol, dylid atal eu cofrestrriad nes bod y gofynion hyn wedi cael eu bodloni.” (Preswilydd yng Nghymru)

“[...] Drwy fabwysiadu cynllun cofrestru sy’n pwysleisio mesurau gorfodi teg a chytbwys, gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod busnesau’n cael eu dal yn atebol am gynnal safonau hanfodol heb wynebu caledi gormodol oherwydd mân broblemau gweinyddol. [...]” (Corff sy’n cynrychioli twristiaeth)

Ffafrio mesurau gorfodi llymach

- 4.158 Y thema fwyaf cyffredin ond dau oedd dadlau dros fesurau llymach fel cosbau, yn enwedig ar gyfer y rhai nad ydynt yn cydymffurfio’n aml, y rhai

nad ydynt wedi gallu datrys eu problemau o fewn amserlen deg, a'r rhai sy'n torri rheoliadau diogelwch. Y gosb a grybwyllwyd fwyaf oedd diddymu'r drwydded. Y gosb a awgrymwyd amlaf ond un oedd cyflwyno dirwyon.

"[...] Os na fyddan nhw'n cydymffurfio o fewn y terfyn amser, dylid diddymu eu trwydded ac ni fydden nhw'n cael gweithredu." (Ymateb dienw)

"[...] Mae angen rhoi lefel briodol o ddirwyon i wneud hyn yn rhwystr ystyrion." (Cymdeithas twristiaeth)

Ffario mesurau gorfodi cymesur

- 4.159 Y thema gyffredin olaf ymysg ymatebwyr o blaid mesurau gorfodi oedd mabwysiadu dull gweithredu cymesur. Roedd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn cytuno'n gyffredinol â'r angen am fesurau gorfodi ond roeddent yn pwysleisio bod yn rhaid iddynt fod yn gymesur â math, amllder a difrifoldeb y tramgwydd.


"Byddai'n dibynnu ar y broblem. Er enghraifft, os nad oedd synhwyrdd carbon monocsid, byddai'n briodol cau'r llety ar unwaith nes bod un wedi'i osod. Os oedd y dystysgrif diogelwch nwy wedi dod i ben, gellid rhoi 60 diwrnod i'r darparwr gael un newydd. Dylai'r mesurau fod yn briodol." (Preswlydd yng Nghymru)

Prawf Person Cymwys a Phriodol

4.160 Mae'r adran hon yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cynnwys prawf person cymwys a phriodol neu brawf cyfatebol yng ngofynion y cynllun.

Cwestiwn 16: Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys prawf person cymwys a phriodol neu brawf tebyg fel rhan o ofynion y cynllun ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr?

Ffigur 17. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â chynnwys prawf person cymwys a phriodol neu debyg fel rhan o ofynion y cynllun



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,102 o ymatebwyr, sef 69% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.161 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (55% neu 603 o ymatebwyr) yn anghytuno â chynnwys prawf person cymwys a phriodol neu brawf tebyg fel rhan o ofynion y cynllun. Roedd anghytuno â'r datganiad hwn yn fwyaf cyffredin ymysg cyrff sy'n cynrychioli twristiaeth (62%), llwyfannau archebu (58%), preswylwyr yng Nghymru (56%), a darparwyr llety ymwelwyr (56%).
- 4.162 Yr unig ymatebwyr a oedd yn cytuno trwy fwyafrif â'r cynnig oedd awdurdodau lleol (56%).

Themâu yn erbyn sefydlu profion ‘person cymwys a phriodol’

Pryderon am oddrychedd y term “person cymwys a phriodol”

- 4.163 Y thema fwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd yn anghytuno â sefydlu prawf person cymwys a phriodol oedd y farn bod y term ‘person cymwys a phriodol’ yn rhy oddrychol. Roedd llawer o’r ymatebwyr a gododd y thema hon yn poeni y gellid dehongli’r ymadrodd mewn gwahanol ffyrdd, gan arwain at wahaniaethau a chymhlethodau sylweddol ar draws y broses weithredu.

“Mae’r geiriad yma’n oddrychol iawn – beth sy’n diffinio person cymwys a phriodol a pha effeithiau gaiff hyn ar y meini prawf uchod”. (Preswylydd yng Nghymru)

“Gellid disgrifio’r cynigion dan yr adran hon fel rhai ‘gwahaniaethol’ ac nid lle cynllun cofrestru yw dyfarnu pwy ddylai a phwy na ddylai redeg busnes llety.” (Darparwr llety ymwelwyr)

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.164 Y thema a godwyd amlaf ond un yn erbyn y cynnig oedd y byddai cynnal profion ‘person cymwys a phriodol’ yn ymestyn y broses drwyddedu, gan arwain at oedi cyn ei chyflwyno a chynyddu’r baich gweinyddol ar ddarparwyr llety.

“Mae “prawf person cymwys a phriodol” yn cyflwyno haen enfawr a diangen o fiwrocratiaeth feichus i’r broses, felly rydyn ni’n gwrthwynebu’n gryf” (Preswylydd yng Nghymru)

Awgrymiadau eraill ynghylch profion person cymwys a phriodol

- 4.165 Roedd ymatebwyr i’r cwestiwn hwn hefyd yn aml yn awgrymu dulliau eraill o gynnal profion person cymwys a phriodol. Un o’r awgrymiadau eraill mwyaf cyffredin oedd y dylid defnyddio profion cymwys a phriodol i farnu’r llety yn hytrach na pherchennog yr eiddo. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd gan berchnogion llety fawr o gyswllt wyneb yn wyneb ag ymwelwyr gan fod llawer o brosesau’n cael eu cynnal o bell drwy lwyfannau ar-lein. Roedd yr ychydig iawn o ryngweithio hyn wedyn yn cyfyngu ar ba mor ddefnyddiol

fyddai profion person cymwys a phriodol ar gyfer perchnogion eiddo. Roedd awgrymiadau cyffredin eraill yn cynnwys mabwysiadu mesurau nad ydynt mor hir, gan gynnwys gwirio cofnodion presennol y llysoedd barn a defnyddio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

“Dylai prif ffocws unrhyw bolisi yn y maes hwn fod ar ansawdd a dibynadwyedd y llety ymwelwyr, yn hytrach na chymeriad yr unigolion sy'n gweithredu'r sefydliadau hyn” (Ymateb dienw)

“Dydy'r rhan fwyaf o ddarparwyr llety gwyliau byth yn cwrdd â'u gwesteion, gydag archebion a busnes ariannol yn cael eu gwneud drwy asiantaeth. Yr unig bobl sy'n debygol o ddod i gysylltiad â gwesteion yw glanhawyr (am gyfnod byr iawn) a chrefftwyr sy'n gwneud unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol. Byddai'n fwy priodol cynnal profion person cymwys a phriodol ar yr unigolion hynny, ond wedyn ble byddai hyn yn dod i ben?” (Awdurdod lleol)

“Am wn i, os caf fy ngwthio i awgrymu ffordd y gallai'r awdurdod cofrestru benderfynu pwy oedd yn gymwys ac yn briodol, yna mae archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y gellid ei ddefnyddio neu ddatganiad nad ydyn nhw'n droseddwyr neu'n droseddwyr rhyw. Fodd bynnag, rwy'n poeni am gostau ychwanegol a allai godi” (Ymateb dienw)

Themâu o blaid sefydlu profion 'person cymwys a phriodol'

Hyrwyddo diogelwch i ymwelwyr

- 4.166 Y thema fwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr o blaid sefydlu profion 'cymwys a phriodol' oedd y farn y byddai'n gwella diogelwch ymwelwyr. Yn gyffredinol, mynegodd ymatebwyr bryder penodol ynghylch unigolion a oedd wedi cael eu dyfarnu'n euog o droseddau treisgar neu droseddau rhywiol yn y gorffennol, gan eu hystyried yn berygl i ymwelwyr.

“Ni ddylai'r person (gan gynnwys cyfarwyddwyr cwmnïau) fod ag unrhyw euogfarnau troseddol ac ni ddylai fod ar gofrestr droseddol – fel cofrestr troseddwyr rhyw. Dylai'r awdurdod trwyddedu hefyd allu gwirio a yw'r ymgeisydd wedi newid ei enw.” (Ymateb dienw)

Cytuno gydag amodau

- 4.167 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad dan sylw yn cytuno ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Yr amod a godwyd amlaf oedd sicrhau na fyddai rhoi'r cynllun ar waith yn rhy ddrud nac yn feichus yn weinyddol. Amod arall oedd y dylid tybio i ddechrau fod pob darparwr llety yn gymwys ac yn briodol, a dylai baich y profi fod ar sefydlu nad ydynt.

“Os yw'r cynllun i gael ei gyflwyno, mae'n debyg bod angen rhyw fath o archwiliadau, ond y man cychwyn yw bod y person yn “addas” ac yna dim ond o dan rai amgylchiadau y bydd yn dod yn “anaddas” (er enghraifft, cofnod troseddol ar gyfer twyll ac ati). Byddai hyn yn ymddangos yn ddull llawer tecach na dechrau ar y sail eu bod yn “anaddas” ac yna gorfod profi eu bod yn “addas”. (Ymateb dienw)

Ffioedd trwydded

- 4.168 Mae'r adran hon yn ceisio barn ar y math o ffi y dylid ei defnyddio, yn ogystal â'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth bennu'r ffioedd.

Cwestiwn 17: Hoffem gael eich barn ynghylch a ddylai pob darparwr llety ymwelwyr dalu'r un ffi safonol neu a ddylai'r ffioedd fod ar raddfa (hynny yw, yn seiliedig ar y math o lety ymwelwyr a maint y llety ymwelwyr)?

- 4.169 Mae'r adrannau isod yn cyflwyno'r themâu mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr ynghylch a ddylai pob darparwr llety ymwelwyr dalu'r un ffi safonol neu a ddylai'r ffioedd fod ar raddfa. Mae'r themâu hefyd yn cynnwys safbwyntiau ynghylch pa ffactorau ddylai fod yn berthnasol os rhoddir ffi ar raddfa ar waith.

Ffario ffi ar raddfa

- 4.170 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd y farn y dylai darparwyr llety ymwelwyr dalu ffioedd ar raddfa. Aeth llawer o'r ymatebwyr ymlaen wedyn i awgrymu'r ffyrdd mwyaf effeithiol o roi'r ffi ar raddfa.

Ffioedd ar raddfa yn ôl maint y llety

- 4.171 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys nifer o ddarparwyr llety i dwristiaid a chyrrff cynrychioladol, y dylid pennu'r ffioedd yn ôl maint y llety

ac y dylid codi'r ffi isaf ar y llety lleiaf i ymwelwyr, gyda'r ffi yn codi'n uwch ar gyfer darparwyr mwy. Ystyriwyd mai dull gweithredu ar raddfa symudol oedd y dull tecaf o osgoi cosbi perchnogion eiddo bach.

“Credwn y dylai ffioedd fod yn gymesur o ystyried maint y busnes – a ddylai, yn achos y microfentrau lleiaf, olygu ffioedd isel iawn; mae'n ymddangos bod hyn yn pennu graddfa ffioedd syml gyda ffioedd is ar gyfer y rhai lleiaf sy'n gweithredu o'u cartrefi, gan godi i brisiau uwch am westai mawr neu gyrchfannau gwyliau er enghraifft” (Cymdeithas twristiaeth)

Ffioedd ar raddfa yn ôl math y llety

- 4.172 Y ffactor a awgrymwyd amlaf ond un ar gyfer graddio oedd yn ôl math o lety. Roedd mathau o lety yn aml yn cael eu trafod ochr yn ochr â maint y llety, gan fod mathau penodol o lety, gan gynnwys gwestai neu gyrchfannau gwyliau, yn cael eu hystyried yn fwy na fflatiau, bythynnod a hostelau, er enghraifft.

“Os oes gan rywun un bwthyn bach, a fydd disgwyl iddynt dalu'r un faint â gwesty gyda nifer o ystafelloedd ac ati; ydych chi'n ceisio lladd y llety gwyliau annibynnol bach. Bydd yn gwneud rhentu yn anfforddiadwy ac yn anatyniadol. A bydd hynny'n arwain at lai o ddewis i ymwelwyr!” (Ymateb dienw)

Ffioedd ar raddfa yn ôl proffidioldeb

- 4.173 Y ffactor cyffredin olaf a awgrymwyd ar gyfer graddio oedd proffidioldeb. Dadleuwyd y byddai busnesau mwy sydd ag elw a throsiant uwch yn gallu talu costau trwyddedu'n haws na'r rheini sy'n gwneud elw is. Roedd trafodaethau ynghylch proffidioldeb busnesau hefyd yn aml yn cyd-fynd â maint a math y llety, o ystyried bod ymatebwyr yn tybio bod darparwyr llety fel gwestai yn fwy o ran eu maint a'u trosiant.

“Dylai ffioedd fod ar raddfa – mae gan westy 200 ystafell wely drosiant a chyllideb uwch na lleoliad gwely a brechwast dwy neu dair ystafell wely. Efallai na fydd codi'r un tâl ar gyfer y ddau sefydliad yn gost-effeithiol i fusnesau bach, micro”. (Corff sy'n cynrychioli twristiaeth)

Ffaffrio un ffi safonol

- 4.174 Roedd rhai ymatebwyr o blaid defnyddio ffi safonol, gan eu bod yn disgwyl iddi fod yn ffi isel. Un o'r rhesymau cyffredin dros sefydlu ffioedd safonol isel oedd y ddealltwriaeth y byddai'r gwaith angenrheidiol i gofrestru a thrwyddedu eiddo yr un fath beth bynnag fo maint, math a throsiant yr eiddo. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd mai ffi safonol fyddai'r dull tecaf i bob darparwr llety.

“Bydd cynllun cofrestru yn syml ac yn gost-effeithiol i'w weinyddu ac felly dylid codi ffi gofrestru fach safonol” (Darparwr llety)

“Ni fyddai'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cymryd mwy o amser i'w darparu nac i gael ei gwirio yn dibynnu ar y cynllun. Mae'n ymddangos yn ymarfer gwaith papur ac ni ddylai busnesau mwy gael eu trin yn annheg” (Asiantaeth hunanddarpar)

“Byddai safonau cofrestru a chydymffurfio yr un fath i bob darparwr, ac felly dylai'r ffi fod yr un fath” (Preswilydd yng Nghymru)

Anghytuno â ffioedd

- 4.175 Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gyffredinol â chodi unrhyw fath o ffi. Roedd ymatebwyr fel arfer yn dadlau y byddai unrhyw ffioedd yn cael effaith niweidiol ar breswylwyr a'r economi leol, gyda phryder penodol yn cael ei fynegi ynghylch busnesau llai. Dywedodd yr ymatebwyr hyn y byddai'r ffioedd yn cynyddu'r costau i ddarparwyr, a allai orfodi rhai darparwyr allan o'r farchnad. Mewn ymateb, awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai'r llywodraeth ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros unrhyw ffioedd i liniaru'r baich ariannol ar ddarparwyr llety.

“Dydw i ddim yn meddwl y dylid codi ffi o gwbl. Mae llawer o bobl sy'n rhedeg busnesau bach iawn, sy'n gwneud ychydig iawn o elw, ond bod hynny'n caniatáu iddyn nhw ddal i fynd yn yr ardal lle maen nhw wedi bod yn byw”. (Ymateb dienw)


“Mae gweithredwyr twristiaeth yn talu digon o ardrethi busnes neu'r dreth gyngor a threthi eraill. Mwy o gost yw fy ngwrthwynebiad mawr i hyn. Erbyn i

Lywodraeth Cymru ychwanegu Treth [hynny yw, ardoll ymwelwyr] ar gyfer Twristiaeth, bydd Cymru hyd yn oed yn llai cystadleuol ym marchnad y DU” (Darparwr llety ymwelwyr)

“Os yw Llywodraeth Cymru am gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, yna dylai dalu amdani, boed hynny drwy'r Dreth arfaethedig ar gyfer ymwelwyr i Gymru neu drwy'r trethi cyffredinol” (Ymateb dienw)

Cwestiwn 17a: Ydych chi'n cytuno y dylai pob darparwr llety ymwelwyr dalu'r un ffi?

Ffigur 18. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r holl ddarparwyr llety ymwelwyr dalu'r un ffi



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,115 o ymatebwyr, sef 70% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.176 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (74% neu 828 o ymatebwyr) yn anghytuno y dylai'r holl ddarparwyr llety ymwelwyr dalu'r un ffi. Roedd pob math o ymatebwyr, ar wahân i barciau cenedlaethol, yn anghytuno trwy fwyafrif â'r cynnig. Roedd yr anghytuno'n fwyaf cyffredin ymysg preswylwyr yng Nghymru (78%), darparwyr llety ymwelwyr (75%) a chyrff sy'n cynrychioli twristiaeth (71%).

- 4.177 Er nad oedd unrhyw fath o ymatebwr yn cytuno â'r datganiad trwy fwyaf, ymatebwyr o awdurdodau lleol oedd fwyaf tebygol o gytuno (21%) o'r holl ymatebwyr.
- 4.178 Mae tebygrwydd clir rhwng y dadansoddiad o'r ymatebion i gwestiynau 17 ac 17a, gan fod llawer o'r ymatebwyr wedi rhoi esboniadau tebyg i'r ddau gwestiwn.

Ffario ffioedd ar raddfa

- 4.179 Yn debyg i gwestiwn 17, y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd cytuno â ffioedd ar raddfa yn hytrach na ffi safonol.

Ffioedd ar raddfa yn ôl maint y llety

- 4.180 Y ffactor graddio a oedd yn cael ei awgrymu amlaf oedd yn ôl maint y llety. Awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai llety mwy dalu pris uwch na llety llai.

“Er gwaethaf ein gwrthwynebiad egwyddorol i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol, ni fyddai'n deg i fusnes bach sy'n darparu llety orfod talu'r un ffi â busnes mawr. Dylai busnesau llai fod â'r hawl i dalu llai yn ôl cyfran, a'r rhai mwy i dalu mwy yn ôl cyfran” (Ymateb dienw)

Ffioedd ar raddfa yn ôl proffidioldeb darparwyr

- 4.181 Y ail ffactor graddio mwyaf cyffredin ond un oedd yn ôl proffidioldeb a throsiant cyffredinol. Yn gyffredinol, roedd darparwyr llety â throsiant a phroffidioldeb uwch yn cael eu hystyried yn fwy abl i ymdopi â chost y cynllun trwyddedu.

“Yn bendant, dylid cael ffioedd gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o ddarparwyr. Dylai clybiau sy'n darparu llety i'w haelodau ar sail nid-er-elw gael eu trin yn wahanol i westy moethus, dyweder, a allai ymdopi â'r gost yn weddol hawdd” (Ymateb dienw)

Ffioedd ar raddfa yn ôl lleoliad y darparwr

- 4.182 Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai'r ffi hefyd ddibynnu ar a oedd y llety'n eiddo preifat neu fasnachol. Ystyriwyd ei bod yn afresymol disgwyl i ddarparwr llety lleol dalu'r un ffi â darparwyr llety proffesiynol neu fasnachol ar raddfa fawr. Roedd darparwyr llety lleol yn cael eu gweld yn cyfrannu'n

ddigonol at yr economi leol gan eu bod yn preswyllo yno, yn wahanol i berchnogion busnes allanol.

“Dydw i ddim yn meddwl y dylai pobl sy’n byw ac yn gweithio yng Nghymru orfod talu ffi. Dylai fod terfyn - o dan swm penodol o elw, ni ddylai fod yn rhaid i chi dalu. Ni ddylid disgwyl i westy cadwyn a rhywun lleol sy’n cynnig gwely a brecwast yn ei gartref ei hun dalu’r un faint” (Ymateb dienw)

Ffaffrio un ffi safonol

- 4.183 Yn debyg i’r ymatebion i gwestiwn 17, roedd yn well gan lai o ymatebwyr ffi safonol o’i chymharu â ffi ar raddfa. Ymysg yr ymatebwyr a oedd yn ffaffrio ffi safonol, cyfeiriodd y rhan fwyaf at resymau tegwch a chydreddoldeb, gan danlinellu pwysigrwydd trin pawb yn yr un modd. Dadleuodd eraill y byddai’r safonau cofrestru a’r wybodaeth ofynnol yn debyg i bob darparwr beth bynnag fo maint, math ac elw’r darparwyr hynny. O ganlyniad, ystyriwyd bod gorfodi ffi safonol yn rhesymol.

“Dylai fod yn ofynnol i bob darparwr llety gofrestru a thalu isafswm ffi gofrestru o leiaf. [...]. Ar ben hynny, mae’n sicrhau bod pob busnes llety yn cael ei drin yn yr un modd, gan feithrin cystadleuaeth deg yn y sector twristiaeth” (Ymateb dienw)

“Dylid cael ffi resymol yn gysylltiedig â chofrestru unwaith – a byddai hyn yn deg yn gyffredinol. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori hon, byddai angen darparu’r un wybodaeth ar gyfer yr holl ddarparwyr llety sy’n dod o fewn y cwmpas, p’un ai ydyn nhw’n cynnig un ystafell, 100 o ystafelloedd neu 100 o leiniau” (Ymateb dienw)

Anghytuno’n gyffredinol ag unrhyw ffi


- 4.184 Fel gyda’r ymatebion i gwestiwn 17, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno’n gyffredinol â sefydlu unrhyw ffi. Roedd llawer o’r ymatebwyr a gododd y thema hon o’r farn bod rhoi ffioedd ar waith yn annheg. Yn hytrach, awgrymwyd mai’r llywodraeth ddylai dalu’r ffioedd hyn. Petai ffioedd yn cael eu cyflwyno, fodd bynnag, pwysleisiodd ymatebwyr y dylent aros yn isel a chael eu talu mewn rhandaliadau i liniaru’r baich ariannol ar ddarparwyr llety.

“Ddim yn cytuno ag unrhyw un yn talu unrhyw ffioedd. Os ydych chi'n gwneud hyn oherwydd bod arnoch eisiau gwneud hyn, yna talwch chi amdano. Ni ddylid ei drosglwyddo i'r busnesau” (Ymateb dienw)

“Dylai hefyd fod yn bosibl talu mewn rhandaliadau, o ystyried bod y prif reswm dros y rhan fwyaf o fusnesau bach yn methu yn ymwneud â llif arian” (cynrychiolydd awdurdod lleol)

Cwestiwn 17b: Ydych chi'n cytuno y dylai ffioedd fod ar raddfa yn seiliedig ar faint y llety ymwelwyr?

Ffigur 19. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai ffioedd fod ar raddfa yn seiliedig ar faint y llety ymwelwyr



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,089 o ymatebwyr, sef 68% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.185 Roedd yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn gan amlaf (46% neu 504 o ymatebwyr) yn cytuno â chodi ffioedd ar sail maint y llety ymwelwyr. Roedd y cytuno'n fwyaf cyffredin ymysg awdurdodau lleol (53%) ac asiantaethau hunanddarpar (53%).
- 4.186 Er nad oedd unrhyw fath o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig trwy fwyafrif, roedd yr anghytuno'n fwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd yn nodi eu bod yn "Arall" (38%).

Themâu o blaid ffioedd ar raddfa yn ôl maint**Cytuno'n gyffredinol â graddfa yn ôl maint**

- 4.187 Y ffactor graddio a oedd yn cael ei awgrymu'n fwyaf cyffredin oedd yn ôl maint. Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn yn credu mai graddio yn ôl maint oedd y dull tecaf o addasu costau trwyddedu. Roedd rhai ymatebwyr yn gwahaniaethu rhwng maint y llety o ran nifer yr unedau a nifer yr eiddo. Fel arfer, roedd yr ymatebwyr hyn yn tynnu sylw at y ffaith y dylai darparwyr llety sydd â mwy o unedau dalu pris uwch o'u cymharu â darparwyr llety sydd â llai o unedau.

“Mae'n ymddangos mai dyma'r ffordd decaf o bennu lefel y ffioedd”

(Awdurdod lleol)

“Dylai'r ffi fod ar raddfa yn dibynnu ar nifer yr eiddo sydd gan bob unigolyn a nifer y gwesteion y gellir eu lletya ar unrhyw un adeg” (Ymateb dienw)

“Byddai'n decach codi ffi yn ôl nifer y gwesteion y mae'r llety'n darparu ar eu cyfer, yn hytrach na maint y llety” (Ymateb dienw)

Themâu yn erbyn ffioedd ar raddfa yn ôl maint: Ffactorau graddio eraill

- 4.188 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r ffioedd yn cael eu graddio yn ôl maint yn awgrymu ffactorau graddio gwahanol.

Fffioedd ar raddfa ar sail proffidioldeb darparwyr

- 4.189 Yr awgrym arall mwyaf cyffredin oedd y dylai ffioedd gael eu pennu yn ôl proffidioldeb pob darparwr. Dadleuwyd y gellid diffinio caban mynydda fel llety 'mawr' oherwydd y nifer uchel o unedau. Fodd bynnag, nid yw perchnogion fel arfer yn ennill llawer o elw oherwydd y pris isel a godir am bob uned. Am y rheswm hwn, roedd graddio yn ôl maint yn cael ei ystyried yn ddull annheg gan ei fod yn rhoi ambell fath o lety dan anfantais, gan gynnwys cabanau mynydda.

“Gallai caban clwb preifat, a weithredir ar sail nid-er-elw yn unig er budd aelodau'r clwb hwnnw, fod â 30 o welyau mewn dim ond saith ystafell a chodi £4 y noson. Er ei fod yn llety mwy, ni ellir cymharu'r caban preifat, nid-er-elw, â llety masnachol llai, ond mwy proffidiol” (Ymateb dienw)

Ffioedd yn dibynnu ar leoliad y darparwr

- 4.190 Yr awgrym arall mwyaf cyffredin nesaf oedd y dylid graddio'r ffioedd ar sail a oedd y darparwr llety yn eiddo i breswylwyr neu i fusnesau allanol mwy. Yn debyg i'r ymatebion i gwestiwn 17, ystyriwyd ei bod yn annheg disgwyl i ddarparwyr llety lleol dalu'r un ffi â darparwyr llety allanol, o ystyried bod y cyntaf yn cyfrannu'n ddigonol at yr economi leol drwy'r system dreth.

*“Mae teuluoedd yng Nghymru sydd eisoes yn rhedeg busnesau cyfreithlon yn talu trethi i ariannu'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Leol yn barod, gan gynnwys treth incwm, treth gorfforaeth, treth gyngor, TAW ac ati, NI ddylid cael unrhyw gynllun codi tâl ychwanegol ar gyfer gweithredwyr cynhenid”
(Ymateb dienw)*


Themâu yn erbyn ffioedd ar raddfa yn ôl maint: Anghytuno cyffredinol

- 4.191 Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn anghytuno â chyflwyno unrhyw ffi, ac felly, ffi ar raddfa. Mynegodd yr ymatebwyr hyn bryderon am ei oblygiadau i'r diwydiant twristiaeth.

“Bydd yn gostus i'w redeg ac o gofio'r ddeddfwriaeth dreth bresennol, y cynnydd cyffredinol mewn costau i redeg cynllun gosod (yswiriant, archwiliadau diogelwch, atgyweiriadau ac ati) + y dreth dwristiaeth arfaethedig y bydd yn rhaid i mi ei gweinyddu o bosibl - mae'n gwneud i Gymru ymddangos ei bod yn erbyn busnesau ac yn erbyn twristiaid a byddaf yn rhoi'r gorau iddi” (Ymateb dienw)

Cwestiwn 18: Yng Nghwestiwn 12, gofynnwyd am drwyddedau cyfyngedig am ddigwyddiadau untro neu flynyddol. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallai darparwyr wneud cais am drwydded untro am gost ostyngol?

Ffigur 20. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y gallai darparwyr wneud cais am drwydded untro am gost ostyngol.



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,073 o ymatebwyr, sef 67% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.192 Roedd y rhai a atebodd y cwestiwn hwn gan amlaf (38% neu 405 o ymatebwyr) yn anghytuno â galluogi darparwyr i wneud cais am drwydded untro am gost ostyngol. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr (31% neu 333 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynnig, gyda nifer tebyg o'r ymatebwyr (31% neu 335 o ymatebwyr) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.
- 4.193 Roedd yr anghytuno'n fwyaf cyffredin ymysg llwyfannau archebu (49%), a chyrrff sy'n cynrychioli twristiaeth (45%).
- 4.194 Roedd y lefel uchaf o gytuno (45%) ymhlith ymatebwyr o gyrff sy'n cynrychioli twristiaeth hefyd, a hynny ar draws yr holl ymatebwyr, yna awdurdodau lleol (41%), ac asiantaethau hunanddarpar (40%).

Themâu yn erbyn yr awgrym ynghylch trwyddedau cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol
Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.195 Y rheswm mwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd yn anghytuno â sefydlu trwyddedau cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol oedd pryder ynghylch y baich gweinyddol ac ariannol sylweddol ar ddarparwyr

llety. Fel y soniwyd yn yr adran themâu cyffredinol, mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch y goblygiadau i fusnesau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

“Mae hyn yn creu biwrocratiaeth ddiangen. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflogi miloedd o staff newydd am gost i'r trethdalwr heb unrhyw fudd cadarnhaol. Bydd yn arwain at fusnesau lleol yng Nghymru yn cau ac at fwy o ddiweithdra yng nghefn gwlad Cymru”. (Ymateb dienw)

Pryderon ynghylch diogelwch

- 4.196 Y thema fwyaf cyffredin ond un a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r datganiad dan sylw oedd pryderon ynghylch diogelwch. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn cyfeirio'n gyffredinol at gostau gostyngol arfaethedig trwyddedau ar gyfer digwyddiadau untro a fyddai'n peryglu diogelwch digwyddiadau. O ganlyniad, awgrymwyd y dylid cael cost safonol i orfodi'r un safonau diogelwch ar draws pob math o lety.

“Dylai'r digwyddiad fod yn ddiogel ac felly mae gostyngiadau'n tanseilio hyn (Preswilydd yng Nghymru)

“Mae angen i bob darparwr llety gael ei drin yn gyfartal, ac mae angen darparu'r un lefelau o ddiogelwch / cyfreithlondeb, felly boed hynny am un noson neu 365 noson, dylai'r broses gofrestru a'r ffi fod yr un fath” (Ymateb dienw)

Mae cynlluniau eisoes ar waith ar gyfer digwyddiadau blynyddol

- 4.197 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a godwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r datganiad oedd y farn bod cynlluniau eisoes ar waith ar gyfer digwyddiadau untro a blynyddol. Er enghraifft, pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod llawer o ddigwyddiadau eisoes yn gorfod cael trwydded y gellid ei hystemyn i gynnwys eu llety, sy'n golygu nad oes angen y cynllun.

“Ni ddylai fod angen trwydded arnyn nhw. Os ydyn nhw'n cynnal digwyddiad trwyddedig, maen nhw eisoes yn talu am drwydded TENS [hynny yw, Hysbysiad Digwyddiadau Dros Dro]”. (Ymateb dienw)

Themâu o blaid yr awgrym ynghylch trwyddedau cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol

Dull gweithredu sy'n gymesur â maint a throsiant darparwyr

- 4.198 Y thema a godwyd amlaf oedd cytuno â'r cynllun arfaethedig ar yr amod fod awdurdodau'n gorfodi dull gweithredu cymesur. Roedd yr ymatebwyr hyn, gan gynnwys nifer o gyrff sy'n cynrychioli twristiaid, fel arfer yn credu y dylid prisio 'cost ostyngol' y cynllun yn dibynnu ar faint a throsiant y digwyddiad dan sylw. Awgrymwyd y dylai digwyddiadau mwy dalu pris uwch er mwyn osgoi cosbi digwyddiadau llai sy'n llai abl i dalu am y gost trwyddedu. Mewn cysylltiad agos â'r ddadl hon, awgrymwyd hefyd gan rai y dylai digwyddiadau a oedd yn cynhyrchu elw uwch hefyd dalu pris uwch.

"Felly, a fydd dull gweithredu ar raddfa ar gyfer hyn? Oherwydd mae rhai digwyddiadau untro yn gallu bod yn enfawr ac yn denu llawer o refeniw, felly rydych chi'n dweud eu bod yn talu pris gostyngol! Rydych chi'n cyflwyno annhegwch i system a allai fod yn un gymhleth iawn, cadwch bethau'n syml ac yn deg". (Ymateb dienw)

"Gall yr incwm untro ar gyfer digwyddiad blynyddol fel Gŵyl y Dyn Gwyrdd redeg i filiynau – beth am edrych ar incwm blynyddol yn ogystal â maint y llety" (Ymateb dienw)

Hyrwyddo tegwch

- 4.199 Y thema a godwyd amlaf ond un o blaid y datganiad dan sylw oedd y farn mai rhoi trwydded untro ar waith am bris gostyngol oedd y dull tecaf. Fodd bynnag, ychydig iawn o ymatebwyr oedd wedi cynnwys esboniad am eu hatebion.

"Byddai, fe fyddai'n ymddangos yn deg cyflwyno trwydded cost is ar gyfer digwyddiad untro neu amserlen gyfyngedig" (Ymateb dienw)

Ceisiadau am ragor o wybodaeth

- 4.200 Gofynnodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr am ragor o wybodaeth, yn enwedig ynghylch y diffiniadau o 'ddigwyddiadau untro' a 'digwyddiadau blynyddol'.

“Sut ydych chi’n diffinio digwyddiad untro neu ddigwyddiad blynyddol? Gallai priodas neu angladd fod yn ddigwyddiad untro i deulu a gellid disgrifio parti pen-blwydd fel digwyddiad blynyddol” (Ymateb dienw)


“Sut fyddai ‘digwyddiad untro’ yn cael ei ddiffinio? Mae’r Nadolig, gwyliau’r ysgol ac ati yn ddigwyddiadau blynyddol. A fyddai hyn yn dod o dan feini prawf ‘digwyddiad blynyddol’?” (Ymateb dienw)

Amllder gwneud cais

4.201 Mae’r adran hon yn gofyn am farn ynghylch pa mor aml y dylai darparwyr llety ymwelwyr orfod adnewyddu eu trwyddedau.

Cwestiwn 19: Pa mor aml y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr adnewyddu eu trwydded?

Ffigur 21. Cyfran o’r ymatebwyr sy’n ffafrio opsiynau ar gyfer pa mor aml y dylid adnewyddu



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 837 o ymatebwyr, sef 52% o’r holl ymatebion i’r ymgynghoriad.

4.202 Roedd y rhan fwyaf o’r rhai a atebodd y cwestiwn hwn (61% neu 507 o ymatebwyr) yn ffafrio bod yn rhaid i’r darparwr llety ymwelwyr adnewyddu ei drwydded bob pum mlynedd. Yr opsiwn a ddewiswyd amlaf ond un oedd bob tair blynedd (16% neu 134 o ymatebwyr), yna bob blwyddyn (15% neu 124 o ymatebwyr).

- 4.203 Ymatebwyr o awdurdodau lleol oedd y mwyaf tebygol (30%) o ffafrio adnewyddu'n flynyddol, a bob dwy flynedd oedd yr ateb mwyaf cyffredin ymysg cyrff sy'n cynrychioli twristiaeth (22%). Roedd ymatebwyr o awdurdodau lleol hefyd wedi dewis bob tair blynedd yn fwy aml na'r mathau eraill o ymatebwyr (30%). Bob pum mlynedd oedd yn fwyaf cyffredin ymysg darparwyr llety ymwelwyr (64%).

Roedd y themâu o blaid eu cynnal bob tair i bum mlynedd yn cynnwys:

Mwy ymarferol

- 4.204 Y thema a godwyd amlaf gan ymatebwyr o blaid adnewyddu'n llai rheolaidd oedd y farn bod y cyfnod hwn yn amserlen fwy ymarferol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y thema hon o'r farn y byddai adnewyddu'n llai rheolaidd yn lleihau'r llwyth gwaith ac felly'n lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr llety.

“Dyma'r amserlen fwyaf realistig i gydymffurfio â hi” (Arall)

“Cymaint o fiwrocratiaeth. Fydd neb eisiau cynnig llety os oes swm afresymol o waith papur” (Ymateb dienw)

Cymhelliad ar gyfer cydymffurfio

- 4.205 Y thema nesaf a godwyd amlaf gan ymatebwyr o blaid adnewyddu bob tair i bum mlynedd oedd y farn y byddai'n annog darparwyr llety i gydymffurfio. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn dadlau y gallai adnewyddu'n flynyddol neu'n fwy rheolaidd fod yn 'annymunol' i fusnesau, gan ddatgymell rhag ymgysylltu'n briodol a lleihau cywirdeb yr wybodaeth sydd ar gael.

“Gall cofrestru blynyddol fod yn faich annymunol i rai – mae'n well mynnu ei fod yn cael ei wneud yn llai aml i annog mwy i wneud hynny” (Ymateb dienw)

Roedd y themâu o blaid eu cynnal bob blwyddyn i ddwy flynedd yn cynnwys:

Cysondeb ag amserlenni eraill

- 4.206 Y rheswm a godwyd amlaf dros gefnogi adnewyddu'n amlach oedd y byddent yn cyd-fynd ag archwiliadau blynyddol eraill sy'n ofynnol ar gyfer y

broses drwyddedu, gan gynnwys archwiliadau yswiriant, nwy a diogelwch tân.

“Gan fod y rhan fwyaf o dystysgrifau’n cael eu hadnewyddu’n flynyddol, fel diogelwch nwy a diogelwch tân; ynghyd ag yswiriant, byddai cofrestru’n flynyddol yn gwneud y mwyaf o synnwyr”. (Ymateb dienw)

“Mae angen gwirio’r eiddo’n flynyddol – fel busnesau sy’n gorfod cael archwiliadau diogelwch tân ac ati, oni bai fod hyn yn digwydd, gall safonau gael eu hesgeuluso a gallant ddirywio” (Awdurdod lleol)

Ystyriaethau ar gyfer newidiadau economaidd-gymdeithasol

- 4.207 Y thema nesaf a godwyd amlaf o blaid adnewyddu’n fwy rheolaidd oedd y farn y byddai cyfnod o flwyddyn i ddwy yn adlewyrchu’n well y newidiadau economaidd-gymdeithasol cyflym a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod hwn. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai safonau llety ostwng petai bylchau hir rhwng adnewyddu gyda newidiadau economaidd-gymdeithasol sylweddol, yn eu tro, yn lleihau hygyrdd eu trwyddedau.

“Gall llawer ddigwydd mewn 12 mis. Felly, mae’n hanfodol bod y trwyddedau’n parhau i sicrhau hygyrdd drwy gael eu gweinyddu’n flynyddol” (Ymateb Dienw)

Awgrymiadau ar gyfer y broses adnewyddu


- 4.208 Yn olaf, cynigiodd rhai ymatebwyr awgrymiadau ar y ffyrdd y gellid sicrhau bod hyd y broses adnewyddu yn mynd ar raddfa i gyd-fynd â gwahanol ffactorau. Y ffactor a nodwyd amlaf oedd lefel risg y darparwr llety, ac yna maint y sefydliad. Er enghraifft, roedd rhai o’r farn y dylai busnesau mawr adnewyddu’n flynyddol, tra dylai busnesau llai gael adnewyddu’n llai aml.

“Ond eto’n gymesur â’r risg a’r maint. Gallai maes i 300 o garafannau fod yn flynyddol. Un uned hunanddarpar i ddau, bob tair blynedd. Unwaith eto, rheswm pam na ellir trin pawb yn yr un modd!” (Ymateb dienw)

“Ar gyfartaledd. Gallech wneud hyn ar raddfa – bob blwyddyn ar gyfer busnesau mawr, fel gwestai. Ar gyfer un bwthyn, gadewch iddo fynd am dair (gyda’r darpariaethau yn y cwestiwn canlynol)” (Ymateb dienw)

Cwestiwn 20: Os bydd yn ofynnol adnewyddu trwyddedau'n llai aml na phob blwyddyn, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr gymryd rhan mewn adolygiad blynyddol, hynny yw, lanlwytho tystiolaeth gyfredol/cadarnhad eu bod yn cydymffurfio â gofynion eu trwydded?

Ffigur 22. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr gynnal adolygiad blynyddol os bydd yn ofynnol adnewyddu trwyddedau'n llai aml na phob blwyddyn



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,065 o ymatebwyr, sef 67% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.209 Roedd ymatebwyr a oedd yn ateb y cwestiwn hwn gan amlaf (48% neu 516 o ymatebwyr) yn anghytuno â mynnu bod darparwyr llety ymwelwyr yn cynnal adolygiad blynyddol os yw'r amllder adnewyddu yn llai na blynyddol. Preswylwyr yng Nghymru a darparwyr llety ymwelwyr oedd yn anghytuno amlaf, gyda thua hanner yr ymatebwyr yn anghytuno.
- 4.210 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o awdurdodau lleol yn cytuno (53%) â'r cynnig, ac roedd hanner yr ymatebion gan y parciau cenedlaethol o blaid hefyd.

Themâu yn erbyn sefydlu adolygiad blynyddol

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.211 Fel y soniwyd mewn cwestiynau blaenorol, mynegodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr bryderon y byddai sefydlu adolygiad blynyddol yn arwain at roi baich gweinyddol ac ariannol sylweddol ar ddarparwyr llety. Mynegodd ymatebwyr bryder penodol ynghylch y goblygiadau i fusnesau llai sydd ag adnoddau cyfyngedig.

“Mae gormod o waith gweinyddol yn barod. Mae'n llawer rhy feichus i fusnesau bach a micro” (Ymateb dienw)

Amheuron ynghylch yr angen am adolygiadau blynyddol

- 4.212 Y thema a godwyd amlaf ond un yn erbyn sefydlu adolygiad blynyddol oedd y farn ei fod yn cael ei ystyried yn 'ddiangen' ac yn gam yn rhy bell gan Lywodraeth Cymru. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai digon o drefniadau monitro o fewn y cynllun trwyddedu, o ystyried yr arolygiadau ar hap. O ganlyniad, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod yr adolygiadau blynyddol yn ddiangen.

“Os yw'r cynllun trwyddedu'n cael ei redeg yn dda (hynny yw, arolygiadau rheolaidd a phriodol ar hap a chymau gorfodi perthnasol), does dim angen adnewyddu'n aml. Yn yr achos uchod, bydd darparwyr llety “gwael” yn cael eu canfod yn weddol gyflym a bydd y cynllun trwyddedu'n cyflawni ei ddiben yn dda, gan adael y rhan fwyaf o ddarparwyr sy'n cydymffurfio â'r drwydded i redeg eu busnes” (Darparwr llety preswyl)

Awgrymiadau ar ffurf adolygiadau a pha mor aml i'w cynnal

- 4.213 Yn olaf, cynigiodd rhai ymatebwyr awgrymiadau ynghylch sut gellid gwella'r cynllun. Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd cynnal yr adolygiadau'n llai rheolaidd. Awgrymwyd yn gyffredinol y dylid cynnal adolygiadau unwaith bob dwy flynedd. Yr awgrym nesaf a grybwyllwyd amlaf oedd y dylai'r adolygiad fod ar raddfa yn unol ag anghenion gwahanol ddarparwyr llety, yn enwedig y rhai llai.

"Unwaith eto, allwch chi ddim defnyddio un rheol i bawb... Mae gwahaniaethau enfawr rhwng darparwyr a dylid adlewyrchu'r rhain mewn unrhyw broses o'r fath" (Ymateb dienw)

Themâu o blaid sefydlu adolygiad blynyddol

Cysondeb ag amserlenni eraill

- 4.214 Y thema a godwyd amlaf o blaid adolygiadau blynyddol oedd y farn y byddent yn cyd-fynd â gwiriadau fel tystysgrifau nwy ac yswiriant. O ganlyniad, ystyriwyd ei bod yn bwysig darparu'r wybodaeth ddiweddaraf bob blwyddyn. Fodd bynnag, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith nad yw adnewyddu rhai gwiriadau, fel yswiriant, yn cyd-daro â'r dyddiad cofrestru. Awgrymwyd felly bod y tystysgrifau'n ddilys flwyddyn ar ôl eu llwytho i fyny yn hytrach na'r dyddiad cofrestru am y tro cyntaf.

"Mae tystysgrifau yswiriant a nwy yn dod i ben bob blwyddyn felly dylid darparu copïau cyfredol bob amser" (Asiantaethau hunanddarpar)

Mwy o gywirdeb o ran data

- 4.215 Y thema nesaf a oedd yn codi amlaf wrth gytuno â'r datganiad arfaethedig oedd y farn y byddai'n fuddiol o ran ansawdd a nifer y data. Roedd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn nodi'n gyffredinol y byddai adolygiadau blynyddol yn cynnig gwybodaeth gyfredol i Lywodraeth Cymru am nifer y darparwyr llety ymwelwyr ac o ran sut maent yn cydymffurfio. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn hanfodol ar gyfer uniondeb y cynllun yn yr hirdymor.


"Er mwyn sicrhau cywirdeb y data sy'n cael eu cadw a sicrhau dilysrwydd y cynllun" (Preswylydd yng Nghymru)

Tryloywder a mynediad at wybodaeth

- 4.216 Mae'r adran hon yn ceisio barn ar y rhestr o awdurdodau a phartneriaid allweddol y gallai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol rannu gwybodaeth a data personol â nhw.

Cwestiwn 21: Rydym yn cynnig, fel rhan o'r broses gwneud cais am drwydded, y gofynnir i ddarparwyr llety gydsynio i'r wybodaeth a ddarperir ganddynt gael ei rhannu rhwng awdurdodau a phartneriaid allweddol at ddibenion cyfathrebu, diogelwch, cydymffurfiaeth, gorfodi a rhoi ardoll ymwelwyr ar waith. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

Ffigur 23. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn rhannu gwybodaeth ag awdurdodau a phartneriaid allweddol



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,069 o ymatebwyr, sef 67% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.217 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (59% neu 636 o ymatebwyr) yn anghytuno â rhannu eu gwybodaeth ag awdurdodau a phartneriaid allweddol at ddibenion cyfathrebu, diogelwch, cydymffurfiaeth, gorfodi a rhoi ardoll ymwelwyr ar waith. Asiantaethau hunanddarpar oedd yr ymatebwyr mwyaf tebygol o anghytuno (65%), yna darparwyr llety ymwelwyr (62%), a phreswylwyr yng Nghymru (61%).

- 4.218 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o awdurdodau lleol (62%) yn cytuno â'r datganiad dan sylw, fel roedd bron i hanner yr ymatebwyr o barciau cenedlaethol a chyrrff sy'n cynrychioli twristiaeth.

Themâu yn erbyn rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau a phartneriaid allweddol

Pryderon ynghylch diogelwch data

- 4.219 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr yn erbyn rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau allweddol a phartneriaid oedd pryder ynghylch achosion posibl o dor diogelwch data. Roedd natur breifat a phersonol y data a rennir yn cael ei ystyried yn fater a fyddai'n cynyddu'r risg ac, yn ei dro, sgil-ffeithiau unrhyw achos o danseilio diogelwch. Aeth llawer o ymatebwyr ymlaen i ddisgrifio'r weithred fel achos o dorri egwyddorion GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data).

“Mae hyn yn arwain at ddatguddio gwybodaeth a thorri rheolau Diogelu Data a GDPR. Allwch chi ddim gofyn i ddarparwyr llety roi caniatâd penagored, i bartïon dienw, pan fo'n fater o rannu data personol” (Ymateb dienw)

Eithrio derbynyddion a gwybodaeth benodol

- 4.220 Y thema nesaf a oedd yn cael ei chodi amlaf gan ymatebwyr oedd y farn y dylai rhai derbynyddion gael eu heithrio rhag gwybodaeth benodol neu na ddylid rhannu rhai darnau o wybodaeth. O ran y cyntaf, roedd ymatebwyr yn anghytuno'n gyffredinol â rhannu unrhyw wybodaeth ag endidau masnachol trydydd parti, gan fod llawer o ymatebwyr wedi mynegi pryder y gallai eu data gael eu gwerthu at ddibenion marchnata. O ran yr olaf, roedd ymatebwyr, gan amlaf, yn dadlau bod Llywodraeth Cymru yn gallu cael gafael ar ddigon o wybodaeth, gan gwestiynu'r angen am ragor o wybodaeth.

“Dydw i ddim eisïau i fy nata gael ei werthu at ddibenion marchnata i gystadleuwyr posibl sydd â llawer o arian. Awdurdodau, iawn, endidau masnachol, na” (Darparwr llety ymwelwyr)

“Dylai fod gan awdurdodau lleol yr holl wybodaeth sydd ei hangen arny'n nhw'n barod drwy'r Adrannau Cynllunio, lechyd yr amgylchedd ac Ardrethi

busnes. Rydych chi'n ceisio ychwanegu mwy o fiwrocratiaeth er mwyn i chi allu llethu gweithredwyr â ffioedd" (Ymateb dienw)

Anghytuno â'r diben o rannu gwybodaeth

- 4.221 Y thema a godwyd amlaf ond dwy gan ymatebwyr yn erbyn y cynnig oedd na ddylid defnyddio'r wybodaeth a rennir ar gyfer ardollau ymwelwyr. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder ynghylch rhoi ardollau ymwelwyr ar waith a'r goblygiadau ariannol negyddol ymddangosiadol i ddarparwyr a'r sector twristiaeth. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ragor o wybodaeth am y polisi a'i nodau, gan ddadlau y dylai sgysiau ynghylch ardollau ymwelwyr fod yn fater ar wahân i'r ymgynghoriad presennol.

"Rwy'n anghytuno'n llwyr ag unrhyw gynlluniau i greu ardoll ymwelwyr. Bydd yn golygu na fydd twristiaid yn aros dros nos a byddant yn ymweld ag ardaloedd eraill neu'n aros yn Lloegr. Mae angen i Gymru gynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n aros dros nos, nid cosbi'r rheini sy'n gwneud hynny" (Llwyfan Archebu)

"Roeddwn i'n meddwl mai mater cofrestru/trwyddedu oedd hwn, nid mater o roi ardoll i ymwelwyr ar waith. Mae'r tâl ardoll ymwelwyr yn fater ar wahân". (Preswlydd yng Nghymru)

Themâu o blaid rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau a phartneriaid allweddol

Annog cydymffurfiaeth

- 4.222 Y thema a godwyd amlaf ymysg yr ymatebwyr hynny o blaid rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau a phartneriaid allweddol oedd y farn y byddai'n annog cydymffurfiaeth ar draws gwahanol ddarparwyr llety ymwelwyr.

"Rydyn ni'n credu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am y gwaith o reoli a chreu cynllun cofrestru drwy Croeso Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru, yn ganolog, sicrhau bod safonau gael eu cynnal yn gyson ledled Cymru er mwyn osgoi bod gan Awdurdodau unigol safonau gwahanol a allai wneud ardal un awdurdod yn fwy neu'n llai cystadleuol na'i chymydog. Dylai


prosesau cydymffurfio a gorfodi gael eu monitro a'u rheoli gan Swyddogion Safonau Masnach Lleol". (Ymateb dienw)

Dangos rhifau trwyddedau

- 4.223 Mae'r adran hon yn gofyn am farn ynghylch a ddylai darparwyr llety ymwelwyr orfod dangos eu rhif trwydded ar ddeunyddiau hysbysebu a marchnata. Mae'r ail adran yn gofyn am farn ynghylch a ddylai ai trefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli cyfryngau cymdeithasol a sianeli archebu eraill, llwyfannau marchnata, ac asiantaethau hunanddarpar ddangos rhif trwydded y llety y maent yn ei hyrwyddo. Mae'r cwestiynau hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o gosbi'r rheini sy'n hysbysebu llety ymwelwyr sydd heb ei drwyddedu yn fwriadol neu'n esgeulus.

Cwestiwn 22: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr llety arddangos ei rif trwydded ar bob deunydd hysbysebu/marchnata ac yn ei lety i ymwelwyr ac y dylai fod yn agored i gosbau os nad yw'n cydymffurfio?

Ffigur 24. Cyfran o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr llety arddangos ei rif trwydded ar bob deunydd hysbysebu/marchnata ac yn ei lety i ymwelwyr ac y dylai fod yn agored i gosbau os nad yw'n cydymffurfio



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,069 o ymatebwyr, sef 67% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.224 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (53% neu 570 o ymatebwyr) yn anghytuno â'r cynnig. Darparwyr llety ymwelwyr a phreswylwyr yng Nghymru oedd yr unig fathau o ymatebwyr a oedd yn anghytuno trwy fwyafrif (55% a 54% yn y drefn honno).
- 4.225 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o awdurdodau lleol (64%), parciau cenedlaethol (57%), cymdeithasau twristiaeth (57%), a chyrrff sy'n cynrychioli twristiaeth (55%) yn cytuno â'r datganiad dan sylw.

Themâu sy'n gwrthwynebu'r awgrym y dylai darparwyr llety orfod dangos eu rhif trwydded

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.226 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â darparwyr llety ymwelwyr yn dangos rhif eu trwydded oedd y farn y byddai'r broses yn arwain at ormod o faich gweinyddol ac ariannol. Roedd hyn yn cael ei godi amlaf mewn perthynas â diweddarau'r deunyddiau hysbysebu a marchnata, gyda phryder ynghylch amser a chost newid deunyddiau marchnata.

Heriau o ran gorfodi

- 4.227 Y thema fwyaf cyffredin ond un ymysg ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r awgrym dan sylw oedd y farn y byddai'n rhy anodd ei orfodi. Roedd y safbwyntiau hyn hefyd yn gysylltiedig â'r pryderon ariannol a gweinyddol a godwyd yn y thema flaenorol. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at y ffaith y gallai darparwyr llety ffugio rhif eu trwydded er mwyn rhoi ymdeimlad camarweiniol o sicrwydd i ddarpar ymwelwyr.

“Ddim yn siŵr sut byddech chi'n plismona'r gofyniad hwn oherwydd y nifer helaeth o ffyrdd y gall pobl ddefnyddio technoleg, yn enwedig gan y gallai gwall clericio arwain at gosb” (Ymateb di-enw)

“Byddai pobl yn gallu ffugio rhif yn hawdd a phwy fyddai'n gwirio hynny” (Preswyllydd yng Nghymru)

Arddangos rhifau trwydded yn cael ychydig o effaith

- 4.228 Y thema fwyaf cyffredin nesaf ymysg ymatebwyr a oedd yn anghytuno ag ymwelwyr yn arddangos rhifau trwydded oedd y farn na fyddai'n cael llawer

o effaith. Roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â'r farn na fyddai ymwelwyr yn poeni nac yn ymwybodol o ystyr rhif y drwydded, felly, ni fyddai'n cael llawer o effaith ar eu penderfyniadau wrth ddewis ble i aros.

“Dydw i ddim yn meddwl y dylai fod angen trwydded. Os bydd hyn yn dod i rym, beth fyddai pwrpas ei arddangos? Dydw i ddim yn meddwl y byddai'r cyhoedd yn poeni o gwbl, felly ydy hyn yn ffordd o chwilio am gyfleoedd i roi dirwyon i ddarparwyr?” (Ymateb dienw)

“Bydd hyn yn ychwanegu baich ac ni fyddai'r cyhoedd yn gwybod beth mae hyn yn ei olygu wrth ystyried mathau eraill o achrediad sydd eisoes yn bodoli” (Ymateb dienw)

Themâu o blaid yr awgrym y dylai darparwyr llety orfod dangos eu rhif trwydded

Mwy o gydymffurfio â gofynion y cynllun

- 4.229 Y thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â darparwyr llety ymwelwyr yn dangos rhif eu trwydded oedd y farn y byddai'n arwydd clir o gydymffurfio. Gwelwyd bod arddangos rhif y drwydded yn ddull o roi sicrwydd i ymwelwyr bod y llety dan sylw yn dod o dan y cynllun ac, o'r herwydd, yn cyrraedd safonau penodol.

“Os yw pob llety'n cydymffurfio â'r amodau, yna ni ddylai fod rheswm dros beidio ag arddangos eu trwydded. Byddai hyn yn rhoi hyder i ymwelwyr bod yr eiddo yn un sy'n cydymffurfio â rhai amodau” (llwyfan archebu)

“Pan fydd ymwelwyr yn archebu, byddant yn hyderus bod y llety yn cyrraedd safon dda a'i fod yn ddiogel.” (Llwyfan archebu)

Gwarchod buddiannau ymwelwyr a busnesau


- 4.230 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a godwyd gan ymatebwyr o blaid yr awgrym oedd y farn y byddai'r cynllun yn gwarchod buddiannau busnesau ac ymwelwyr. O ran y cyntaf, soniodd rhai y byddai'n hyrwyddo tegwch ymysg darparwyr llety ymwelwyr, gan y byddai angen iddynt i gyd ddilyn yr un safonau. O ran yr olaf, ystyriwyd ei fod yn hybu hyder ymhlith ymwelwyr, fel y trafodwyd yn y thema flaenorol.

“Bydd angen hyn er mwyn sicrhau tegwch a helpu i ennyn hyder defnyddwyr yn y sector llety. Ni ddylai busnes/eiddo allu hysbysebu ar wefannau, nac ar ddeunydd wedi'i argraffu, heb arddangos y rhif cofrestru”. (Ymateb dienw)

“Mae'n eu dal i gyfrif ac yn rhoi hyder i ymwelwyr pan fyddan nhw'n archebu, heb iddyn nhw orfod chwilio am statws trwydded.” (Ymateb dienw)

Cwestiwn 23: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i drefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu eraill a sianeli cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau marchnata ac asiantaethau hunanddarpar arddangos rhif trwydded y llety ymwelwyr y maent yn ei hyrwyddo ar eu rhestrau a/neu hysbysebion ac y dylent fod yn agored i gosbau os ydynt yn hysbysebu llety ymwelwyr heb drwydded yn fwriadol neu'n esgeulus?

Ffigur 25. Cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i drefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu eraill a sianeli cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau marchnata ac asiantaethau hunanddarpar arddangos rhif trwydded y llety ymwelwyr y maent yn ei hyrwyddo ar eu rhestrau a/neu hysbysebion ac y dylent fod yn agored i gosbau os ydynt yn hysbysebu llety ymwelwyr heb drwydded yn fwriadol neu'n esgeulus



Nodyn: Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 1,075 o ymatebwyr, sef 67% o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 4.231 Roedd tua hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (neu 534 o ymatebwyr) yn anghytuno â'r cynnig dan sylw. Dim ond preswylwyr yng Nghymru (52%) oedd yn anghytuno trwy fwyaf.
- 4.232 Ymatebwyr o'r parciau cenedlaethol oedd yn cytuno fwyaf (57%) o blith yr holl ymatebwyr, wedyn cyrff sy'n cynrychioli twristiaeth (55%), ac awdurdodau lleol (47%).

Themâu yn erbyn yr awgrym y dylai'r holl drefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu eraill a sianeli cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau marchnata ac asiantaethau hunanddarpar ddangos rhif trwydded

Baich gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 4.233 Y thema fwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr sy'n anghytuno y dylai trefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio ac asiantaethau hunanddarpar eraill ddangos rhif y drwydded oedd y byddai'n cynyddu'r baich gweinyddol a'r baich ariannol cysylltiedig. Roedd y pryder hwn yn arbennig o amlwg yng nghyswllt darparwyr llai.

“yr unig beth mae hyn yn ei olygu i'r darparwr llety gwyliau yw ei fod yn treulio mwy o amser ar waith gweinyddol diangen ac yn wynebu mwy o gost am ddim budd o gwbl.”

(Ymateb dienw)

Anghytuno'n gyffredinol â chosbau

- 4.234 Y thema fwyaf cyffredin nesaf oedd cymell gofal yn gyffredinol yn erbyn cosbau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon yn amau pa mor effeithiol fyddai unrhyw gosbau, yn enwedig wrth ystyried yr amser a'r arian i'w buddsoddi i'w gweithredu a'u monitro. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn canolbwyntio ar yr anawsterau o gosbi trefnwyr gwyliau ar-lein sy'n gweithredu y tu hwnt i ffiniau Cymru.

“Yn sicr, nid wyf yn derbyn y dylid cael cosbau am beidio ag arddangos rhif y drwydded. Unwaith eto, rwy'n gofyn, beth fydd pwrpas hyn? Pa broblem (sy'n gysylltiedig â'r cyfiawnhad sydd wedi'i ddatgan dros ddiogelwch) sy'n cael ei datrys a sut bydd hyn yn ei datrys?” (Ymateb dienw)

“Mae’r diwydiant teithio yn un rhyngwladol, a byddai’n anodd neu hyd yn oed yn amhosibl gorfodi gofyniad o’r fath ym mhob achos. Yn wir, efallai na fydd hi’n gyfreithiol bosibl gwneud hynny” (Awdurdod Lleol)

Cam yn rhy bell gan Lywodraeth Cymru

- 4.235 Y thema fwyaf cyffredin ond dwy ymysg ymatebwyr a oedd yn anghytuno â’r datganiad oedd bod y cynllun yn cael ei ystyried yn gam yn rhy bell. Roedd mwy o reolaeth gan y llywodraeth yn cael ei hystyried yn ddiangen ac yn niweidiol i fusnesau ac i economi Cymru. Yn hytrach, awgrymwyd y dylai ymwelwyr fod yn gyfrifol am asesu safonau eu llety.

“Gormod o reoleiddio. Gadewch i ymwelwyr wneud eu hymholiadau eu hunain a chymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros eu dewisiadau a’u penderfyniadau eu hunain”. (Ymateb dienw)

Systemau sydd wedi hen ennill eu plwyf ar waith

- 4.236 Y thema fwyaf cyffredin nesaf ymysg ymatebwyr oedd amheuan ynghylch a oes rhaid cael y cynllun. Soniodd yr ymatebwyr a gododd y thema hon yn fwyaf aml fod systemau digonol eisoes ar waith sy’n cyflawni nodau’r cynllun arfaethedig.

“Pam byddai’r cwmnïau hyn eisïau ymgymryd â’r dasg hon? Mae ganddyn nhw eu trefniadau cadw cydbwysedd eu hunain y mae’n rhaid i letywyr lynu wrthyn nhw cyn y byddan nhw’n hysbysebu llety’n barod” (Ymateb dienw)

“Dim ond yng Nghymru y bydd eich cynllun yn weithredol. Dydy hyn ddim yn gweithio. Maen nhw [hynny yw, llwyfannau archebu] yn cynnal eu harchwiliadau eu hunain yn barod. Mae nifer o rwystrau y mae’n rhaid i ddarparwyr llety eu goresgyn yn barod. Dim ond dyblygu systemau rydych chi’n ei wneud”. (Ymateb dienw)

Themâu o blaid yr awgrym y dylai'r holl drefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu eraill a sianeli cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau marchnata ac asiantaethau hunanddarpar ddangos rhif trwydded

Gwell tryloywder o ran safonau llety

- 4.237 Y thema fwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig oedd y farn y byddai'r wybodaeth drwyddedu ar ddeunydd pob trefnydd gwyliau ar-lein yn hybu tryloywder. Soniodd yr ymatebwyr a gododd y thema hon y byddai'r cynnig yn gwneud iechyd a diogelwch a safonau ansawdd yn fwy amlwg, gan alluogi ymwelwyr i wneud dewisiadau gwybodus.

“Mae angen cysoni'r trefnwyr gwyliau ar-lein, maen nhw i gyd yn gwyro at fuddion ymwelwyr, nid gwesteiwyr, ac maen nhw'n newid y rheolau drwy'r amser! Mae gwneud iddyn nhw gydymffurfio drwy gael rhif cofrestru gwesteiwr yn gam da ymlaen”. (Ymateb dienw)

Ffaffrio dirwy fel cosb

- 4.238 O ran cosbau, dirwyon oedd y gosb a oedd yn cael ei chefnogi amlaf, yna atal rhag gweithredu dros dro, er mwyn annog pobl i gydymffurfio â'r system. Ond roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai defnyddio cosbau, yn enwedig dirwyon, arwain at drefnwyr gwyliau ar-lein yn tynnu allan o'r farchnad yng Nghymru, gan niweidio'r sector twristiaeth.

“Mae'r rhan fwyaf o'r busnes o bell ffordd yn cael ei ddenu drwy'r trefnwyr gwyliau ar-lein. Byddai'r cynllun yn disgyn yn ddarnau heb iddyn nhw gydymffurfio'n llawn. [...] Unwaith eto, dirwyon am beidio â chydymffurfio ond gallaf weld hyn yn mynd yn flêr gyda rhai trefnwyr gwyliau ar-lein yn tynnu'n ôl yn y pen draw pan nad ydyn nhw'n cael y drafferth hon mewn rhannau eraill” (Cymdeithas Twristiaeth)

5. Sylwadau terfynol

Cwestiwn 24: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai cynllun trwyddedu statudol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

- 5.1 Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am farn am effaith bosibl y cynllun ar y Gymraeg, ar y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, y thema fwyaf cyffredin yn yr ymatebion i'r cwestiwn a fyddai'r cynllun yn cael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg oedd na fyddai'r cynllun hwn yn cael unrhyw effaith.

Ychydig o effaith ar y Gymraeg

- 5.2 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai'r cynllun yn cael fawr o effaith, os o gwbl, ar ddefnyddio'r Gymraeg. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn dadlau nad ydynt yn gweld sut y gallai cynllun trwyddedu effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

“Mae hyn yn ymwneud â gwella safonau a diogelwch llety, dim hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd yn cael effaith niwtral.” (Preswlydd yng Nghymru)

“Dim effeithiau. Mae hyn eisoes yn cael sylw yn y ddeddfwriaeth bresennol ac yn ôl galw gan gwsmeriaid.” (Ymateb dienw)

Y prif themâu ymysg y rhai a nododd effeithiau negyddol posibl

Effaith niweidiol ar fusnesau bach a chymunedau yng Nghymru

- 5.3 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a dynnodd sylw at effeithiau negyddol ar y Gymraeg yn tynnu sylw at y ffaith y gallai'r cynllun gael effaith negyddol ar y sector twristiaeth. Tynnodd ymatebwyr a gododd y thema hon sylw cyffredinol at y ffaith y gallai'r effeithiau negyddol ar dwristiaeth orfodi llawer o fusnesau lleol, a allai fod yn cael eu rhedeg gan siaradwyr Cymraeg, allan o'r farchnad. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai effaith negyddol ar

gabanau clybiau mynydda hefyd. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, mae'r cabanau hyn yn denu pobl i fynyddoedd Cymru na fyddent yn dod yno fel arall, gan hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Cynrychiolwyr clybiau mynydda oedd wedi codi'r thema olaf yn bennaf.

“Bydd busnesau bach lleol sy'n cael eu rhedeg yn aml gan Gymry lleol yn cael eu gwthio allan o'r diwydiant a dim ond cwmnïau mawr a phobl gyfoethog sy'n symud o'r dinasoedd fydd yn gallu fforddio gweithio yma, a dydyn nhw ddim yn gallu hyrwyddo'r Gymraeg.” (Asiantaethau llety hunanddarpar)

“Mae cabanau mynyddoedd yn denu pobl i'r mynyddoedd na fyddent yn dod yno fel arall. Mae'n annog gwesteion i fwynhau Mynyddoedd a diwylliant Cymru yn ogystal â hyrwyddo'r Gymraeg.” (Ymateb dienw)

Llai o gyfnewid diwylliannol

- 5.4 Dywedodd nifer bach o ymatebwyr y byddai trwyddedu statudol yn lleihau nifer y gweithredwyr llety ymwelwyr, gan arwain at lai o ymwelwyr a llai o gyfnewid diwylliannol rhwng Cymru a gwledydd eraill. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, byddai'r cynllun arfaethedig yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd ymwelwyr yn profi'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn sefyllfaoedd bob dydd ac felly'n arwain at lai o ymgysylltu â'r Gymraeg a'i diwylliant. Awgrymodd rhai y byddai hefyd yn cael effaith niweidiol ar farn ymwelwyr am Gymru fel gwlad.

“Gan y bydd trwyddedu statudol yn lleihau nifer y gweithredwyr bach, bydd llai o gyfle i weld y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn sefyllfa o ddydd i ddydd.” (Ymateb dienw).

Y prif themâu ymysg y rhai a nododd effeithiau cadarnhaol posibl

Effeithiau cadarnhaol ar y farchnad dai ac ar gymunedau

- 5.5 Y thema fwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr a oedd yn nodi effeithiau cadarnhaol oedd y gallai awdurdodau sicrhau gwell cydbwysedd o ran y cyflenwad llety rhwng busnesau gwyliau a thai preswyl yn eu cymunedau. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau'n aml y gallai cynlluniau trwyddedu neu

gofrestru arwain at ddychwelyd stoc dai i'r farchnad dai leol a chynyddu'r cyfleoedd i bobl leol sy'n siarad Cymraeg.

“Os yw darparwyr llety'n cael eu prisio allan gan drwyddedau, gallai'r stoc dai fynd yn ôl i bobl leol a allai annog y Gymraeg.” (Preswlydd yng Nghymru)

“Gallai mesurau cyfunol, gan gynnwys cynllun cofrestru neu drwyddedu, helpu i ddod â pherchnogion llety cyfrifol at ei gilydd a hefyd, gobeithio, addysgu llawer i sylweddoli ar yr effaith y gall cartrefi gwyliau ei chael ar gymunedau agored i niwed yng Nghymru, a'r iaith.” (Awdurdod Parc Cenedlaethol)

Cynyddu'r defnydd a'r amlygrwydd mewn gweinyddiaeth gyhoeddus

- 5.6 Soniodd rhai ymatebwyr y gallai fod manteision ychwanegol i'r cynllun os mai'r Gymraeg yw prif iaith y cynllun, a'i bod yn cael ei defnyddio mewn unrhyw swyddi gweinyddol newydd sy'n cael eu creu. Roedd yr ymatebwyr hyn fel arfer yn sôn y dylai gwasanaethau cofrestru, deunyddiau a dulliau cyfathrebu fod ar gael yn Gymraeg hefyd.

“Cynnig gwasanaeth cofrestru a chyhoeddi deunyddiau yn y Gymraeg.” (Ymateb dienw)

“Petai dewis i gyfathrebu yn Gymraeg ar lafar ac ar bapur gyda'r awdurdod trwyddedu, yna byddai siaradwyr Cymraeg yn cael eu trin yn gyfartal â siaradwyr Saesneg, fel y dylent.” (Ymateb dienw)

Cwestiwn 25: Oes gennych unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth o effaith unrhyw fathau gwahanol o gynlluniau sydd eisoes yn rhedeg, neu ddulliau gweithredu a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r byd, y gallai Llywodraeth Cymru ddysgu ganddynt neu eu rhoi ar waith?

- 5.7 Mae'r adrannau isod yn rhestru'r themâu mwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr, sy'n cynnig gwybodaeth neu dystiolaeth am effaith unrhyw fathau gwahanol o gynlluniau sydd eisoes ar waith, neu ddulliau sydd wedi'u cymryd mewn manau eraill yn y byd.

- 5.8 Nid oedd nifer sylweddol o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol, ac roeddent yn cynnig tystiolaeth yn ymwneud ag ardollau ymwelwyr yn hytrach na chynlluniau trwyddedu statudol.

Effeithiau niweidiol ar economi Cymru

- 5.9 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn dadlau bod cynlluniau trwyddedu llety ymwelwyr fel arfer yn gwneud drwg i'r economi ac yn lleihau'r dewis o lety twristiaid sydd ar gael. Soniodd ymatebwyr a gododd y thema hon, a oedd yn cynnwys nifer o ddarparwyr llety i dwristiaid a chyrrff cynrychioladol, am yr enghraifft o'r Alban, lle'r oedd cynllun trwyddedu'n cael effaith negyddol ar hyder busnesau, costau a gweithrediadau. Roedd yr enghreifftiau eraill a gynigiwyd gan ymatebwyr yn cynnwys: (i) Yr Eidal, lle bu gostyngiad yn nifer y busnesau a nifer yr ymwelwyr, a (ii) Ffrainc, lle'r oedd cynlluniau trwyddedu yn ei gwneud yn afresymol o ddrud i weithredu fel darparwr llety bach.

“Os edrychwch chi ar y problemau diweddar y mae'r Alban wedi'u cael gyda'u cynllun trwyddedu, fe welwch fod y perchnogion wedi colli pob hyder ynddo – ac yn ôl arolygon diweddar, mae dros 75% o berchnogion busnesau wedi canfod bod trwyddedu'n fygythiad sylweddol neu'n fygythiad canolig i'w busnes.” (Ymateb dienw)

“Mae'n ymddangos bod y cynllun trwyddedu yn yr Alban wedi cael ei ystyried a'i weithredu'n wael iawn. Ffioedd trwydded sy'n afresymol a gofynion beichus. Diffyg crefftwyr sy'n gymwys i gynnal y profion angenrheidiol.” (Preswlydd yng Nghymru)

“Yn Ffrainc, mae trwyddedu'n golygu ei bod yn afresymol o ddrud rhedeg busnes bach.” (Arall)

Costau gweinyddol uchel

- 5.10 Y thema fwyaf cyffredin ond un oedd bod y cynllun arfaethedig yn debygol o gynyddu'r baich gweinyddol o redeg llety ymwelwyr. Dadleuodd ymatebwyr fod hyn wedi digwydd yn yr Alban, yn ogystal ag yn y sector rhentu preifat yng Nghymru ar ôl creu Rhentu Doeth Cymru. Ymysg y rhai a dynnodd sylw at gostau gweinyddol y cynllun arfaethedig, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn breswylwyr yng Nghymru neu'n llwyfannau archebu.

Yn olaf, soniodd rhai ymatebwyr am gynlluniau cofrestru cyffyrddiad ysgafn llwyddiannus a roddwyd ar waith ym Mhortiwgal a Gwlad Groeg. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, mae'r gwasanaethau cofrestru sydd ar waith yn y gwledydd hyn yn gyfan gwbl ar-lein ac mae'r costau gweinyddol yn is na'r cynllun arfaethedig.

“Yr unig beth mae hyn yn ei olygu i'r darparwr llety gwyliau yw ei fod yn treulio mwy o amser ar waith gweinyddol diangen ac yn wynebu mwy o gost am ddim budd o gwbl.” (Ymateb dienw)

“Mae Portiwgal wedi sefydlu system gofrestru orfodol a hawdd ar gyfer darparwyr llety gwyliau tymor byr. Mae'r broses ar gyfer cofrestru fel llety gwyliau tymor byr yr un fath ledled y wlad ac mae'n 100% ar-lein.” (Ymateb dienw).

Enghreiffiau o arferion gorau ledled Ewrop

- 5.11 Roedd y thema fwyaf cyffredin ond dwy yn y cwestiwn hwn yn cynnwys gwledydd penodol lle'r oedd cynlluniau tebyg, ardollau ymwelwyr, neu fesurau rheoli dros berchnogaeth dramor yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Roedd yr ymatebwyr hyn yn egluro, yn gyffredinol, bod rhywfaint o reoleiddio neu waith monitro llety ymwelwyr a nifer yr ymwelwyr wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus mewn sawl gwlad. Nododd ymatebwyr y canlynol, ymysg eraill, (i) ffioedd twristiaid yn Fenis, a ddefnyddir i ariannu seilwaith newydd, (ii) ffioedd ymweld neu drethi lleol ledled Ewrop i ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau lleol, a (iii) cynlluniau trwyddedu ar gyfer llwyfannau archebu ar-lein yng Nghanada a Sbaen.

“Edrychwch beth sy'n digwydd yn Ewrop. Mae pawb sy'n ymweld yn talu treth leol i ddefnyddio gwasanaethau bws lleol a chael mynediad at gyfleusterau. Beth am greu rhaglen gynhwysfawr sydd ddim yn unig yn codi ffi, ond sy'n rhoi rhywbeth yn ôl hefyd.” (Ymateb dienw)

“Mae trwyddedu eisoes yn weithredol yn Ewrop a gall fod yn beth da.” (Ymateb dienw)

Defnyddio systemau presennol ar gyfer gorfodi

- 5.12 Yn olaf, soniodd rhai ymatebwyr fod systemau presennol, fel sgoriau ac adolygiadau ar lwyfannau archebu, wedi profi i fod yn ffyrdd effeithiol o orfodi safonau diogelwch ac ansawdd.

“Rwy’n credu bod sgoriau gwesteion llety yn ffordd syml iawn o asesu risg darparwyr.” (Perchennog ail gartref)

“Rwy’n meddwl, cyn belled â bod gwefannau cwmnïau llety gwyliau yn cynnal eu harchwiliadau a bod yr holl ymwelwyr/darparwyr yn cael gwybodaeth a manylion adnabod, ni ddylai fod angen y cynllun hwn.” (Preswylydd yng Nghymru)

Cwestiwn 26: Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynllun trwyddedu statudol arfaethedig nas cwmpaswyd yn eich atebion i unrhyw un o'r cwestiynau uchod?

- 5.13 Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am safbwyntiau ychwanegol ar y cynllun trwyddedu statudol arfaethedig, ac mae'r themâu canlynol yn cynrychioli'r safbwyntiau a grybwyllwyd amlaf.

Costau gweinyddol ac ariannol sylweddol

- 5.14 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio'r cwestiwn hwn i ailadrodd y dylid cadw'r costau gweinyddol ac ariannol cysylltiedig mor isel â phosibl, beth bynnag fo manylion gweithredol y cynllun. Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon bryderon ynghylch y ffioedd, a allai o bosibl wthio rhai darparwyr allan o'r farchnad.

“Mae darparu llety yn fusnes cystadleuol iawn, mae'r costau'n uchel ac mae'r elw'n isel i'r rhan fwyaf o bobl, felly dylid cadw unrhyw ffioedd sydd i'w talu am gael trwydded mor isel â phosibl.” (Preswylydd yng Nghymru)

“Rhaid i'r ffioedd fod yn realistig - mae costau'n codi a rhaid i hyn beidio â bod yn ormod gan y bydd yn achosi i rai guddio, a bydd eraill yn cau oherwydd yr holl gostau.” (Preswylydd yng Nghymru)

Effeithiau niweidiol ar y sector twristiaeth

- 5.15 Y thema fwyaf cyffredin ond un oedd y byddai dyluniad a darpariaeth y cynllun o bosibl yn cael effaith negyddol ar ddarparwyr llety ymwelwyr, ac o ganlyniad i hynny, ar y sector twristiaeth ac ar economi Cymru. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynllun yn ddiangen, yn niweidiol i'r diwydiant, ac yn gostus i'r sector twristiaeth a lletygarwch.

“Yn hytrach na chyflwyno ffioedd newydd a rhwystrau i ddarparu llety ymwelwyr, dylai Llywodraeth Cymru fod yn annog mwy o lety o'r fath, gan roi hwb i economi Cymru a darparu mwy o swyddi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.” (Darparwr Llety Ymwelwyr)

“Mae hyn yn ddigalon i ddiwydiant gwerthfawr iawn a bydd yn arwain at gostau ac ymdrech ychwanegol. Ni fydd hyn yn annog darparwyr llai a bydd yn gwneud drwg i'r diwydiant, gan gyfyngu ar dwf mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar dwristiaeth.” (Ymateb dienw)

Safbwyntiau yn erbyn trwyddedu statudol

- 5.16 Fel y trafodwyd yn yr adran themâu cyffredinol, roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynllun yn ei gyfanrwydd, ni waeth beth oedd y manylion gweithredol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o blaid cynllun cofrestru, yn lle cynllun trwyddedu. Roedd ymatebwyr eraill yn amau pa mor effeithiol fyddai'r naill gynllun neu'r llall o ran amcanion Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, awgrymwyd y dylid edrych ar wahanol strategaethau i ddatrys problemau'r farchnad dai, gan gynnwys perchnogaeth ail gartrefi, ac argaeledd a fforddiadwyedd y stoc dai.

“Ar y cyfan, rwy'n anghytuno'n llwyr â'r cynllun trwyddedu.” (Darparwr Llety Ymwelwyr)

“Byddai cynllun cofrestru yn syml, yn rhad ac o werth gwirioneddol. Byddai trwyddedu'n ddrud ac yn gymhleth ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw fanteision go iawn i weithredwyr, gwesteion na chynghorau.” (Preswylydd yng Nghymru)

“Os mai'r gwir nod yw'r gostyngiad tybiedig mewn perchnogaeth ail gartrefi a sicrhau bod cartrefi Cymru ar gyfer pobl leol Cymru, mae ffyrdd eraill o gyflawni hyn (adeiladau newydd gyda chyfamodau cyfyngedig, tai wedi'u clymu i'r sector cyflogaeth).” (Arall)

Ystyriaeth benodol i fusnesau bach, teuluoedd ar incwm isel, ac ardaloedd gwledig

- 5.17 Y thema a oedd bedwaredd fwyaf cyffredin oedd y gallai'r cynllun wneud drwg i fusnesau bach, i deuluoedd ar incwm isel, ac i ardaloedd gwledig. Roedd ymatebwyr a oedd yn codi'r thema hon, gan gynnwys nifer o ddarparwyr llety ymwelwyr a phreswylwyr yng Nghymru, yn mynegi pryderon, yn gyffredinol, bod y grwpiau uchod yn dibynnu'n fawr ar yr economi ymwelwyr, ac y byddai'r cynllun arfaethedig yn effeithio'n anghymesur arnynt.

“Peidiwch â chreu ymerodraeth newydd enfawr i fonitro llety twristiaid, a fydd yn costio ffortiwn i bwrs y wlad ac yn gwneud drwg i fusnesau bach pobl leol. Dydy hi ddim yn hawdd rhedeg llety gwyliau - mae gan ymwelwyr ddisgwyliadau uchel ac er mwyn bod yn llwyddiannus mae'n rhaid i chi gael adolygiadau da cyson a safonau uchel.” (Ymateb dienw)

“Mae'n bwysig iawn eich bod yn ystyried hyfywedd cynllun fel hwn ar gyfer darparwyr llety rhan-amser, llai hefyd – o ran costau (ariannol) ac o ran amser. Ni ddylent gael eu cosbi ond, mewn gwirionedd, dylid eu hannog er mwyn cael amrywiaeth, yn ogystal â llety mwy arbenigol.” (Ymateb dienw)

Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant

- 5.18 Y thema a oedd bumed fwyaf cyffredin oedd y dylai Llywodraeth Cymru gydweithredu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sector preifat i ailystyried ei dull gweithredu. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig cytuno ar lefel synhwyrol o fonitro a gorfodi, ac roedd rhai ohonynt yn cynnig y dylai darparwyr sy'n cydymffurfio gael buddion, gan fod rhai nad ydynt yn cydymffurfio yn cael cosbau.

“Rwy’n annog Llywodraeth Cymru i gysylltu â sefydliadau twristiaeth fel Cynghrair Twristiaeth Cymru a rhanddeiliaid eraill cyn llunio rhagor o ddogfennau ymgynghori.” (Ymateb dienw)

“Rhaid i Lywodraeth Cymru wrando ar y sector [...] gan alluogi cyfres o asesiadau effaith cynhwysfawr i gael eu cynnal o effeithiau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr holl newidiadau sy’n cael eu rhoi ar waith.” (Preswlydd yng Nghymru)

Cwestiwn 27: Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud a fyddai'n helpu Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'i chynigion yn eich barn chi?

- 5.19 Mae'r themâu canlynol yn cynrychioli'r safbwyntiau sy'n cael eu crybwyll amlaf ynghylch beth fyddai'n helpu Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'i chynigion.

Effeithiau niweidiol ar economi Cymru ac ar ddarparwyr llety

- 5.20 Y thema fwyaf cyffredin oedd y byddai'r cynllun arfaethedig yn gwneud drwg i ddarparwyr llety, i'r sector twristiaeth, ac o ganlyniad, i economi Cymru. Nid oedd llawer o'r ymatebwyr hyn yn anghytuno â'r cynllun mewn egwyddor, ond roeddent yn honni y gallai'r cynnig wneud drwg i fusnesau bach, i gymunedau ac i ardaloedd gwledig. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, ychydig iawn o adnoddau sydd gan ddarparwyr bach a hynny mewn amgylchedd cystadleuol. Roedd yr ymatebwyr yn ofni y gallai'r cynllun hwn gael effaith negyddol ar eu gweithrediadau.

“Mae'r diwydiant twristiaeth yn dioddef, mae llawer ohonom wedi gostwng ein cyfraddau bob nos yn sylweddol er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd, a gallai 'bil' arall fod yn niweidiol dros ben. Bydd pobl wedyn yn cael eu drysu gan yr hyn sy'n syniad da ac yn canolbwyntio mwy ar faint y bydd yn ei gostio iddyn nhw.” (Ymateb dienw)

“Cofiwch nad yw pawb eisiau aros mewn gwestai a llety gwely a brecwast. Mae angen llety hunanddarpar ar bobl sydd â theuluoedd ac anifeiliaid anwes, felly mae'n fy rhoeni bod y deddfau newydd sy'n ymwneud ag

archebu isafswm nosweithiau ac argaeledd yn achosi i fusnesau hunanddarpar gau mewn ardaloedd llai twristaidd.” (Ymateb dienw)

“Mae’n syniad da ar yr amod nad yw’n rhoi baich ar fusnesau bach naill ai o ran cost neu waith papur.” (Ymateb dienw)

Gwahaniaethu rhwng perchnogion eiddo gwyliau ac ail gartrefi

Yr ail thema a godwyd amlaf oedd y dylai Llywodraeth Cymru wahaniaethu’n glir rhwng eiddo gwyliau ac ail gartrefi. Yn ôl yr ymatebwyr, gan gynnwys nifer o ddarparwyr llety ymwelwyr a chyrff sy’n cynrychioli twristiaeth, mae llety gwyliau yn cynnig llety deniadol i ymwelwyr, sy’n arwain at fanteision economaidd gydol y flwyddyn, ac nad yw hyn yn wir, o bosibl, am ail gartrefi.

“Nid yw’n ystyried y gwahaniaeth clir rhwng manteision eiddo gwyliau (sy’n arwain at fanteision economaidd gydol y flwyddyn i ardal), ac ail gartref (y mae unigolyn yn ei ddefnyddio ychydig o weithiau y flwyddyn yn unig).” (Ymateb dienw)

“Mae angen i’r llywodraeth gydnabod bod llety gwyliau proffesiynol yn rhan o’r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac yn cyfrannu at yr economi genedlaethol a lleol.” (Perchennog busnes bwthyn gwyliau)

Anghytuno’n gyffredinol â thrwyddedu

- 5.21 Yn olaf, roedd nifer o’r ymatebwyr yn ailadrodd eu gwrthwynebiad i gynllun trwyddedu, gan ddadlau y byddai hwn yn bolisi niweidiol mewn sector sydd eisoes yn gystadleuol iawn. Fel y trafodwyd o dan y themâu cyffredinol ar ddechrau’r adroddiad hwn, roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai hyn yn mynd y tu hwnt i reoleiddio, ac roeddent yn credu y dylai’r llywodraeth beidio ag ymyrryd yn yr economi. Fodd bynnag, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at gynllun cofrestru, yn hytrach na chynllun trwyddedu statudol, a allai fod yn ddewis gwahanol, effeithiol, llai ymwthiol, a dywedodd rhai ohonynt y byddai’n adnodd defnyddiol i gwmpasu cyflwr y sector.

“Rwy’n meddwl ei fod yn syniad gwael mewn maes cystadleuol iawn.” (Ymateb dienw)

“Dydy rheoleiddio’n ormodol ddim yn helpu. Yr hyn sydd ei angen arnom yw gorfodi arferion ac ymarferion presennol a rhoi adnoddau i awdurdodau lleol er mwyn gallu plismona’r rhain. Mae rheolau a rheoliadau ar waith yr ydym yn cydymffurfio â nhw ar hyn o bryd. Yn anffodus, dydy cydymffurfio da ddim yn cael ei wobrwyo a dydy cydymffurfio gwael ddim yn cael ei blismona’n ddigonol.” (Preswlydd yng Nghymru)

“Cynnig cofrestru fel cam cyntaf i bennu graddfa, cwmpas a chyfansoddiad y sector.” (Preswlydd yng Nghymru)

6. Atodiad A – dadansoddiad manwl o'r segmentau

Ffigur 26. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â sefydlu cynllun trwyddedu ar gyfer yr holl lety ymwelwyr yng Nghymru

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Parc cenedlaethol	75%	25%	0%
Awdurdod Lleol	67%	33%	0%
Cymdeithas twristiaeth	32%	64%	5%
Llwyfan archebu	30%	64%	6%
Asiantaethau llety hunanddarpar	29%	65%	6%
Preswlydd (yng Nghymru)	25%	67%	8%
Arall	24%	62%	14%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	23%	77%	0%
Darparwr Llety Ymwelwyr	21%	68%	12%

Ffigur 27. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â sefydlu cynllun cofrestru ar gyfer yr holl lety ymwelwyr yng Nghymru

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Cymdeithas twristiaeth	58%	42%	0%
Parc cenedlaethol	50%	33%	17%
Awdurdod Lleol	47%	40%	13%
Asiantaethau llety hunanddarpar	47%	40%	13%
Llwyfan archebu	45%	48%	7%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	42%	42%	17%
Preswlydd (yng Nghymru)	38%	50%	12%
Darparwr Llety Ymwelwyr	37%	49%	14%
Arall	32%	50%	18%

Ffigur 28. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau tegwch i bob darparwr llety yng Nghymru

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	58%	37%	5%
Parc cenedlaethol	38%	25%	38%
Cymdeithas twristiaeth	32%	50%	18%
Llwyfan archebu	29%	59%	13%
Preswlydd (yng Nghymru)	25%	62%	14%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	23%	31%	46%
Arall	23%	64%	13%
Asiantaethau llety hunanddarpar	22%	69%	8%
Darparwr Llety Ymwelwyr	21%	65%	14%

Ffigur 29. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno bod Llywodraeth Cymru angen cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Cymdeithas twristiaeth	67%	29%	4%
Parc cenedlaethol	63%	38%	0%
Awdurdod Lleol	58%	42%	0%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	54%	38%	8%
Asiantaethau llety hunanddarpar	49%	43%	8%
Llwyfan archebu	44%	49%	6%
Arall	40%	45%	16%
Preswlydd (yng Nghymru)	39%	51%	11%
Darparwr Llety Ymwelwyr	38%	50%	12%

Ffigur 30. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno bod awdurdodau lleol angen cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	68%	26%	5%
Cymdeithas twristiaeth	65%	22%	13%
Parc cenedlaethol	50%	50%	0%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	50%	25%	25%
Asiantaethau llety hunanddarpar	44%	44%	13%
Llwyfan archebu	43%	43%	14%
Arall	37%	46%	17%
Darparwr Llety Ymwelwyr	36%	49%	15%
Preswlydd (yng Nghymru)	36%	51%	13%

Ffigur 31. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau llwyfan effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	53%	41%	6%
Cymdeithas twristiaeth	43%	48%	10%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	31%	54%	15%
Parc cenedlaethol	29%	29%	43%
Asiantaethau llety hunanddarpar	26%	63%	11%
Llwyfan archebu	23%	65%	12%
Preswlydd (yng Nghymru)	22%	65%	13%
Arall	19%	59%	22%
Darparwr Llety Ymwelwyr	19%	65%	16%

Ffigur 32. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cyflwyno cynllun trwyddedu statudol yn sicrhau mwy o hyder mewn llety ymwelwyr ac mewn darparwyr llety yng Nghymru

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	63%	32%	5%
Parc cenedlaethol	38%	38%	25%
Cymdeithas twristiaeth	30%	48%	22%
Llwyfan archebu	30%	66%	4%
Asiantaethau llety hunanddarpar	27%	67%	6%
Preswlydd (yng Nghymru)	23%	66%	12%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	21%	43%	36%
Darparwr Llety Ymwelwyr	20%	67%	13%
Arall	19%	63%	19%

Ffigur 33. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai cynllun statudol gael ei ddarparu ar sail hybrid, fel y mae'n cael ei ddisgrifio

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	47%	47%	7%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	38%	38%	23%
Asiantaethau llety hunanddarpar	31%	58%	10%
Cymdeithas twristiaeth	29%	57%	14%
Llwyfan archebu	28%	62%	10%
Arall	27%	54%	19%
Parc cenedlaethol	25%	63%	13%
Preswlydd (yng Nghymru)	24%	58%	18%
Darparwr Llety Ymwelwyr	22%	59%	19%

Ffigur 34. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno ag ystyried yr holl ddarparwyr llety ymwelwyr o dan y cynllun statudol

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	56%	44%	0%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	54%	46%	0%
Parc cenedlaethol	50%	25%	25%
Cymdeithas twristiaeth	45%	36%	18%
Llwyfan archebu	38%	53%	9%
Asiantaethau llety hunanddarpar	38%	50%	13%
Preswlydd (yng Nghymru)	35%	56%	10%
Arall	33%	55%	12%
Darparwr Llety Ymwelwyr	32%	57%	12%

Ffigur 35. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am osod y llety ar safleoedd carafannau a/neu wersylla at ddibenion gwyliau, gael trwydded

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	63%	37%	0%
Parc cenedlaethol	63%	38%	0%
Asiantaethau llety hunanddarpar	49%	43%	9%
Cymdeithas twristiaeth	48%	44%	8%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	38%	38%	23%
Llwyfan archebu	38%	52%	11%
Preswlydd (yng Nghymru)	37%	48%	15%
Darparwr Llety Ymwelwyr	34%	46%	20%
Arall	33%	44%	23%

Tudalen 153

Ffigur 36. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod angen trwydded ar lety ymwelwyr hyd yn oes os yw'n gweithredu'n anaml (gan gynnwys un noson y flwyddyn)

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	56%	44%	0%
Cymdeithas twristiaeth	52%	43%	4%
Parc cenedlaethol	50%	38%	13%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	46%	46%	8%
Asiantaethau llety hunanddarpar	41%	57%	2%
Llwyfan archebu	35%	56%	9%
Arall	31%	56%	13%
Preswlydd (yng Nghymru)	29%	61%	10%
Darparwr Llety Ymwelwyr	27%	61%	12%

Ffigur 37. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r angen am drwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Asiantaethau llety hunanddarpar	41%	46%	13%
Cymdeithas twristiaeth	38%	52%	10%
Llwyfan archebu	36%	47%	17%
Awdurdod Lleol	33%	53%	13%
Preswlydd (yng Nghymru)	33%	46%	21%
Darparwr Llety Ymwelwyr	31%	44%	25%
Arall	30%	41%	30%
Parc cenedlaethol	25%	50%	25%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	15%	54%	31%

Ffigur 38. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r wybodaeth arfaethedig sydd ei hangen i ddangos eu bod yn cydymffurfio

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Parc cenedlaethol	63%	38%	0%
Awdurdod Lleol	60%	33%	7%
Cymdeithas twristiaeth	48%	52%	0%
Asiantaethau llety hunanddarpar	40%	52%	8%
Llwyfan archebu	35%	52%	13%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	33%	67%	0%
Preswlydd (yng Nghymru)	32%	57%	10%
Arall	32%	50%	18%
Darparwr Llety Ymwelwyr	30%	56%	13%

Ffigur 39. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â chynnal arolygiadau ar gymhareb 1:50 gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg ac arolygiadau ychwanegol

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	57%	29%	14%
Asiantaethau llety hunanddarpar	48%	31%	21%
Cymdeithas twristiaeth	45%	41%	14%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	38%	38%	23%
Parc cenedlaethol	38%	38%	25%
Llwyfan archebu	34%	48%	17%
Preswlydd (yng Nghymru)	31%	52%	17%
Darparwr Llety Ymwelwyr	30%	51%	19%
Arall	28%	47%	24%

Ffigur 40. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddor y dylai darparwyr llety ymwelwyr nad ydynt yn cydymffurfio fod yn destun mesurau gorfodi

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	67%	25%	8%
Parc cenedlaethol	63%	38%	0%
Awdurdod Lleol	60%	27%	13%
Cymdeithas twristiaeth	55%	36%	9%
Asiantaethau llety hunanddarpar	51%	36%	13%
Llwyfan archebu	49%	41%	10%
Arall	41%	36%	23%
Preswlydd (yng Nghymru)	40%	44%	16%
Darparwr Llety Ymwelwyr	38%	42%	20%

Ffigur 41. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â chynnwys prawf person cymwys a phriodol neu debyg fel rhan o ofynion y cynllun

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	56%	44%	0%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	38%	62%	0%
Parc cenedlaethol	38%	38%	25%
Asiantaethau llety hunanddarpar	32%	53%	15%
Cymdeithas twristiaeth	32%	55%	14%
Preswlydd (yng Nghymru)	26%	56%	18%
Llwyfan archebu	25%	58%	16%
Darparwr Llety Ymwelwyr	23%	56%	22%
Arall	22%	53%	26%

Ffigur 42. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r holl ddarparwyr llety ymwelwyr dalu'r un ffi

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	21%	68%	11%
Cymdeithas twristiaeth	13%	65%	22%
Asiantaethau llety hunanddarpar	12%	65%	22%
Llwyfan archebu	11%	70%	19%
Arall	10%	71%	19%
Darparwr Llety Ymwelwyr	9%	75%	16%
Preswlydd (yng Nghymru)	9%	78%	13%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	7%	71%	21%
Parc cenedlaethol	0%	50%	50%

Ffigur 43. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai ffoedd fod ar raddfa yn seiliedig ar faint y llety ymwelwyr

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	53%	27%	20%
Asiantaethau llety hunanddarpar	53%	36%	11%
Preswlydd (yng Nghymru)	50%	33%	16%
Cymdeithas twristiaeth	50%	23%	27%
Llwyfan archebu	47%	30%	23%
Darparwr Llety Ymwelwyr	47%	35%	18%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	46%	31%	23%
Arall	42%	38%	20%
Parc cenedlaethol	38%	0%	63%

Tudalen 157

Ffigur 44. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y gallai darparwyr wneud cais am drwydded untro am gost ostyngol.

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	45%	45%	9%
Awdurdod Lleol	41%	41%	18%
Asiantaethau llety hunanddarpar	40%	38%	21%
Darparwr Llety Ymwelwyr	30%	37%	33%
Preswylydd (yng Nghymru)	30%	41%	29%
Arall	29%	36%	34%
Llwyfan archebu	28%	49%	23%
Parc cenedlaethol	25%	25%	50%
Cymdeithas twristiaeth	22%	39%	39%

Ffigur 45. Dadansoddiad o'r opsiynau roedd ymatebwyr yn eu ffafrio ar gyfer pa mor aml y dylid adnewyddu

	Bob blwyddyn	Bob 2 flynedd	Bob 3 blynedd	Bob 4 blynedd	Bob 5 mlynedd
Awdurdod Lleol	30%	20%	30%	0%	20%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	22%	22%	22%	0%	33%
Llwyfan archebu	19%	13%	21%	1%	46%
Preswylydd (yng Nghymru)	15%	8%	17%	2%	58%
Parc cenedlaethol	14%	14%	29%	0%	43%
Arall	13%	8%	15%	1%	64%
Darparwr Llety Ymwelwyr	12%	7%	16%	1%	64%
Cymdeithas twristiaeth	12%	18%	29%	0%	41%
Asiantaethau llety hunanddarpar	9%	14%	29%	3%	46%

Ffigur 46. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr gynnal adolygiad blynyddol os bydd yn ofynnol adnewyddu trwyddedau'n llai aml na phob blwyddyn

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	53%	26%	21%
Parc cenedlaethol	50%	13%	38%
Cymdeithas twristiaeth	48%	33%	19%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	44%	33%	22%
Asiantaethau llety hunanddarpar	36%	49%	15%
Llwyfan archebu	32%	47%	20%
Preswilydd (yng Nghymru)	32%	49%	19%
Darparwr Llety Ymwelwyr	29%	50%	20%
Arall	25%	50%	24%

Ffigur 47. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn rhannu gwybodaeth ag awdurdodau a phartneriaid allweddol

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	62%	38%	0%
Parc cenedlaethol	50%	38%	13%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	50%	50%	0%
Cymdeithas twristiaeth	38%	48%	14%
Llwyfan archebu	31%	60%	9%
Asiantaethau llety hunanddarpar	26%	65%	9%
Preswilydd (yng Nghymru)	26%	61%	13%
Arall	23%	57%	20%
Darparwr Llety Ymwelwyr	22%	62%	16%

Ffigur 48. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr llety ymwelwyr arddangos ei rif trwydded ar bob deunydd hysbysebu/marchnata ac yn ei lety i ymwelwyr ac y dylai fod yn agored i gosbau os nad yw'n cydymffurfio

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Awdurdod Lleol	64%	21%	14%
Parc cenedlaethol	57%	14%	29%
Cymdeithas twristiaeth	57%	33%	10%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	55%	27%	18%
Llwyfan archebu	39%	48%	13%
Asiantaethau llety hunanddarpar	38%	44%	18%
Preswilydd (yng Nghymru)	33%	54%	12%
Arall	31%	49%	20%
Darparwr Llety Ymwelwyr	30%	55%	15%

Ffigur 49. Dadansoddiad o'r ymatebwyr sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i bob trefnwyr gwyliau ar-lein, sefydliadau masnach teithio, sianeli archebu eraill a sianeli cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau marchnata ac asiantaethau hunanddarpar arddangos rhif trwydded y llety ymwelwyr y maent yn ei hyrwyddo ar eu rhestrau a/neu hysbysebion ac y dylent fod yn agored i gosbau os ydynt yn hysbysebu llety ymwelwyr heb drwydded yn fwriadol neu'n esgeulus

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Parc cenedlaethol	57%	14%	29%
Corff sy'n cynrychioli twristiaeth	55%	36%	9%
Awdurdod Lleol	47%	33%	20%
Cymdeithas twristiaeth	43%	48%	9%
Llwyfan archebu	34%	50%	16%
Preswlydd (yng Nghymru)	33%	52%	15%
Arall	31%	44%	25%
Darparwr Llety Ymwelwyr	30%	51%	19%
Asiantaethau llety hunanddarpar	30%	50%	20%